Rhif 5 Ionawr 2010 • ISSN 1741-4261

# Gwerddon

## CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

Cyhoeddwyd gyda chymorth:

Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg
Centre for Welsh Medium Higher Education

Rhif 5 Ionawr 2010 • ISSN 1741-4261

# Gwerddon

**CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG**

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

*Cyhoeddwyd gyda chymorth y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg*

# Bwrdd Golygyddol


| | |
|---|---|
| Golygydd: | Yr Athro Ioan M. Williams |
| Cynorthwyydd Golygyddol: | Dr Gethin Rhys |
| Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: | Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd |
| Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: | Dr John Davies, Prifysgol Abertawe<br>Dr Noel Davies, Coleg Prifysgol y Drindod<br>Dr Pyrs Gruffydd, Prifysgol Abertawe<br>Dr Carwyn Jones, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd<br>Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor<br>Dr Delyth Morris, Prifysgol Bangor<br>Dr Andrew Parry, Prifysgol Glyndŵr<br>Dr Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth<br>Dr Karen Stöber, Prifysgol Aberystwyth<br>Wyn Thomas, Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Colin Williams, Prifysgol Caerdydd<br>Dr Daniel Williams, Prifysgol Abertawe<br>Dr Einir Young, Prifysgol Bangor |



e-Gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.org

Cyllidir *Gwerddon* gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.org neu drwy'r post: Gwerddon, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

ISSN 1741-4261



Hawlfraint *Gwerddon*



www.gwerddon.org

# Cynnwys


Crynodebau 5

Summaries 7

Erthygl 1: Bryn Jones, " 'Amrywiaeth Caleidosgopig': addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw" 9

Erthygl 2: Dr Elin Royles, "Llywodraeth ranbarthol a chymdeithas sifil yng Nghymru a Chatalwnia" 27

Erthygl 3: Leila Salisbury, "Golwg ar ganeuon serch Iolo Morganwg, gyda sylw arbennig i'r 'Ferch o'r Scerr' " 53

Cyfranwyr 81

# Crynodebau

## Bryn Jones, " 'Amrywiaeth Caleidosgopig': addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw"

Mae addysg ddwyieithog (h.y. Cymraeg a Saesneg) yn digwydd yn gyffredin yng Nghymru. Erbyn hyn, ceir amrywiaeth sylweddol yn narpariaeth addysg ddwyieithog ac, fel yn achos ieithoedd lleiafrifol mewn rhannau eraill o Ewrop, mae addysg ddwyieithog yng Nghymru yn gyfuniad o addysg mewn treftadaeth / cynhaliaeth iaith (Cymraeg iaith 1af) ac addysg drochi (Cymraeg 2il iaith). Gan fod addysg ddwyieithog ledled Cymru wedi'i nodweddu gan "amrywiaeth caleidosgopig" (Baker 1993:15), mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu ac addysgu dwyieithog.

Yn dilyn cyfweliadau / arsylwadau mewn ysgolion uwchradd a chynradd dwyieithog ledled Cymru yn ystod 2007-2009, bydd y papur hwn yn esbonio nodau a methodoleg y prosiect ymchwil dan sylw, cyn symud ymlaen i drafod rhai canfyddiadau cychwynnol. Ceir cyfeiriad penodol at ddefnydd cydamserol, pwrpasol o iaith, gan fod athrawon yn defnyddio'r ddwy iaith ar yr un pryd yn ystod gwersi.

Deuir i'r casgliad bod angen ymchwil bellach i `amrywiaeth caleidosgopig' arferion addysg ddwyieithog mewn ysgolion yng Nghymru, yn ogystal â dadansoddiad a gwerthusiad o'r modiwlau addysgu dwyieithog yr arsylwyd arnynt.

## Dr Elin Royles, "Llywodraeth ranbarthol a chymdeithas sifil yng Nghymru a Chatalwnia"

Roedd cryfhau ac adfywio democratiaeth yn rhesymeg gyffredin dros sefydlu llywodraeth ranbarthol yn Sbaen ac yn y Deyrnas Unedig. Yn y cyd-destun hwn, mae'r erthygl hon yn ceisio asesu effaith llywodraeth ranbarthol ar y berthynas rhwng cymdeithas sifil a llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a Chatalwnia. Wedi'i seilio ar astudiaethau achos, asesir i ba raddau y mae strwythurau llywodraeth ranbarthol yn hyrwyddo cyfranogiad mewn cymdeithas sifil a dadansoddir effaith llywodraeth ranbarthol ar hunaniaeth cymdeithas sifil. Er y gwahaniaethau, yn y ddau achos, roedd y llywodraethau rhanbarthol wedi ymgymryd ag ymdrechion `o'r brig i lawr' i adeiladu cymdeithas sifil ac mae'r olaf wedi cyfrannu at y prosiectau adeiladu cenedl yng Nghatalwnia a Chymru. Mae'r canfyddiadau yn tynnu sylw at y goblygiadau democrataidd negyddol o bosibl sy'n deillio o'r cysylltiadau rhwng llywodraeth ranbarthol a chymdeithas sifil, ac effeithiau diwylliant gwleidyddol ehangach.

## Leila Salisbury, “Golwg ar ganeuon serch Iolo Morganwg, gyda sylw arbennig i’r ‘Ferch o’r Scerr’ ”

Mae llawysgrifau Iolo Morganwg (1747 – 1826), yn ogystal â’i gasgliad o ganeuon gwerin brodorol, yn rhoi cipolwg unigryw i ni ar gyfnod pwysig yn hanes diwylliant Cymru yn ystod y ddeunawfed ganrif a’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Prif ffocws yr astudiaeth hon yw’r caneuon serch a geir yn ei gasgliad, ynghyd â’r cyd-destun a’r cefndir cymdeithasol ehangach sy’n sail i’r caneuon gwerin. Gellir olrhain y traddodiad hwn i feirdd yr uchelwyr ac, yn arbennig, i oes Dafydd ap Gwilym. Hefyd, trafodir un dôn werin benodol yn fanwl, ‘Y Ferch o’r Scerr’. Mae’r stori serch, y dôn werin a’r geiriau sydd fel arfer yn gysylltiedig â’r ‘Ferch o’r Scerr’ i gyd yn dra hysbys mewn sawl cylch, fodd bynnag, mae’r dôn werin a recordiwyd gan Iolo yn gwbl anhysbys.

# Summaries

## Bryn Jones, " 'Kaleidoscopic Variety': bilingual education in Wales today"

Bilingual education (i.e. Welsh and English) occurs widely in Wales. By now, considerable variation exists in the provision of bilingual education and, as in the case of minority languages in other European regions, bilingual education in Wales is a combination of education in language heritage/ maintenance (1st Language Welsh) and immersion education (2nd Language Welsh). Because the bilingual education throughout Wales is characterised by "kaleidoscopic variation" (Baker 1993:15), teachers use a wide variety of teaching methods and bilingual teaching.

Following interviews/observations at bilingual secondary and primary schools throughout Wales during 2007-2009, this paper will explain the aims and methodology of the research project in question, before moving on to discuss some initial findings. Specific reference is made to purposeful concurrent use of language, as teachers use both languages concurrently during the lesson.

The conclusion is reached that further research is necessary into the 'kaleidoscopic variation' of bilingual educational practice in schools in Wales, as well as the analysis and evaluation of the bilingual teaching modules which were observed.

## Dr Elin Royles, "Regional government and civil society in Wales and Catalonia"

Strengthening and revitalising democracy was a common rationale for establishing regional government in Spain and the United Kingdom. In this context, this article aims to assess the impact of regional government on the relationship between civil society and devolved government in Wales and in Catalonia. Based on case studies, the extent to which regional government structures promote civil society participation is assessed and regional government's impact on the identity of civil society is analysed. Despite the differences, in both cases regional governments undertook 'top-down' efforts to build civil society and the latter has contributed to the Catalan and Welsh nation-building projects. The findings draw attention to the potentially negative democratic implications arising from regional government and civil society relations and the effects of broader political culture.

## Leila Salisbury, “The love-songs of Iolo Morganwg, with particular reference to ‘Y Ferch o’r Scerr’ (‘The Lady of Sker’)”

The manuscripts of Iolo Morganwg (1747 – 1826), as well as his collection of native folk-songs, give us a unique insight into an important period in the history of Welsh culture during the eighteenth and nineteenth centuries. The central focus of this study is the love-songs found in his collection, together with the wider social context and background which serve to underpin the folk songs. One can trace this tradition to the poets of the nobility, and especially to the age of Dafydd ap Gwilym. Also one folk-tune in particular will be discussed in detail, ‘The Lady of Sker’. The love story, the folk-tune and the words which are normally associated with ‘The Lady of Sker’ are all well-known in several circles, however the folk-tune recorded by Iolo is totally unknown.

Bryn Jones

# 'Amrywiaeth Caleidosgopig': addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw

Rhif 5 Ionawr 2010 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# ‘Amrywiaeth Caleidosgopig’: addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw


## Bryn Jones


### Cyflwyniad

Pwrpas y papur hwn yw adrodd ar broject ymchwil cyfredol i addysg ddwyieithog (h.y. Cymraeg a Saesneg) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru. Erbyn heddiw mae amrywiaeth sylweddol yn y ddarpariaeth addysg ddwyieithog, ac fel yn achos ieithoedd lleiafrifol rhanbarthau eraill yn Ewrop, mae addysg ddwyieithog yng Nghymru yn gyfuniad o addysg iaith treftadaeth/cynnal (Cymraeg Iaith 1) ac addysg drochi (Cymraeg Iaith 2). Oherwydd bod `amrywiaeth caleidosgopig' (Baker 1993:15) yn nodweddu'r ddarpariaeth ddwyieithog ar draws Cymru, defnyddir amrywiaeth eang o ddulliau dysgu ac addysgu dwyieithog gan athrawon.


Yn dilyn cyfweliadau/arsylwadau mewn ysgolion uwchradd a chynradd dwyieithog ledled Cymru yn ystod 2007–2009, bydd y papur hwn yn egluro amcanion a methodoleg y project ymchwil dan sylw, cyn symud ymlaen i drafod rhai canfyddiadau cychwynnol. Cyfeirir yn benodol at `drawsieithu' wrth i athrawon ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfamserol yn yr un wers. Cesglir bod `amrywiaeth caleidosgopig' o ymarfer addysgol dwyieithog yn ysgolion Cymru, a bydd modd defnyddio tystiolaeth yr ymchwil i lunio teipoleg o addysg ddwyieithog yng Nghymru.

Cyfeirir ar gychwyn y papur hwn at ystadegau (Cyfrifiad 2001) am niferoedd siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ogystal â'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Eglurir amcanion y project ymchwil a sefydlwyd ym Medi 2007 yng Nghanolfan ESRC Dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd, Prifysgol Bangor. Ceir cipolwg o ganfyddiadau cychwynnol, i gloi, trafodir goblygiadau'r ymchwil ar gyfer gweithredu polisi addysg ddwyieithog yng Nghymru a thu hwnt.

### Yr Iaith Gymraeg

Gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Dengys ystadegau Cyfrifiad 2001 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003, www.bwrdd-yr-iaith.org.uk , gweler Ffigwr 1) bod 582,400 (20.8%) o boblogaeth Cymru (3 oed a throsodd) yn datgan eu bod yn gallu siarad o leiaf peth Cymraeg. Nodwyd bod 457,946 (16.3%) yn deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, a bod 138,416 (4.9%) yn deall Cymraeg llafar yn unig.

Ymhlith disgyblion ysgol y cafwyd y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 40.8 y cant ymhlith disgyblion 5-15 oed. Ymddengys bod y cynnydd hwn yn adlewyrchu dylanwad Deddf Diwygio Addysg 1988 (gyda'r safle a roddwyd i'r Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol), yn ogystal â'r twf yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg (www.rhag.net/index.html).




**Ffigwr 1**: Canlyniadau Cyfrifiad 2001: % yn gallu siarad Cymraeg yn ôl oedran (Ffynhonnell: Hywel M. Jones, Bwrdd yr Iaith Gymraeg)

## Y Gymraeg yn yr ysgolion

Yn ystod y saith deg mlynedd diwethaf mae addysg cyfrwng Cymraeg wedi datblygu a ffynnu ar hyd a lled Cymru. Eleni cyhoeddwyd ymgynghoriad *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009), a nodwyd bod y strategaeth hon 'yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru o gael gwlad lle y mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r seilwaith addysg' (2009:1, www.wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/090507wmscy.pdf)

Yn ôl adroddiad ystadegol diweddaraf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2007), *Y Gymraeg yn yr Ysgol 2007*, gwelwyd bod cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Dengys Tabl 1 bod 466 o ysgolion cyfrwng Cymraeg (30.5 y cant o'r ysgolion) yn cynnwys 54,100 o ddisgyblion, wyth ysgol a 1,200 o ddisgyblion yn fwy nag yn 2006. Gwelwyd cynnydd o 20.1 y cant yn 2006 i 20.3 y cant yn 2007 yng nghanran y disgyblion cynradd a addysgir mewn dosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg fel y prif gyfrwng addysgu. Yn y sector uwchradd bu cynnydd o 15.2 y cant yn 2006 i 15.4 y cant yn 2007 yng nghanran disgyblion Blynyddoedd 7–11 sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

**Tabl 1**: Dadansoddiad ystadegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2007a)

| **Ysgolion cynradd ym mis Ionawr 2007** |
|---|
| Ym mis Ionawr 2007, roedd yna 466 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (30.5 y cant o'r ysgolion) yn cynnwys 54,100 o ddisgyblion, wyth ysgol a 1,200 o ddisgyblion yn fwy nag yn 2006. |
| Bu cynnydd yng nghanran y disgyblion ysgol gynradd a addysgir mewn dosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg fel y prif gyfrwng addysgu, o 20.1 y cant yn 2006 i 20.3 y cant yn 2007. |
| Bu cynnydd yng nghanran y disgyblion a asesir yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1, o 20.0 y cant i 20.3 y cant. |
| Bu cynnydd yng nghanran y disgyblion a asesir yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, o 19.3 y cant yn 2005 i 19.5 y cant yn 2007. |

| Ysgolion uwchradd ym mis Ionawr 2007 |
| --- |
| Bu cynnydd yng nghanran y disgyblion blynyddoedd 7–11 (oedran ysgol gorfodol) mewn ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf, o 15.2 y cant yn 2006 i 15.4 y cant yn 2007. Roedd 83.7 y cant pellach yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith. |
| Roedd 16.2 y cant o ddisgyblion blwyddyn 7 yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf, gostyngiad o 16.7 y cant yn 2006. |
| Bu gostyngiad yng nghanran y disgyblion a asesir yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, o 15.7 y cant yn 2006 i 15.3 y cant yn 2007, mymryn yn uwch na'r canran o ddisgyblion blwyddyn 9 yn astudio'r Gymraeg fel iaith (15.2 y cant). |

Ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain mae addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cynnwys disgyblion o sbectrwm ieithyddol eang ac amrywiol (Lewis 2008:75). Yn yr un ysgol, mae'n eithaf cyffredin gweld plant o gartrefi lle y siaredir dim ond Cymraeg, plant eraill o gartrefi lle y siaredir rhywfaint o Gymraeg, a phlant eraill nad ydynt yn cael unrhyw gysylltiad â Chymraeg gartref (Llywodraeth Cynulliad Cymru,2009:84). Mae athrawon yn wynebu amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ac anghenion ieithyddol yn eu dosbarthiadau, ac mae goblygiadau hyn yn sylweddol o safbwynt dulliau addysgu gwahaniaethol ar gyfer disgyblion Cymraeg Iaith 1 a Iaith 2, trefniadaeth dosbarth, a hyfforddiant athrawon (Lewis 2008:76). Sylwyd bod angen edrych ar yr effaith a gaiff dosbarthiadau o'r fath ar natur ac ansawdd datblygiad Cymraeg y disgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg (Lewis 2006:26). Mae Tabl 2 yn dangos yr amrywiaeth amlwg ledled Cymru yn nifer y disgyblion cynradd ac uwchradd sydd yn siarad Cymraeg gartref.

Dylid ystyried y gwahaniaethau hyn (er enghraifft, 52.7 y cant o ddisgyblion cynradd Gwynedd a 0.2 y cant o ddisgyblion cynradd Casnewydd yn siarad Cymraeg gartref) wrth gynllunio'r ddarpariaeth ieithyddol mewn ysgolion ledled Cymru.

## Galw am Ymchwil

Er bod 'cymunedau dwyieithog ac amlieithog ledled Ewrop a'r byd yn cydnabod ein llwyddiant, ac yn ystyried y system addysg cyfrwng Cymraeg yn enghraifft o arfer orau i'w hefelychu' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009:1), nodwyd droeon mai prin yw'r gwaith ymchwil i'r ddarpariaeth addysg ddwyieithog yng Nghymru (Baker 1993:25, Lewis 2008:79, Williams 2002:5). Er enghraifft, nid oes unrhyw ddata na thystiolaeth gynhwysfawr ar gael ynglŷn â dyrannu iaith mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru. Yn 2007 cafwyd cyfle i ddiwallu'r galw am ymchwil i addysg ddwyieithog yng Nghymru pan sefydlwyd Canolfan ESRC dros Ymchwil i Theori ac Ymarfer Dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor.
www.bilingualism.bangor.ac.uk/index.php.en

**Tabl 2**: Amrywiaeth ymhlith disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yn siarad Cymraeg gartref

*(Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007a: Tabl 4 & Tabl 17)*

| | Cynradd Nifer | % | Uwchradd Nifer | |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,448 | 33.5 | 1,511 | 39.5 |
| Gwynedd | 4,092 | 52.7 | 4,266 | 59.2 |
| Conwy | 773 | 11.0 | 701 | 10.8 |
| Sir Ddinbych | 562 | 8.7 | 779 | 11.4 |
| Sir y Fflint | 214 | 2.0 | 184 | 2.0 |
| Wrecsam | 237 | 2.7 | 241 | 3.6 |
| Powys | 592 | 6.8 | 499 | 6.3 |
| Ceredigion | 1,280 | 30.9 | 1,565 | 37.7 |
| Sir Benfro | 463 | 5.7 | 551 | 7.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 2,491 | 21.4 | 2,487 | 23.1 |
| Abertawe | 304 | 2.0 | 434 | 3.3 |
| Castell-nedd P. Talbot | 473 | 5.1 | 553 | 6.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 186 | 1.9 | 13 | 0.2 |
| Bro Morgannwg | 371 | 4.0 | 378 | 4.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 770 | 4.8 | 696 | 4.5 |
| Merthyr Tudful | 60 | 1.5 | 5 | 0.1 |
| Caerffili | 47 | 0.4 | 56 | 0.5 |
| Blaenau Gwent | 35 | 0.7 | 1 | 0.0 |
| Torfaen | 17 | 0.3 | 62 | 0.9 |
| Sir Fynwy | 56 | 1.0 | 5 | 0.1 |
| Casnewydd | 23 | 0.2 | 4 | 0.0 |
| Caerdydd | 838 | 3.9 | 677 | 3.7 |
| Cymru | 15,332 | 7.6 | 15,668 | 8.6 |

Dyma'r ganolfan ymchwil gyntaf o'i bath ym Mhrydain i ganolbwyntio'n benodol ar ddwyieithrwydd; cyllidir y fenter gan yr ESRC (Economic and Social Research Council), Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Sefydlwyd pum grŵp ymchwil sydd yn rhoi sylw i ddwyieithrwydd o safbwynt rhyngddisgyblaethol: Niwrowyddoniaeth, Seicoieithyddiaeth Arbrofol, Ymchwil wedi ei Seilio ar Gorpws, Arolwg ac Ethnograffeg, ac Ymchwil i Leferydd.

Ffocws y grwpiau ymchwil yn y Ganolfan ESRC dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd yw natur y berthynas rhwng dwy iaith siaradwyr dwyieithog mewn cymunedau dwyieithog. www.bilingualism.bangor.ac.uk/centre/index.php.cy?menu=2&catid=6336&subid=0

Agweddau ar addysg ddwyieithog yng Nghymru yw un ffrwd gweithgarwch o fewn y Grŵp Arolwg ac Ethnograffeg. Canolbwyntir ar bedwar project, sef Addysg Ddwyieithog

yn Ysgolion Cymru, Dwyieithrwydd mewn Addysg Uwch, Ymchwil Canolfannau Cymraeg i Oedolion ac Ymchwil Mudiad Ysgolion Meithrin. Nod y Project Ymchwil i Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru ydyw:

a) Diffinio a dadansoddi gwahanol fodelau o addysg ddwyieithog yng Nghymru. Dyma'r arolwg cynhwysfawr cyntaf o'i fath o ddulliau addysgu a dysgu dwyieithog mewn ysgolion Cymreig.

b) Canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio Cymraeg a Saesneg gyda gwahanol grwpiau o ddisgyblion mewn amrywiaeth o wersi ar draws y cwricwlwm cynradd (Cyfnod Sylfaen a CA2) ac uwchradd (CA3–5). Gwneir hyn yn dilyn ymgynghoriad gyda staff perthnasol yr ysgolion.

Mae tri cham i'r project ymchwil:

1. cynnal arolwg ac arsylwi dulliau gweithredu presennol yn y dosbarth yn arwain at deipoleg o strategaethau, wedi'u seilio ar dystiolaeth, ar gyfer dyrannu dwy iaith mewn dosbarthiadau mewn lleoliadau dwyieithog;

2. ymgynghori ag ymgynghorwyr ac ymarferwyr er mwyn diffinio strategaethau effeithiol ar gyfer dyrannu iaith;

3. cynhyrchu deunyddiau hyfforddi ar gyfer athrawon a hyfforddwyr athrawon er mwyn dangos strategaethau effeithiol ar gyfer dyrannu iaith yn y dosbarth.

## Dewis ysgolion

Dewiswyd ysgolion cynradd ac uwchradd lle y defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel **cyfrwng** addysgu mewn amrywiaeth o bynciau craidd a sylfaen. (Yn ôl bwletin ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007a, defnyddir y Gymraeg fel y prif gyfrwng dysgu ar gyfer 20.3 y cant o ddisgyblion cynradd, ac yng nghyd-destun ysgolion uwchradd nodir bod 15.4 y cant o'r disgyblion yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.)

Nid ymwelwyd ag ysgolion cynradd ac uwchradd lle cyflwynwyd y Gymraeg fel pwnc (ail iaith) yn unig. Mae angen ymchwil pellach i'r modd y cyflwynir Cymraeg Ail Iaith yn yr ysgol gynradd ac uwchradd, a dylid archwilio pam bod 'pryderon yn codi am lefelau cyflawniad mewn Cymraeg ail iaith.' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009:71). Diffiniwyd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn yn Adran 105(7) o Ddeddf Addysg 2002.

Nodwyd bod:

> '…ysgol yn un Gymraeg os yw mwy na hanner y pynciau a ganlyn yn cael eu haddysgu (yn llawn neu'n rhannol) drwy gyfrwng y Gymraeg:
>
> (a) addysg grefyddol, a
>
> (b) y pynciau, heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n bynciau sylfaen ar gyfer disgyblion yn yr ysgol'

Ystyrid dau gategori ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg:

(a) **Categori A**:

os yw o leiaf hanner y disgyblion yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg

(b) **Categori B**:

os yw rhai o'r disgyblion, ond llai na hanner ohonynt, mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg neu os yw'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu ar gyfer rhan, ond nid y brif ran, o'r cwricwlwm.

Yn Hydref 2007, gyda chyhoeddiad y ddogfen *Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007b, www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/definingschools?lang=cy) cafwyd diffiniadau newydd i ddisgrifio cefndir ieithyddol ysgolion Cymru. Mae yn ofynnol i ysgolion ddatgan pa gategori sydd 'yn fwyaf priodol' o safbwynt:

- **y cwricwlwm** (cyfrwng addysgu ym mhob cyfnod allweddol, h.y. canran y cwricwlwm cynradd a chanrannau'r pynciau uwchradd a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg);
- **iaith yr ysgol** (yr iaith/ieithoedd a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion y tu allan i'r cwricwlwm, ethos yr ysgol, yr iaith a ddefnyddir yn yr ysgol o ddydd i ddydd, a'r ieithoedd a ddefnyddir i gyfathrebu â'r rhieni);
- **y canlyniadau** (y canlyniadau arferol a ddisgwylir ar gyfer disgyblion sy'n mynychu pob math o ddarpariaeth o ran eu datblygiad addysgol).

*(Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007b:6)*

Dyma'r pum categori ar gyfer ysgolion cynradd:

1. Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg
2. Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd
3. Ysgol Gynradd Drawsnewidiol cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg
4. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
5. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf.

Dyma'r pedwar categori ar gyfer ysgolion uwchradd:

1. Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
2. Ysgol Uwchradd Ddwyieithog Categori 2A/Categori 2B/Categori 2C/Categori 2CH
3. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
4. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf.

Bydd ysgolion yn defnyddio'r categorïau hyn wrth gasglu data o fis Ionawr 2008 ymlaen, ac ymdrechir i wella'r broses o drosglwyddo gwybodaeth glir i rieni a gofalwyr ynghylch darpariaeth ieithyddol ac ethos ysgolion a lleoliadau (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007b:2).

Ffocws yr ymchwil yw cynnal arolwg ac arsylwi dulliau gweithredu presennol o ran defnyddio dwy iaith yn y dosbarth mewn sampl bwriadus o ddeg ysgol uwchradd ac ugain ysgol gynradd sy'n anfon disgyblion iddynt (deg ysgol gynradd fawr – dros gant o ddisgyblion, a deg o rai bychain – o dan gant o ddisgyblion). Gwneir hynny mewn naw Awdurdod Addysg Lleol ar hyd a lled Cymru (yn cynrychioli gwahanol gyd-destunau daearyddol ac ieithyddol-gymdeithasol). Bydd yr arolwg hwn yn ein galluogi i lunio teipoleg gychwynnol o ddyrannu iaith ar draws sbectrwm eang sy'n cynrychioli cyd-destunau ieithyddol-gymdeithasol (www.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/?skip=1&lang=cy). Mae nifer o ffactorau allweddol yn gallu effeithio ar swm a sylwedd y ddarpariaeth ddwyieithog o fewn ysgolion, er enghraifft, ystyrir cefndir ieithyddol disgyblion, maint ysgolion a goblygiadau hyn o safbwynt lefelau staffio ac ystod oedran disgyblion o fewn dosbarthiadau unigol.

## Methodoleg Ymchwil

Yn y fethodoleg defnyddir amrywiaeth o gyfryngau ymchwil er mwyn casglu'r dystiolaeth ansoddol a meintiol ehangaf bosibl, yn cynnwys y canlynol:

- cyfweliadau lled-strwythuredig gyda phrifathrawon, cydlynwyr iaith, athrawon a disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ffocysu ar ddyraniad/defnydd iaith ar draws yr ysgol, dyraniad/defnydd iaith o fewn pynciau unigol yn y dosbarth, asesu, cefnogaeth ieithyddol ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion, cyswllt cartref/cymunedol, hyfforddiant;
- arsylwi mewn dosbarthiadau heb gymryd rhan gan ffocysu ar broffil iaith y disgyblion yn y dosbarth, iaith/ieithoedd yr athro/athrawes wrth gyfarch y dosbarth cyfan/grwpiau/unigolion, iaith/ieithoedd y disgyblion gyda'r athro/athrawes/efo'i gilydd mewn grwpiau bach/yn sgwrsio fel unigolion, addysgu iaith, rhesymau pam bod yr athro/disgybl yn newid iaith mewn gwersi, strategaethau ar gyfer defnyddio dwy iaith yn y dosbarth (e.e. ymgais i wahanu, cyfieithu, sgaffaldiau ar gyfer disgyblion nad ydynt yn rhugl, trawsieithu);
- arsylwi ysgol gyfan gan ffocysu ar ethos/amgylchedd Gymraeg yr ysgol a'r dosbarthiadau, proffil Cymraeg athrawon yr ysgol (yn cynnwys cymorthyddion, staff ategol), proffil Cymraeg holl staff eraill yr ysgol (e.e. cogyddion, glanhawyr), defnydd yr athro/athrawes o'r ddwy iaith gyda disgyblion mewn gweithgareddau heblaw dysgu (e.e. rheolaeth, disgyblaeth), iaith y buarth, defnydd technolegol o iaith, defnydd o wasanaethau cefnogi'r Gymraeg (e.e. athrawon bro), gweithredu'r Cwricwlwm Cymreig yn yr ysgol;
- tystiolaeth a gwybodaeth am ysgolion, e.e. adroddiadau arolygiadau Estyn (AEM), canlyniadau arholiadau, amserlen yr ysgol a dyraniad iaith ar draws y cwricwlwm;

- astudiaethau achos o ddosbarthiadau penodol;
- grwpiau ffocws/cynadleddau/ymgynghoriadau.

Defnyddir rhestr gofnodi a fydd yn ein galluogi i feintioli'r data a chynnal gwaith ystadegol. Defnyddir codau ar gyfer pob arsylliad a chyfweliad, er enghraifft, dyma'r codau ar gyfer yr ymholiad 'Pam a phryd y mae disgyblion yn meddwl eu bod yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn y dosbarth?':

1= gwella dealltwriaeth
2= cwblhau tasg mewn pwnc penodol
3= cyfathrebu gyda'r athro/athrawes
4= cyfathrebu gyda disgybl/ion eraill
5= cyfuniad (eglurwch)
6= eraill (eglurwch)
7= dim rheswm amlwg

## Cipolwg ar ganfyddiadau cychwynnol:

### *i. Amrywiaeth caleidosgopig*

Fel yn achos ieithoedd lleiafrifol rhanbarthau eraill yn Ewrop (er enghraifft, Gwlad y Basg, Cenoz et al., 1998:177), mae addysg ddwyieithog yng Nghymru yn gyfuniad o addysg iaith treftadaeth/cynnal ac addysg drochi (Lewis 2008:83). Pwysleisiodd Baker (1993:15) bod 'the kaleidoscopic variety of bilingual education practice in Wales makes the production of a simple typology inherently dangerous … No existing typology of bilingual education in Wales captures the full kaleidoscope of colours that exists.'

Amlygwyd droeon yr angen am ddiffiniadau a disgrifiadau eglur a chyson o'r ddarpariaeth ieithyddol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (Redknap 2006:11, Lewis 2008:78). Er y sefydlwyd yr 'ysgolion cyfrwng Cymraeg' cyntaf i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant o gartrefi Cymraeg, roeddent hefyd yn datblygu sgiliau iaith Saesneg y disgyblion ac felly gellir galw'r ysgolion hyn yn 'ddwyieithog' (Lewis 2008:78). Nid oes defnydd cyson o labeli fel 'cyfrwng Cymraeg', 'dwyieithog', 'traddodiadol Cymraeg', a 'naturiol Cymraeg' yng nghyd-destun addysg yng Nghymru.

### *ii. Cynllunio dyraniad iaith ar draws y cwricwlwm*

Mae angen polisi ac ymarfer pendant o ran dyrannu iaith (Lewis, 2006) gyda phenderfyniadau'n gorfod cael eu gwneud ynglŷn â defnyddio'r ddwy iaith i gyflwyno'r cwricwlwm. Un o'r ystyriaethau allweddol yw natur y cydbwysedd ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a dwyster y mewnbwn cyfrwng Cymraeg sydd ei angen er mwyn i ddisgyblion fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg dros amser (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009:2). Mae ar ysgolion angen strategaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu yn ddwyieithog.

Dyma enghreifftiau o gyfweliadau gyda phenaethiaid yn trafod dyraniad iaith ar draws y cwricwlwm. Yn gyntaf, rhan o gyfweliad gyda Phennaeth ysgol gynradd (lle mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr Cymraeg) yn egluro sut mae cynllunio ieithyddol bwriadus ar draws yr ysgol yn hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion.

> Y peth allweddol ynglŷn â'r ysgol ydy'r Dosbarth Derbyn … mae'r plant yn cael eu trochi … `dan ni'n torri asgwrn cefn y gwaith, oherwydd unwaith mae'r plant yn dechrau caffael yr iaith ac rydan ni'n gobeithio erbyn tua'r Pasg yn y Dosbarth Derbyn, bod nhw'n torri drwodd i gynnal sgyrsiau syml, mae 'na eirfa yn adeiladu, ac maen nhw'n torri trwodd i siarad tua'r Pasg yn gymharol rwydd. Y mwyafrif llethol ohonyn nhw … Ym Mlwyddyn Un mae'r Saesneg yn ymddangos yn y cwricwlwm, yna petaech chi'n gofyn imi roi canran, tua phump ar hugain i ugain y cant. Mae'n ymddangos mewn gwersi llafar yn benodol mewn storïau a thrafodaethau'n ymwneud â storiâu yn hytrach nag mewn gwaith ysgrifennu â gogwydd mwy academaidd iddo fo. Ond wrth gwrs mae'r Saesneg yn iaith gyntaf i'r mwyafrif, beth bynnag felly. Ym Mlwyddyn Dau mae'r hafaliad yn symud i 30:70 a'r Gymraeg hela-ethaf. Yna ym Mlwyddyn Tri i Flwyddyn Chwech yn gweithredu 50:50. O ran Cyfnod Allweddol Dau mae'n haws ei esbonio yn y fan honno. Yr esboniad fyddan ni'n rhoi o'r defnydd o'r Gymraeg ydy mai cyfrwng addysgol ar draws y cwricwlwm ydy'r Gymraeg. A bod yr iaith yn tyfu drwy gael ei defnyddio mewn sefyllfa drawsgwricwlaidd. A dyna ydy'r nod felly … nid pwnc wedi'i ynysu ydy o … mae'n cael ei ddefnyddio yn drawsgwricwlaidd.

Cynllunnir y ddarpariaeth ieithyddol gyda'r nod o alluogi disgyblion i ddod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Sicrheir bod dysgwyr y Gymraeg yn cael digon o fewnbwn cyfrwng Cymraeg i'w galluogi i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009:42).

Yn ail, dyma enghraifft o gyfweliad gyda Phennaeth ysgol uwchradd (yn cynnwys cymysgedd o ddisgyblion Cymraeg Iaith 1 ac Iaith 2) mewn tref fechan yng ngogledd Cymru. Eglurir beth yw arfer yr ysgol ynghylch defnyddio ieithoedd mewn pynciau gwahanol.

> Gwyddoniaeth yn ddwy iaith ar wahân, dau grŵp ar wahân, does dim ad-dysgu dwyieithog … Yn y Chweched mae gwyddoniaeth i gyd yn Saesneg. Dylunio a Thechnoleg yn ddwyieithog, defnyddir taflenni gefn wrth gefn, ac mae hyn at Lefel A. Ieithoedd Modern Tramor trwy gyfrwng yr iaith fodern … Hanes a Daearyddiaeth trwy un cyfrwng yn CA3, ar wahân i'r dosbarth dwyieithog, TGAU yn ddwyieithog. Celf a Dylunio yn ddwyieithog … Addysg Gorfforol yn ceisio rhoi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg … bellach does dim un wers cyfrwng Saesneg yn unig mewn Addysg Gorfforol …

Amlygir yma'r `amrywiaeth caleidosgopig' o safbwynt y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd yn bodoli o fewn nifer o ysgolion uwchradd ledled Cymru. Bydd arsylliadau dosbarth yn datgelu ymhellach pa ffactorau (e.e. proffil ieithyddol staff a disgyblion) sydd yn llywio'r ddarpariaeth ddwyieithog mewn ysgol. Gofynnir beth ydy ystyr `addysg ddwyieithog' yn yr ysgol. Weithiau cyfeirir at ddisgyblion yn defnyddio dwy iaith yn y gwersi, dro arall cyfeirir at `sefyllfa ddwyieithog' lle mae'r athro'n ddwyieithog a charfanau o ddisgyblion yn gweithredu'n unieithog drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.

## *iii. Datblygu llythrennedd deuol*

Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith yw dwyieithrwydd. Ystyr llythrennedd deuol yw'r `gallu ychwanegol i symud yn hyderus ac yn esmwyth rhwng ieithoedd at ddibenion gwahanol' (Estyn 2002:1, www.estyn.gov.uk/publications/cy_Dual_literacy.pdf).

Honnir bod datblygu sgil llythrennedd deuol yn fanteisiol am nifer o resymau, yn cynnwys cynorthwyo datblygiad deallusol unigolion, paratoi unigolion i ddysgu ieithoedd ychwanegol a pharatoi unigolion yn effeithiol ar gyfer sefyllfaoedd dwyieithog (Estyn 2002:2).

Gwelwyd defnydd cyson o TGCh, yn arbennig y Rhyngrwyd, mewn dosbarthiadau i hyrwyddo sgiliau llythrennedd deuol y disgyblion. Cyfeirir at rôl allweddol technoleg ac e-ddysgu o fewn y ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009:98), ac mae'n ddefnyddiol bod athrawon yn deall potensial TGCh i ddatblygu sgiliau dwyieithog disgyblion.

Canfuwyd bod disgyblion yn profi rhai o fanteision bod yn ddwyieithog, er enghraifft, roedd rhai yn ystyried dwyieithrwydd fel adnodd ar gyfer dibenion addysgol. Dyma un ymateb gan ddau ddisgybl deg oed (un o gartref Cymraeg a'r llall o gartref cymysg ieithyddol) pan ofynnwyd iddynt sut mae defnyddio dwy iaith yn eu helpu yn yr ysgol:

> ` 'Dan ni'n gallu darllen llawer mwy o lyfrau.'
> `A chael lot mwy o wybodaeth ar y cyfrifiadur.'

Un strategaeth a ddefnyddir yn gynyddol wrth i athrawon arbrofi â defnyddio'r ddwy iaith yn gyfamserol yn yr un wers yw **trawsieithu**.

Dywed García (2009:304) mai trawsieithu yw'r ymarfer dwyieithog mwyaf cyffredin mewn dosbarthiadau dwyieithog. Cyhoeddwyd nifer o astudiaethau achos manwl ar drawsieithu a llythrennedd deuol mewn cyd-destunau rhyngwladol, er enghraifft, sefyllfa'r Sbaeneg a'r Saesneg yn y system addysg yn yr UDA (García,2009:304).

Yn ôl Williams (2002:40) mae trawsieithu'n `ffordd naturiol o ddatblygu a chryfhau'r ddwy iaith gyda'i gilydd wrth ddyfnhau'r ddealltwriaeth bynciol yr un pryd'.

Diddorol yw sylw Gruffudd (2009) bod siaradwyr Cymraeg yn trawsieithu heb feddwl am y peth! Dywed bod `siaradwyr Cymraeg yn gyfarwydd â gwylio teledu Saesneg, gwrando ar radio Saesneg, darllen papurau a chylchgronau Saesneg a phori gwefannau Saesneg. Maen nhw wedyn, heb sylweddoli efallai, yn gallu trafod y pethau hyn yn Gymraeg.'

Mae trawsieithu'n gofyn am sgiliau darllen, deall a chrynhoi. Methodoleg a ddefnyddir yn gynyddol yw hon lle mae'r mewnbwn (gwrando a/neu ddarllen) a'r allbwn (ysgrifennu a/neu siarad) yn fwriadol mewn ieithoedd gwahanol (Baker, 2000; García, 2009). Mae trawsieithu yn annog unigolion i ddarllen, deall a chrynhoi gwybodaeth mewn ieithoedd gwahanol, ac mae Garcia (2009:302) yn nodi bod trawsieithu yn broses hyblyg sydd yn caniatáu defnydd iaith amrywiol.

Pwysleisia Williams (2002:47) mai strategaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi cael gafael eithaf da ar y ddwy iaith yw trawsieithu yn hytrach na dull i gyflwyno ail iaith yn y lle cyntaf. Prin yw'r defnydd o drawsieithu mewn ambell ddosbarth cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, bydd rhai athrawon yn canolbwyntio'n benodol ar adnoddau Cymraeg i hyrwyddo'r iaith darged.

Mae sefyllfaoedd o'r fath yn hawlio ymchwil pellach. Yn ystod yr astudiaeth hon (hyd yma) mae dau fodel o drawsieithu'n dod i'r amlwg (gweler Ffigwr 2):

i. dan reolaeth yr athro/athrawes (gweithgaredd wedi'i gynllunio'n fwriadus gan yr athro/athrawes)

ii. dan reolaeth y disgyblion/wedi'i ddewis gan ddisgyblion (gweithgaredd heb ei gynllunio gan yr athro/athrawes)

| **Model Trawsieithu** | **Cyfrwng y Mewnbwn** (medrau iaith goddefol: gwrando/darllen) | **Cyfrwng yr Allbwn** (medrau iaith gweithredol: siarad/ysgrifennu) |
|---|---|---|
| Dan reolaeth yr athro/athrawes | Saesneg<br><br>Cymraeg | Cymraeg<br><br>Saesneg |
| Dan reolaeth y disgyblion | Saesneg<br><br>Saesneg a Chymraeg<br><br>e.e gwrando yn Gymraeg a darllen yn Saesneg<br><br>Cymraeg | Cymraeg<br><br>Saesneg a Chymraeg<br><br>e.e. trafod yn Gymraeg ac ysgrifennu yn Saesneg<br><br>Saesneg |

**Ffigwr 2**: Modelau o drawsieithu a arsyllwyd (hyd yn hyn)


Mae angen ystyried yn ofalus pryd a pham y defnyddir y naill fodel a'r llall. Mae trawsieithu dan reolaeth y disgyblion yn opsiwn gyda disgyblion sydd yn gytbwys ddwyieithog. Weithiau mae'n bosibl i ddisgyblion ddarllen a chopïo air am air heb ddeall yr ystyr ac mae angen bod yn ymwybodol o hyn pan fo disgyblion yn 'rheoli' y gweithgaredd. Hefyd gall disgyblion ddefnyddio'r famiaith ar draul yr ail iaith. Mae angen cynllunio pa fodel sydd yn berthnasol: nid tasg fympwyol ydy trawsieithu.

Gwelwyd enghraifft o **drawsieithu dan reolaeth yr athrawes** mewn gwers daearyddiaeth gyda 17 o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cynnwys siaradwyr Cymraeg Iaith 1 ac Iaith 2. Gofynnodd yr athrawes i'r dosbarth gyd-ddarllen gwybodaeth Saesneg am Fasnach Deg ar wefan Oxfam (www.oxfam.org.uk/coolplanet/kidsweb/banana/george.htm). Roedd y gwaith darllen yn datblygu ac yn atgyfnerthu sgiliau darllen disgyblion Saesneg Iaith 1 ac Iaith 2. Gofynnwyd yn Saesneg beth oedd ystyr termau fel *crops*, *harvested*, *chemicals* a chafwyd ymatebion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhoddwyd esboniad yn y Gymraeg ar

gyfer ambell derm, er enghraifft, *environment*, *community*. Crynhowyd prif negeseuon y gwaith darllen yn y Gymraeg. Gofynnwyd i'r holl ddisgyblion gwblhau taflen waith yn y Gymraeg yn egluro pam bod cefnogi nwyddau Masnach Deg yn syniad da.

Ceir enghraifft o **drawsieithu dan reolaeth disgyblion** ymysg disgyblion 9–11oed mewn gwers hanes isod.

Roedd grŵp o chwe disgybl yn cynnwys cymysgedd o ddisgyblion Cymraeg I1 a I2 yn trafod arferion bwyta pobl Oes y Cerrig. Roedd y grŵp yn 'gytbwys ddwyieithog' ac roeddent yn gweithio'n annibynnol heb fawr o gyswllt gyda'r athrawes. Roedden nhw wedi **derbyn** gwybodaeth Saesneg, 'Diet and Eating Habits in the Stone-Age' oddi ar y Rhyngrwyd (gweler Ffigwr 3). Defnyddiwyd y medrau goddefol (gwrando a darllen) i brosesu'r mewnbwn.




**Diet and Eating Habits in the Stone-Age**

**Daily Diet Based on Animal Foods**

During the Paleolithic period of the Stone Age, humans were hunter-gathers whose diet foods included both the animals and plants that were part of their natural environment. Fossil evidence from groups of hunter-gatherers suggests that the daily diet was derived primarily from animal based foods. In particular, they enjoyed animal organ meats like the liver, kidneys, and brains - meat-foods that are extremely rich sources of nutrition. Stone Age humans didn't consume much dairy food, nor did they eat high carbohydrate foods such as legumes or yeast-containing foods, or cereal grains.

**Ffigwr 3**: Mewnbwn: gwybodaeth Saesneg oddi ar y Rhyngrwyd.

Defnyddiwyd y medrau iaith gweithredol (siarad ac ysgrifennu) i brosesu'r allbwn. Trafodwyd y wybodaeth yn Gymraeg ac roedd y sgwrs yn seiliedig ar ddehongli'r wybodaeth berthnasol ar gyfer cwblhau'r dasg dan sylw. Cofnodwyd y canfyddiadau yn y Gymraeg – gan ddefnyddio termau Cymraeg ar gyfer organau gwahanol, er enghraifft, iau, arennau, ymennydd, a hynny heb gymorth geiriadur.



- Byddynt byth yn gwastraffu anifeiliaid
- Byddynt yn llosgi esgyrn drwg.
- Roeddynt yn bwyta braster o tu fewn esgyrn. (Mâr)
- Roeddyn nhw yn gweld planhigion fel rydym ni yn gweld llysiau.
- Roeddynt yn bwyta organau fel lau, arenau ac yr ymenydd.
- Mi fysynt yn ei goginio/berwi o dan tân.

**Ffigwr 4**: Allbwn: gwaith llafar ac ysgrifenedig y disgyblion.

Roedd y cyflwyniad gorffenedig i'r dosbarth cyfan yn y Gymraeg.

- Byddant byth yn gwastraffu anifeiliaid.
- Byddant yn llosgi esgyrn drwg.
- Roeddynt yn bwyta braster o tu fewn esgyrn. (mâr)
- Roeddyn nhw yn gweld planhigion fel rydym ni yn gweld llysiau.
- Roeddynt yn bwyta organau fel lau, arenau ac yr ymennydd.
- Mi fysynt yn ei goginio/berwi o dan tân.

(Gadawyd y sillafu fel ag yr oedd yn y gwreiddiol.)

Gwelwyd enghreifftiau o ddisgyblion uwchradd yn dewis cyfrwng iaith ar gyfer cyflwyno gwaith i weddill y dosbarth. Er enghraifft, mewn gwers Gwyddoniaeth TGAU roedd y dosbarth yn defnyddio gwefan Saesneg i gywain gwybodaeth am y Prosiect Genom Dynol (Human Genome Project). Nod y dasg oedd creu poster a rhoi cyflwyniad i weddill y dosbarth. Penderfynodd dwy ferch – un o gartref Cymraeg a'r llall o gartref Saesneg – i greu poster Cymraeg ar y cyd a rhoi cyflwyniad yn Gymraeg i weddill y dosbarth. Pan ofynnwyd pam iddynt weithredu fel hyn, yr ateb oedd: 'I osgoi copïo air am air, fel ein bod ni'n deall y wybodaeth yn well.'

Mae angen ymchwil pellach i gefnogi'r honiad bod llythrennedd deuol 'yn cynorthwyo datblygiad deallusol unigolion trwy wella eu gallu i feddwl, deall a mewnoli gwybodaeth mewn dwy iaith' (Estyn 2002:2). Mae ymchwil niwrowyddonol yn cynnig posibiliadau diddorol a gwerthfawr yn y cyd-destun hwn. Mae'r grŵp niwrowyddoniaeth yng Nghanolfan ESRC Dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd (www.bilingualism.bangor.ac.uk/index.php.en) yn canolbwyntio ar sut mae dwyieithrwydd yn datblygu yn yr ymennydd

dynol.  Mae niwrowyddoniaeth yn datblygu'n gyflym ym maes ymchwil addysg ddwyieithog, ac mae angen mewnbwn o'r fath i gefnogi ein hymchwil i addysg ddwyieithog yng Nghymru.

### *iv. Amrywiaeth ac 'amrywiaith'*

Amlygir **amrywiaeth** (o ran methodoleg addysgu a modelau cynllunio) ac **'amrywiaith'** (o ran proffil ieithyddol y disgyblion) yn yr ysgolion a arsyllwyd. Mae mwyafrif o'r dosbarthiadau dan sylw yn cynnwys disgyblion o gefndir ieithyddol amrywiol, er enghraifft, siaradwyr Cymraeg Iaith 1 ac Iaith 2, a siaradwyr nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Dyma'r `amrywiaeth caleidosgopig' sydd yn sail i'n hymchwiliadau yn ysgolion cynradd ac uwchradd dwyieithog ac amlieithog Cymru ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Mae Brentnall (2009:21) yn nodi bod angen cynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion addysgol dysgwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n dysgu iaith neu ieithoedd ychwanegol. Gwlad amlieithog yw Cymru ac mae `mwy a mwy o ddysgwyr yn mynd hefyd i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd anghenion ychwanegol gan y disgyblion hyn o ran cymorth i ddysgu Saesneg a Chymraeg fel y gallant ddysgu pob un o bynciau'r cwricwlwm.' Perthnasol yw sylw Brentnall (2009:21) bod angen hyfforddi athrawon i ddygymod â her a sialens yr ystafell ddosbarth amlieithog. Dywed bod `gofyn mabwysiadu dulliau o hyfforddi athrawon sy'n gyson ar draws y wlad a rhoi sylw i fethodoleg yr ystafell ddosbarth'.

## Diweddglo

I gloi, ystyrir goblygiadau'r project ymchwil ar gyfer polisi a gweithredu addysg ddwyieithog yng Nghymru a thu hwnt ar gychwyn yr unfed ganrif ar hugain.

### *i. Goblygiadau'r project ymchwil*

Mae'r ymchwil yn amlygu nifer o'r materion a adnabuwyd eisoes (Lewis 2006:26) fel ystyriaethau allweddol ym maes addysg ddwyieithog yng Nghymru a thu hwnt. Cyfeirir yn benodol at

- fanteision ac anfanteision addysgu disgyblion Iaith 1 (lleiafrifol) ac Iaith 2 (fwyafrifol) yn yr un dosbarth;
- trefniadaeth dosbarth o fewn dosbarthiadau cymysg ieithyddol;
- adnabod strategaethau gwahanol a gwahaniaethol i ateb gofynion disgyblion o gefndiroedd ieithyddol amrywiol;
- natur ac ansawdd yr iaith (a'r cyfnewid iaith) a ddefnyddir gan athrawon;
- sicrhau dilyniant o fewn ysgolion cynradd ac o'r sector cynradd i'r sector uwchradd;
- codi ymwybyddiaeth o fethodoleg addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- sicrhau bod canlyniadau'r ymchwil yn bwydo i hyfforddiant cychwynnol a mewn-swydd.

Bydd ein teipoleg o strategaethau ar gyfer dyrannu dwy iaith mewn lleoliadau dwyieithog, yn seiliedig ar dystiolaeth, o ddiddordeb ac yn berthnasol i systemau addysg ddwyieithog lle mae'n rhaid gwneud penderfyniadau'n ymwneud â defnyddio dwy iaith wrth gyflwyno'r cwricwlwm mewn ysgolion mewn rhanbarthau ieithoedd lleiafrifol. `Ar lefel Ewropeaidd, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfeirbwynt allweddol i gymunedau eraill

sydd wedi datblygu, neu wrthi'n datblygu, rôl ieithoedd llai eu defnydd mewn addysg.' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009:33).

Wrth i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog barhau i fynd yn gynyddol fwy amrywiol a `chaleidosgopig', bydd y prosiect ymchwil hwn yn rhoi sylw i'r prif faterion y mae angen eu hystyried wrth gynllunio'r ddarpariaeth yn strategol i wynebu sialensau'r unfed ganrif ar hugain.

## *ii. Deilliannau disgwyliedig*

Isod rhestrir rhai o ddeilliannau disgwyliedig yr ymchwil, ac ystyrir ffyrdd y gellir defnyddio'r canlyniadau:

- **Teipoleg o Addysg Ddwyieithog yng Nghymru.** Llunio teipoleg o addysg ddwyieithog sydd yn berthnasol i Gymru heddiw yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil.
- **Diffinio addysg ddwyieithog.** Defnyddir termau allweddol fel `addysg ddwyieithog' ac `addysg cyfrwng Cymraeg' yn llac iawn, ac nid oes cysondeb o ran dehongliadau o fewn na rhwng ysgolion. Trafodir cwestiynau a godwyd fel: `Ydy addysg ddwyieithog yn golygu defnyddio dwy iaith ymhob gwers?' `Beth ydy ystyr sefyllfaoedd dwyieithog?'
- **Dulliau trefnu addysg ddwyieithog.** Darlunnir polisïau iaith gan egluro sut y dyrennir y defnydd o'r ddwy iaith ar draws y cwricwlwm. Trafodwyd ystod eang o ddulliau o drefnu dysgu dwyieithog, er enghraifft, i) cyflwyno rhai pynciau trwy gyfrwng un iaith ac eraill trwy gyfrwng yr iaith arall. ii) cyflwyno modiwlau trwy gyfrwng un iaith ac eraill trwy gyfrwng yr iaith arall, iii) defnydd o'r ddwy iaith o fewn yr un wers/cyfnod.
- **Strategaethau addysgu dwyieithog**. Arsyllwyd amrywiaeth o strategaethau o safbwynt defnydd athrawon o ddwy iaith yn y dosbarth. Er enghraifft, cyfieithu, sgaffaldio ar gyfer disgyblion nad ydynt yn rhugl, cyflwyno geirfa/termau, trawsieithu. Cyflwynir modelau o drawsieithu ar draws y cwricwlwm. Gwelwyd defnydd cyson o `gyfnewid iaith' mewn gwersi yn cynnwys `cyfnewid iaith mewn-frawddegol' a `chyfnewid iaith rhyng-frawddegol.' Trafodir pam a phryd mae athrawon yn newid iaith yn y dosbarth.
- **Deall cyd-destun dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog.** Dylid deall ac adnabod pa ffactorau (amlwg ac ymhlyg) sy'n dylanwadu ar y ddarpariaeth ddwyieithog mewn ysgolion (er enghraifft, cefndir ieithyddol athrawon, hyfforddiant athrawon a staff ategol, ethos ysgolion, cefndir ieithyddol disgyblion, agweddau rhieni/gwarcheidwaid, athrawon a disgyblion, gofynion y cwricwlwm ac asesu, polisïau AALl, ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol, ffactorau lleol).
- **Marchnata addysg ddwyieithog.** Amlygwyd sut mae ysgolion yn marchnata manteision dwyieithrwydd i rieni/gwarcheidwaid, ac yn creu cyswllt ysgol/cartref llwyddiannus. Cyfeirir yn benodol at sut mae ysgolion yn cyflwyno gwaith cartref mewn iaith sydd yn wahanol i iaith y cartref. Mae angen egluro manteision dwyieithrwydd i'r disgyblion (cynradd ac uwchradd), ac ystyrir cyflwyno cymhwyster i gydnabod sgiliau dwyieithog disgyblion.
- **Iaith ar draws y cwricwlwm.** Mae codi ymwybyddiaeth athrawon o iaith ar draws y cwricwlwm yn parhau. Cyfeirir yma'n benodol at ffyrdd o ddysgu iaith a chynnwys integredig – CLIL (Content and Language Integrated Learning.) Trafodir addysg

ddwyieithog yng nghyd-destun cwricwlwm cyfredol Cymru, a chyfeirir yn benodol at ddwyieithrwydd disgyblion yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru, Llwybrau Dysgu 14–19. Cyfeirir yn benodol at sicrhau dilyniant o fewn ac ar draws Cyfnodau Allweddol, a'r sialensau sydd yn wynebu rhai ysgolion wrth gyflwyno'r Llwybrau Dysgu 14–19 i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg.
- **Defnydd ac ansawdd iaith.** Archwilir defnydd iaith disgyblion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn cynnwys cyfathrebu gyda'r athro, disgyblion yn cyfathrebu mewn sefyllfaoedd grŵp yn ogystal ag yn unigol gyda'i gilydd. Cyfeirir at ansawdd iaith athrawon a disgyblion mewn gwahanol bynciau, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg Iaith 1 ac Iaith 2.
- **Ymchwil a hyfforddiant.** Yn ogystal â chyhoeddi canlyniadau'r ymchwil cyflawn, datblygir pecyn hyfforddiant (cychwynnol ac mewn-swydd) yn adnodd gwerthfawr i gefnogi ac ysgogi ymarferwyr dwyieithog ledled Cymru.

Dywed Jones (1997:v) bod Cymru 'yn cynnig llwyfan cyfoethog i ymchwilwyr ym maes dwyieithrwydd' a gobeithio bydd y project ymchwil hwn yn taflu goleuni ar y llwyfan sydd wedi denu diddordeb a sylw cynulleidfaoedd ledled Cymru a'r byd.

**Cydnabyddiaeth**

Hoffai'r awdur gydnabod arweiniad a chefnogaeth Dr Gwyn Lewis a Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor, wrth lunio'r papur hwn.

## Llyfryddiaeth

Baker, C. (1993), 'Bilingual Education in Wales', In *European Models of Bilingual Education.*

H. Baetens Beardsmore (ed.), 7–29, (Clevedon: Multilingual Matters).

Baker, C. (2006), *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* (Clevedon: Multilingual Matters).

Brentnall, J. (2009), 'Pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru sy'n dysgu iaith ychwanegol', yn *Iaith yn y Gymru Amlieithog*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1, 25, (Bangor: Trafodion Addysg).

Cenoz. J., & Genesee, F. (1998), *Beyond Bilingualism: Multilingualism and Multilingual Education*, (Clevedon: Multilingual Matters).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2003), *Cyfrifiad Poblogaeth 2001: Y Canlyniadau Cyntaf ar yr Iaith Gymraeg*, Bwletin Ystadegol 22/2003, (Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

Estyn, (2002), *Datblygu llythrennedd deuol: Papur trafod Estyn.*

(Caerdydd: Estyn). www.estyn.gov.uk

García, O., (2009), *Bilingual education in the 21st Century: A Global Perspective.* (Chichester: Wiley-Blackwell).

Gruffudd, H., (2009), *Golwg ar drawsieithu*, (Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg).

Jones, D., (1997), *Cyflwyniad i Ddwyieithrwydd*, (Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg).

Lewis, W.G., (2006), 'Addysg gynradd Gymraeg: her a chyfle yr unfed ganrif ar hugain', yn *Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 21-35, (Bangor: Trafodion Addysg).

Lewis, W.G., (2007), 'Teaching and Learning in Bilingual Situations in Wales Today: an Overview of the main Issues and Considerations', yn *Journal of Education* 5 (1) 21–35, (Mauritius: Mauritius Institution of Education).

Lewis, W.G., (2008), 'Current challenges in bilingual education in Wales', yn *Multilingualism and Minority Languages: Achievements and challenges in education, AILA Review 21* (2008): 69–86, (Amsterdam: John Benjamins Publishing Company).

Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2003), *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog.* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2007a), *Y Gymraeg yn yr ysgol 2007*, Bwletin Ystadegol 63/2007, (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru). www.cymru.gov.uk/ystadegau

Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2007b), *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*, (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru). www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/definingschools?lang=cy

Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ymgynghoriad*, Dogfen Ymgynghori Rhif: 067/2009, (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru). www.wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/090507wmscy.pdf

Redknap, C., (2006), 'Addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog: camau tuag at strategaeth holistaidd', yn *Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1–19, (Bangor:Trafodion Addysg).

Roberts, G. & Williams, C., (gol.), (2003). *Addysg Gymraeg Addysg Gymreig*, (Bangor: Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru).

Williams, C., (2002), *Ennill Iaith: Astudiaeth o Sefyllfa Drochi yn 11–16 oed,* Trafodion Addysg, (Bangor: Ysgol Addysg).

www.rhag.net/index.html (Gwefan Rhieni Dros Addysg Gymraeg).

www.ciltcymru.org.uk (Gwefan CILT Cymru)

Dr Elin Royles

# Llywodraeth ranbarthol a chymdeithas sifil yng Nghymru a Chatalwnia

Rhif 5 Ionawr 2010 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# Llywodraeth ranbarthol a chymdeithas sifil yng Nghymru a Chatalwnia

## Dr Elin Royles

### Cyflwyniad

Ymysg y rhesymau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol dros sefydlu llywodraeth ranbarthol, un rheswm cyffredin yn achos Sbaen a'r Deyrnas Gyfunol oedd cryfhau ac adfywio democratiaeth. Yn achos Sbaen eglura Subirats: 'Much of the case for decentralization ... focuses on the idea that regionalization can improve democracy and policy responsiveness through better representation, identification with civil society and adapation of policy to place' (2005: 180). Yn y Deyrnas Gyfunol, yn ymhlyg yn y prosiect datganoli, yr oedd ymdrech i ddod â llywodraeth yn agosach at y bobl. Eglurodd y Papur Gwyn, *Llais dros Gymru*: 'Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i greu democratiaeth newydd ym Mhrydain lle bydd mwy yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan. Mae ei chynigion ar gyfer Cynulliad i Gymru'n adlewyrchu'r nodau hyn' (Swyddfa Gymreig, 1997: 15). Pwysleisiwyd y gallai cymdeithas sifil fod yn ganolog i greu gwleidyddiaeth newydd a hyrwyddo mwy o gyfranogaeth.

Hyd yn hyn, y duedd yw cymharu cymdeithas sifil yng Nghymru â'r Alban (Paterson a Wyn Jones, 1999). Bwriad yr erthygl hon yw ehangu'r astudiaeth drwy asesu effaith llywodraeth ranbarthol ar y berthynas rhwng cymdeithas sifil a chyrff datganoledig yng Nghymru a Chatalwnia. Er mwyn ymchwilio i hyn, asesir y graddau y mae strwythurau llywodraeth ranbarthol yn hybu cyfranogaeth cymdeithas sifil yn y broses wleidyddol; manylir ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar y graddau y mae cymdeithas sifil yn ymwneud yng ngwaith llywodraeth ranbarthol. Yn olaf, dadansoddir a yw llywodraeth ranbarthol yn effeithio ar hunaniaeth cymdeithas sifil. Mae'r casgliadau'n seliedig ar dystiolaeth astudiaethau achos manwl ansoddol o drawsdoriad o fudiadau cymdeithas sifil yng Nghymru a Chatalwnia.[1] Yr astudiaethau achos dan sylw oedd y mudiadau iaith, sef Cymdeithas yr Iaith a Cymuned, ac yng Nghatalwnia, Plataforma per la Llengua; mudiadau hoywon, lesbiaid, a phobl ddeurywiol, sef Stonewall Cymru, ac yng Nghatalwnia Casal Lambda a Coordinadora Gai-Lesbiana (CGL); ac Oxfam Cymru ac Intermòn Oxfam yng Nghatalwnia, y ddau'n ymgyrchu dros faterion datblygiad rhyngwladol ac yn aelodau o Oxfam International.[2]

---

1 Ariannwyd y gwaith ymchwil i astudio effaith datganoli ar gymdeithas sifil yn ystod tymor cyntaf datganoli i Gymru drwy gyfrwng ysgoloriaeth ddoethuriaethol gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn ystod y cyfnod 2000–2003. Ariannwyd y gwaith ymchwil ar Gymru yn 2007 gan Wobr Goffa Syr David Hughes Parry, Prifysgol Aberystwyth. Ariannwyd y gwaith ymchwil ar Gatalwnia gan Ysgoloriaeth Ymddiriedolaeth Goffa Saunders Lewis. Cynhaliwyd y gwaith maes hwnnw yn ystod 2005 a 2006. Mawr yw'r diolch am y gefnogaeth ariannol hon.

2 Am wybodaeth bellach am y mudiadau, gweler: Cymdeithas yr Iaith, www.cymdeithas.org; Cymuned, www.cymuned.org; Plataforma per la Llengua, www.plataforma-llengua.cat; Stonewall Cymru, www.stonewallcymru.org.uk/cymru/default.asp; Casal Lambda, www.lambdaweb.org; Coordinadora Gai-Lesbiana (CGL), www.cogailes.org; Oxfam Cymru, www.oxfam.org.uk/applications/blogs/cymru; Intermon Oxfam, www.intermonoxfam.org/ca/page.asp?id=1

O ran strwythur, dechreuir drwy drafod syniadau damcaniaethol perthnasol a gosodir y cyd-destun i'r gymhariaeth. Ar sail hyn, bydd yr adrannau sy'n dilyn yn trafod casgliadau'r ymchwil o ran effaith datganoli ar y rhyngberthynas rhwng cymdeithas sifil a llywodraeth ranbarthol. I gloi, trafodir goblygiadau ehangach yr ymchwil i'n dealltwriaeth o ddatganoli a diwylliant gwleidyddol yn y ddwy genedl a mynd ati i geisio awgrymu gwersi i Gymru. Y gobaith yw cyfrannu at y llenyddiaeth ar gymdeithas sifil a diwylliant gwleidyddol yng Nghymru a Chatalwnia ac at y llenyddiaeth ehangach ar lywodraeth ranbarthol yn Ewrop.

## Cymdeithas sifil: y llenyddiaeth ddamcaniaethol

Mae fframwaith Cohen ac Arato (1999) yn gwahaniaethu rhwng cymdeithas sifil, y wladwriaeth a'r economi, a hefyd gymdeithas wleidyddol a chymdeithas economaidd. Yn sylfaenol, diffinnir cymdeithas sifil fel sffêr rhyngweithio cymdeithasol. Mae'n cynnwys y teulu, ffurfiau o gyfathrebu cyhoeddus fel y cyfryngau, a'r sffêr cysylltiadol (*associational*), yn eu mysg gyrff gwirfoddol a mudiadau cymdeithasol (Cohen ac Arato, 1999: ix). Cyfeiria cymdeithas wleidyddol at bleidiau gwleidyddol, a mudiadau gwleidyddol, sy'n cynnwys seneddau. Mae'r gymdeithas economaidd yn cynnwys grwpiau cynhyrchu a dosbarthu fel busnesau, partneriaethau a mentrau cydweithredol (Cohen ac Arato, 1999: ix). Dadleuir bod cymdeithas economaidd a chymdeithas wleidyddol yn bwysig i alluogi cymdeithas sifil i hyrwyddo democratiaethau cynrychioliadol i fod yn fwy democrataidd (Cohen ac Arato, 1999: 413). Honnir mai prif wendid y model yw'r tueddiad i ddelfrydu cymdeithas sifil ac i gymryd yn ganiatаol ei allu i hyrwyddo democrateiddio (Alexander, 1993: 801; Calhoun, 1995: xii–xv). Fodd bynnag, gellir goresgyn yr anawsterau hyn drwy dderbyn mai model delfrydol ydyw a drwy drafod llenyddiaeth ehangach. Yma, canolbwyntiwn ar lenyddiaeth sy'n ymhel â pherthynas y gymdeithas sifil â'r wladwriaeth a thueddiadau sy'n cwestiynu ei gyfraniad democrataidd.

Mae perthynas y gymdeithas sifil â'r wladwriaeth yn gallu amrywio'n fawr. Dwy lenyddiaeth sy'n trafod y ddau begwn o ran natur perthnasau rhwng y wladwriaeth a chymdeithas sifil yw'r safbwynt Trydedd Ffordd a'r llenyddiaeth neo-gorfforaethol. Mae'r safbwynt cyntaf yn pwysleisio gwerth partneriaeth rhwng cymdeithas sifil a'r wladwriaeth er mwyn adfer democratiaeth a chyfoethogi cyfraniad cymdeithas sifil i waith llywodraeth. Cam pellach yw bod cymdeithas sifil hefyd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ac yn hyrwyddo datblygu cymunedol (Giddens, 1998: 69; 2000: 81). Mynegir consýrn gan y feirniadaeth neo-gorfforaethol y gall partneriaeth rhwng cymdeithas sifil a'r wladwriaeth ddatblygu'n rhy glòs gan fygwth rôl ddemocrataidd cymdeithas sifil. Er mwyn egluro'r consýrn, gwahaniaethir rhwng lluosogyddiaeth (*pluralism*) a neo-gorfforaetholdeb (*neo-corporatism*). Yn ôl Schmitter mae lluosogyddiaeth yn:

> system of interest intermediation in which the constituent units are organized into an unspecified number of multiple, voluntary, competitive, non-hierarchically ordered and self-determined ... categories which are not ... controlled in leadership selection or interest articulation by the state and which do not exercise a monopoly of representational activity within their respective categories. (1979: 15)

Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r llenyddiaeth neo-gorfforaethol yn tynnu sylw at

berthnasau neilltuol rhwng grwpiau dethol breintiedig â'r wladwriaeth. Mae neo-gorfforaetholdeb yn hawlio bod tuedd i un grŵp gynrychioli pob sector diddordeb. O ganlyniad, mae cystadleuaeth gan grwpiau eraill yn y sector yn brin (Wilson, 1990: 69). I'r llywodraeth, mantais strwythurau i gynnwys rhai grwpiau mewn llunio penderfyniadau yw elwa ar arbenigedd a bod yn ymarferol wrth gyfyngu ar nifer y grwpiau sy'n cyfrannu (Wilson, 1990: 69–70). Fodd bynnag, hawlia'r llenyddiaeth neo-gorfforaethol y gallant freintio grŵp penodol gan greu elît oddi mewn i gymdeithas sifil. Ar yr un pryd, wrth gyfyngu ar y cyfleoedd i fudiadau eraill ymwneud â'r system wleidyddol, gallant greu anghydraddoldeb rhwng grwpiau. Canlyniad arall posibl yw bygwth ymreolaeth mudiadau a llethu parodrwydd mudiadau i feirniadu a sicrhau bod y llywodraeth yn atebol (Wilson, 1990: 69).

Fel gyda fframwaith Cohen ac Arato, mae'r llenyddiaeth yn pwysleisio potensial cymdeithas sifil i hyrwyddo democratiaeth drwy annog cyfranogaeth. Eto, tynnir sylw at dueddiadau sy'n cyfyngu ar gyfraniad democrataidd cymdeithas sifil (Foley ac Edwards, 1996: 39). Yn eu mysg mae'r lleihad yn nifer y rhai sy'n aelodau o gymdeithasau a dylanwad grymoedd negyddol oddi mewn i gymdeithas sifil (Putnam, 2000). Gall cymdeithas sifil hefyd ddwysáu'r anghydraddoldeb grym a dylanwad sy'n bodoli oddi mewn i gymdeithas sy'n codi o addysg, arian a statws (Whitehead, 1997). Felly, gwelir bod y berthynas rhwng cymdeithas sifil a'r wladwriaeth yn gallu amrywio ac ni ellir cyffredinoli na chymryd yn ganiataol ei botensial democrataidd.

## Cyd-destun cymdeithas sifil a llywodraeth ranbarthol Cymru a Chatalwnia

Yn aml, tra ystyrir Catalwnia yn y rheng flaenaf o genhedloedd diwladwriaeth, gosodir Cymru yn yr ail reng (Keating, 2001a: xv; Guibernau, 1999). Trafodwn yn fras gyd-destun llywodraeth ranbarthol a chymdeithas sifil yng Nghymru a Chatalwnia. Mae seiliau hanesyddol hunanlywodraeth Catalwnia yn gymaint cadarnach nag yng Nghymru. Integreiddiwyd Cymru yn rhan o wladwriaeth Lloegr cyn y cyfnod modern, y cyfnod a gysylltir â datblygiad y wladwriaeth fodern (Paterson a Wyn Jones, 1999: 173; Davies, 1994; Watkin, 2007). Parhaodd graddau o arwahanrwydd gwleidyddol, system gyfreithiol a Chatalaneg fel iaith gweinyddiaeth tan 1714 (Guibernau, 2001: 138). Nid dyma ddiwedd hanes ymreolaeth Catalwnia gan iddi hefyd brofi dau gyfnod o hunanlywodraeth yn ystod y cyfnod 1913 i 1932.

Ar yr un pryd, mae tebygrwydd o ran nodweddion hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru a Chatalwnia. Eu hanes a'u traddodiadau diwylliannol yw seiliau'r ddwy genedl a'r iaith yw prif nodwedd hunaniaeth. Ond mae statws uwch y Gatalaneg wedi rhoi sail gadarnach i hunaniaeth genedlaethol sifig Gatalaneg yn seiliedig ar iaith. Pwysleisir mai Catalaniaid yw'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghatalwnia a dilyna'r llywodraeth ranbarthol bolisi o integreiddio drwy iaith (MacInnes, 2001: 112–3; Argelaguet, 2006: 445). Mae hunaniaeth genedlaethol Gymreig a rôl allweddol yr iaith wedi bod yn fater mwy cymhleth a dadleuol. Yn y ddau achos fodd bynnag gwelir patrwm o hunaniaeth ddeuol, hynny yw teimlo'n Brydeinig a Chymreig neu'n Sbaeneg neu'n Gatalaneg i ryw raddau neu'i gilydd, fel a welir yn Nhabl A (Paterson a Wyn Jones, 1999: 185; Gunther *et al.*, 2004: 184–5).

## Hunaniaeth Genedlaethol yng Nghymru (%) 1997–20

| *Hunaniaeth Genedlaethol* | *1997* | *1999* | *2001* | *2003* | *2007* |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymreig nid Prydeinig | 17.2 | 17.7 | 24.5 | 22.7 | 25.1 |
| Mwy Cymreig na Phrydeinig | 25.7 | 20.7 | 23.5 | 28.1 | 21.4 |
| Cyfartal Cymreig a Phrydeinig | 34.3 | 38.3 | 29.4 | 30.2 | 33.8 |
| Mwy Prydeinig na Chymreig | 10.4 | 7.8 | 11.2 | 8.9 | 9.8 |
| Prydeinig, nid Cymreig | 12.4 | 15.5 | 11.3 | 10.1 | 9.9 |

(Ffynonellau: Arolwg Referendwm Cymru 1997, Arolwg Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999, 2001 Wales Life and Times Study, Arolwg Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003; Arolwg Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007).

## Hunaniaeth Genedlaethol yng Nghatalwnia (%) 1979–2006*

| *Hunaniaeth Genedlaethol* | *1979* | *1982* | *1992* | *1998* | *2001* | *2006* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Catalaneg, nid Sbaenaidd | 15 | 9 | 15 | 15 | 15 | 14 |
| Mwy Catalaneg na Sbaenaidd | 12 | 18 | 21 | 27 | 26 | 25 |
| Cyfartal Catalaneg a Sbaenaidd | 36 | 41 | 36 | 37 | 36 | 42 |
| Mwy Sbaenaidd a Chatalaneg | 7 | 9 | 8 | 6 | 6 | 8 |
| Sbaenaidd, nid Catalaneg | 31 | 23 | 20 | 15 | 15 | 9 |
| Dim ateb / ddim yn gwybod | | | | | 2 | 4 |

(Ffynhonell: 1979-98, Gunther *et al.*, 2004: 184; Argelaguet, 2006 o Centro de Investigacions Sociológicas)

*er mwyn safoni a gallu cymharu dros amser, yn yr enghreifftiau o 1979 i 1998, ni chafodd y categorïau 'ddim yn gwybod' a 'dim ateb' eu cynnwys cyn cyfri'r canrannau.

O ystyried y cyd-destun hanesyddol, nid yw'n annisgwyl bod gwahaniaethau rhwng cymdeithas sifil yng Nghymru a Chatalwnia. Dadleuir fod diffyg strwythurau sefydliadol yn golygu fod cymdeithas sifil Cymru wedi datblygu mewn cyd-destun Prydeinig (Wyn Jones a Lewis, 1998: 9). Datblygodd mudiadau *cymdeithas sifil Gymreig*, hynny yw mudiadau mwy penodol Gymreig, pan grëwyd sefydliadau cenedlaethol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen ac yn fwyfwy felly yng nghyfnod y Swyddfa Gymreig (Paterson a Wyn Jones, 1999: 174–5). Ar y cyfan, honnir fod cymdeithas sifil yn wan. Gwnaeth gyfraniad cyfyngedig i drafod datganoli cyn refferendwm 1997 ond wedi hynny daeth yn slogan gan adlewyrchu'r gobeithion am wireddu democratiaeth gyfranogol (Paterson a Wyn Jones, 1999: 193, 181; Davies, 1999; Hain, 1999).

Yng Nghatalwnia, trafodir hanes cyfoethog cymdeithas sifil, ei chryfder a'i chyfraniad allweddol i hanes y genedl (Giner, 2001: 170–1). Mae'n glir bod cymdeithas sifil benodol Gatalaneg wedi bodoli yn hanesyddol a bod trefniant tiriogaethol Catalanaidd cymdeithas sifil a hynny i raddau helaeth yn annibynnol ar y drefn ar lefel Sbaen (Keating, 2001a: 147). Os mai diffyg strwythurau sefydliadol Cymreig oedd yn egluro gwendid cymdeithas sifil, diddorol nodi bod Keating yn honni i'r gwrthwyneb bron am Gatalwnia:

'This separate Catalan associative life is characteristic of a society with a distinct identity but which lacked until recently its own institutions of government' (2001a: 177). Er y cyfyngu ar gymdeithas sifil dan Franco, parhaodd yn allweddol. Yn ystod blynyddoedd olaf Franco, datblygodd cymdeithas sifil annibynnol a gyfrannodd at hybu democrateiddio ac, yn hyn o beth, roedd Catalwnia ar y blaen i rannau eraill o Sbaen (Greer, 2007: 100; McRoberts, 2001: 56).

Wrth sefydlu llywodraeth ranbarthol, cydnabuwyd eu statws hanesyddol fel 'cenhedloedd'. Ond, yn ymarferol, mae gwahaniaethau clir rhwng pwerau, strwythurau a gwleidyddiaeth llywodraeth ranbarthol Cymru a Chatalwnia. Yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 1998, etifeddodd y Cynulliad bwerau eilradd mewn amrywiol feysydd. Yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006, cafodd y gallu i greu ei ddeddfwriaeth ei hun (Mesurau'r Cynulliad) yn yr ugain maes polisi datganoledig yn dilyn caniatâd gan San Steffan. O ran aelodaeth, etholwyd 60 Aelod Cynulliad am dymor o bedair blynedd. O ran strwythur, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 crëwyd un corff cyfreithiol a phennwyd y dylai'r Cynulliad hefyd weithredu gyda chabinet (Sherlock, 2000: 61). Gyda Deddf 2006, crëwyd rhaniad cyfreithiol rhwng y corff gweithredol a'r ddeddfwrfa gan greu Llywodraeth y Cynulliad a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. O ran ei gwleidyddiaeth, yn y tri etholiad yn 1999, 2003 a 2007, y Blaid Lafur a enillodd y mwyafrif o seddi. Llywodraethodd fel gweinyddiaeth leiafrifol ond sefydlwyd clymblaid gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol o Hydref 2000 i Fai 2003 ac wedi etholiadau 2007, sefydlwyd clymblaid rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru.[3]

Yn ôl Statud Ymreolaeth Catalwnia, ymysg y pwerau wedi eu neilltuo i lywodraeth ganolog Sbaen oedd amddiffyn, materion rhyngwladol, mewnfudo, gweinyddu'r gyfraith a chynllunio economaidd (Edwards, 1999: 671). Mae cymhlethdod yn perthyn i'r datganoli yma hefyd gan fod rhai pwerau wedi'u neilltuo i'r llywodraeth ranbarthol, rhai'n cael eu rhannu rhwng y llywodraeth ranbarthol a'r wladwriaeth, ac yna feysydd lle mae gan y Generalitat bwerau gweithredol (Pagès, 2005: 92–3). Enillwyd consesiynau pellach yn yr 1980au a'r 1990au a throsglwyddwyd mwy o bwerau i'r Generalitat (Nagel, 2001: 134). Diwygiwyd Statud Ymreolaeth Catalwnia yn 2006 a chynyddwyd grymoedd y llywodraeth mewn ystod o feysydd, megis trethi, apwyntiadau barnwrol a mewnfudo (Senedd Catalwnia, 2006). Diddorol nodi bod y ddeddf honno'n creu dyletswydd i hybu cydraddoldeb yn yr un modd â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.[4] O ran strwythur, system seneddol sydd i lywodraeth ranbarthol Catalwnia ac etholir 135 o ddirprwyon am dymor o bedair blynedd. Y brif blaid lywodraethol o 1979 i 2003 (pum tymor llywodraethol),

---

[3] Canlyniad Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999 oedd Llafur 28, Plaid Cymru 17, Ceidwadwyr 9, Democratiaid Rhyddfrydol 6. Canlyniad Etholiad y Cynulliad Mai 2003 oedd Llafur 30, Plaid Cymru 12, Ceidwadwyr 11, Democratiaid Rhyddfrydol 6, Annibynnol 1. Canlyniad Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007 oedd Llafur 26, Plaid Cymru 15, Ceidwadwyr 12, Democratiaid Rhyddfryddol 1, Annibynnol 1.

[4] Mae cyfeiriadau at ddyletswydd i hybu cydraddoldeb yn adrannau adrannau 4, 40 a 41 Statud Ymreolaeth Catalwnia 2006 (gweler Generalitat de Catalunya, 2009b). Yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, gosodwyd dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb drwy adran 48 ac adran 120. Mae'r elfennau hyn yn parhau yn adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler Chaney, 2009).

oedd clymblaid y CiU.[5] Dros y blynyddoedd, cafodd gefnogaeth gwahanol bleidiau i lywodraethu.[6] Yn dilyn etholiadau 2003, sefydlwyd clymblaid deirplaid, y PSC, IC-V a'r ERC, ac ym mis Tachwedd 2006, ailsefydlwyd yr un glymblaid.[7]

## Ymwneud cymdeithas sifil â llywodraeth ranbarthol yng Nghymru a Chatalwnia

Yng Nghymru a Chatalwnia gwelir gwahaniaeth rhwng dulliau'r llywodraeth ranbarthol i hybu ymwneud cymdeithas sifil â'r broses wleidyddol. Yn achos Cymru, dylanwadwyd ar gynllunio'r Cynulliad gan y gobeithion am wleidyddiaeth gynhwysol, a llywodraeth agored a thryloyw. Rhoddwyd pwyslais ar greu strwythurau i annog ymwneud â'r sefydliad yn wahanol i'r cyfnod mwy caeedig cynt. Un dull oedd drwy bwyllgorau pwnc y Cynulliad. Sianel arall oedd Cyngor Partneriaeth y Sector Wirfoddol a sefydlwyd yn sgil cyfrifoldeb cyfreithiol. Dyma gymal unigryw yn y Deyrnas Gyfunol a ddeuai ag Aelodau Cynulliad a chynrychiolwyr o 21 sector o gymdeithas sifil ynghyd. Yn ychwanegol, gosodwyd dyletswydd ar i'r Cynulliad gydymffurfio â'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb (Chaney, 2002b: 26). Yn sgil hyn, ariannwyd rhwydweithiau gan y Cynulliad a'r canlyniad oedd hyrwyddo cyfranogaeth grwpiau 'lleiafrifol' yn ymwneud â hil, rhywedd, anabledd a rhywioldeb oedd cynt wedi eu tan-gynrychioli.[8]

Yn fwy cyffredinol, dylanwadodd y gwerthoedd llywodraeth agored a hygyrch ar ddulliau gweithredu'r Cynulliad. Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth, mynediad i wybodaeth ac i gyfarfodydd y Cynulliad yn enghreifftiau o hyn. Ar y cyfan, canlyniad y gwerthoedd a'r strwythurau ffurfiol oedd hyrwyddo lefel uchel o ymwneud cymdeithas sifil â gwaith y Cynulliad. Mewn ymateb, datblygodd nifer o fudiadau ddulliau soffistigedig o ddylanwadu o ganlyniad i ailstrwythuro, proffesiynoli ac ehangu adnoddau a niferoedd staff. Roedd hyn yn aml yn cynnwys penodi swyddog yn canolbwyntio'n benodol ar gyswllt â'r Cynulliad. Gyda'r lefel hyn o broffesiynoldeb, gallai nifer o fudiadau ddilyn strategaeth ddeuol o ddefnyddio dulliau ffurfiol ac anffurfiol yn eu hymwneud â'r Cynulliad a'r llywodraeth. O bersbectif diwedd yr ail dymor, roedd hi'n amlwg fod nifer o fudiadau'n datblygu'n fwyfwy soffistigedig gan iddynt feithrin cysylltiadau da â'r Gweinidogion a gweision sifil a gwneud defnydd mwy strategol o wleidyddion y gwrthbleidiau.

---

5 Prif bleidiau'r glymblaid oedd y Convergència Democràtica de Catalunya (CDC), plaid fwy adain dde genedlaetholgar a gâi ei harwain gan Jordi Pujol, a'r Unió Democràtica oedd yn blaid fwy democrataidd Gristnogol.

6 Gan fod CiU yn llywodraeth leiafrifol yn dilyn etholiad 1980, dibynnai ar gefnogaeth yr ERC a'r UCD. I gydnabod hyn, cafwyd clymblaid gydag ERC y tymor dilynol ac roedd safle ganddynt yn y cabinet yn ystod llywodraeth 1984-7. ERC – Esquerra Republicana de Catalunya yw'r blaid fwyaf cenedlaetholgar sy'n galw am annibyniaeth i Gatalwnia. Gweler Baras a Dalmases, 1998b: 176–8.

7 PSC – Partit Socialistes de Catalunya – ffurfiwyd adeg y trawsnewidiad gan ddod â thair plaid sosialaidd Catalwnia ynghyd. Y rheiny oedd El Partit Socialista de Catalunya-Congrés (PSC-C), La Federació Catalana del PSOE a'r el Partit Socialista de Catalunya – Regrupament (PSC-R). Gweler Baras a Dalmases, 1998b. Y PSC sy'n gysylltiedig â'r PSOE, y blaid sosialaidd ar lefel wladwriaethol Sbaen. Cynghrair yw'r IC-V – Iniciativa per Catalunya Verds o'r blaid fwy comiwnyddol a'r blaid werdd. Yn rhagflaenu Iniciativa oedd Partit Socialista Unificat de Catalunya (PSUC) a ddaeth i ben yn 1987 ac yna sefydlwyd Inicativa per Catalunya (IC). Ers yr 1990au bu mewn clymblaid gyda'r gwyrddion (Verds). Am fwy o wybodaeth am y pleidiau, gweler Baras a Dalmases, 1998b.

8 Cyfweliad Cymru 48, 26.7.07. Am fanylion am y rhwydweithiau eraill a noddwyd gan y Cynulliad gweler Chaney a Fevre, 2002b.

Fodd bynnag, nid oedd cysondeb o ran ymwneud mudiadau cymdeithas sifil â'r Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad. Yn gyntaf, roedd gwahaniaethau cynyddol o ran gallu ac adnoddau ac anghydraddoldeb grym a dylanwad rhwng gwahanol gyrff cymdeithas sifil wrth i rai mudiadau fethu â manteisio ar y cyfleoedd newydd i ddylanwadu. Yn ail, cafodd diffyg eglurder y trefniadau cyfansoddiadol effaith wahanol ar gyrff cymdeithas sifil a'u hymwneud â'r Cynulliad. Rhoddodd y rhaniad grym cymhleth rhwng y Cynulliad a San Steffan bwysau pellach ar gyrff llai. Y paradocs oedd i'r cymhlethdod hwn hwyluso perthynas rhai mudiadau â'r Cynulliad, sef y rheiny oedd â mwy o adnoddau. O'r achosion a astudiwyd, y rheiny oedd Oxfam Cymru a Stonewall Cymru a oedd yn ymwneud gan mwyaf â meysydd heb eu datganoli (Royles, 2007). Yn drydydd, yn sgil symud i weithio yn null llywodraeth gabinet, israddiwyd nifer o'r strwythurau ffurfiol a grëwyd i fod yn gynhwysol. Daeth arbenigedd a gallu'n allweddol i ddatblygu cysylltiadau lefel uchel â gweinidogion a gweision sifil er mwyn cael dylanwad gwirioneddol ar bolisi.

Awgrymai'r dystiolaeth fod y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu perthynas fwy neilltuol â rhai cymdeithasau nag eraill. Er enghraifft, yng nghyfnod cynnar datganoli, roedd awgrym fod Cymdeithas yr Iaith a Chymuned yn annerbyniol i rai AC ac felly'n cael eu gweld y tu allan i waith y llywodraeth mewn cymhariaeth â chyrff eraill yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Adlewyrchai hyn agweddau negyddol tuag at y Gymraeg ymysg carfan o'r Blaid Lafur Gymreig. Yn ystod yr ail dymor, bu peth newid yn yr hinsawdd o ran y Gymraeg a chafodd hyn ddylanwad ar berthynas y mudiadau â'r gwrthbleidiau ac i ryw raddau â Llywodraeth Lafur y Cynulliad. Yn fwy cyffredinol, yr awgrym o'r ymchwil oedd bod rhai grwpiau, oherwydd dulliau gweithredu a gwahaniaethau ideolegol, yn llai derbyniol i Lywodraeth y Cynulliad a rhai Aelodau Cynulliad.

Consýrn arall oedd bod ariannu a rhwydweithiau polisi yn rhan o'r duedd i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu perthynas fwy neilltuol gyda rhai mudiadau. Roedd posibilrwydd bod ariannu a phartneriaethau nid yn unig yn creu cysylltiadau cryfach gyda'r llywodraeth ond yn effeithio ar awtonomi mudiadau. Awgrymai'r ymchwil y gallai perthynas gref arwain at fod yn fwy cymodlon gan ddylanwadu ar allu'r mudiadau i sicrhau bod y llywodraeth yn atebol. Tra bod rhai mudiadau a dderbyniai arian gan Lywodraeth y Cynulliad yn ddigon hyderus i gwestiynu'r llywodraeth, cydnabyddai eraill y gallai derbyn cyllid effeithio ar eu safbwyntiau. Enghraifft arall oedd y Cyngor Partneriaeth Sector Wirfoddol oedd yn tueddu i roi rhai cyrff mewn sefyllfa fwy pwerus wrth 'gynrychioli' eu sector heb sicrwydd digonol o'u gallu i wneud hynny. Er yr ymdrechion i ymateb i hyn, bodolai problemau o hyd ac roedd yna anghysonderau (Llywodraeth y Cynulliad, 2004b: 16). Ar yr un pryd roedd cyrff oedd â chysylltiadau anffurfiol da â'r llywodraeth yn gweld y strwythurau ffurfiol, megis y Cyngor Partneriaeth Sector Wirfoddol, yn llai pwysig gydag awgrym eu bod yn fwy trafferthus.[9] Cam cadarnhaol oedd hyrwyddo'r defnydd o secondiadau rhwng y llywodraeth a'r sector wirfoddol a chymunedol (Llywodraeth y Cynulliad, 2004b: 74). Yn ôl rhai mudiadau, bu hyn yn fodd o gryfhau gallu mudiadau, a gwella eu cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol â'r llywodraeth.[10] Felly, er mai'r Cyngor Partneriaeth oedd y brif sianel ffurfiol yn ystod y ddau dymor cyntaf, nid oedd hi'n eglur bod y strwythurau'n gweithio i hyrwyddo cyfle mwy cyfartal rhwng mudiadau (Royles, 2007: 55,151–2).

---

[9] Cyfweliad Cymru 46, 15.2.07.

[10] Cyfweliad Cymru 46, 15.2.07.

Ymddangosai fod trefniadau ariannu a 'phartneriaethau' agos yn gallu creu sefyllfa gymhleth. Ar y naill law, roedd y trefniadau'n ganolog i adeiladu a chryfhau cymdeithas sifil. Mae'r duedd i ddatblygu partneriaeth gyda chyrff penodedig hefyd yn ddealladwy o ran effeithlonrwydd, ac yn fodd o gynyddu lefelau cyfranogaeth ac arbenigedd. Ond, ar y llaw arall, nid oedd hi'n amlwg fod Llywodraeth y Cynulliad yn llawn ymwybodol bod effeithiau negyddol yn gallu tarddu o gysylltiadau cryfach a pherthnasau ariannu gyda mudiadau, gan gynnwys y Cyngor Partneriaeth (Chaney a Fevre, 2001b: 148; Chaney, 2002a: 6). Gall datblygu perthynas neilltuol â rhai mudiadau gyfyngu ar ddatblygiad mudiadau eraill ac effeithio ar allu cymdeithas sifil i fagu'r gallu i feirniadu a chraffu sy'n arferol mewn democratiaeth iach. Mae'r sefyllfa'n creu consýrn mai cyfyngedig yw'r lleisiau a all ddal y llywodraeth yn atebol a hynny mewn hinsawdd lle bo gallu lleisiau eraill i gwestiynu hefyd yn wan (Royles, 2007: 165–6).

Gyda Deddf Llywodraeth Cymru 2006 crëwyd hinsawdd newydd ar gyfer y berthynas rhwng y Cynulliad a chymdeithas sifil. Yn gyntaf, drwy'r gwahaniad cyfreithiol roedd mwy o eglurder a allai wella atebolrwydd. Golygai hyn fod swyddogaethau megis y rheidrwydd i ddatblygu partneriaeth gyda'r sector wirfoddol a'r cyfrifoldebau statudol o ran cydraddoldeb wedi'u trosglwyddo i'r llywodraeth. O'r herwydd, roedd potensial i strwythurau megis y Cyngor Partneriaeth Sector Wirfoddol fod yn ffordd gadarnach o sicrhau mewnbwn i waith y llywodraeth. Yn ail, cynigiai'r ddeddf gyfleoedd newydd i gymdeithas sifil ddylanwadu ar y broses ddeddfwriaethol a rhoddwyd anogaeth i fudiadau bwyso ar y llywodraeth a'r Cynulliad. Crëwyd trefniadau ar gyfer deisebau cyhoeddus (Rheol Sefydlog 28) a gosod rheidrwydd ar i'r Cynulliad ystyried unrhyw ddeiseb gyhoeddus (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007: 16). Er gwaetha'r cyfleoedd newydd, roedd hi'n ymddangos bod nifer o fudiadau'n cael trafferth dygymod â'r sefyllfa newydd. I rai mudiadau, nid oeddent yn ymwybodol iawn o oblygiadau Deddf 2006, yn aml oherwydd sefyllfa adnoddau. Roedd hyn hefyd yn arwydd o'r diffyg eglurder sy'n perthyn i'r pwerau (Rawlings, 2005: 845; Trench, 2006; Elis-Thomas, 2009). Ar y llaw arall, roedd mudiadau eraill yn llwyr ymwybodol o oblygiadau'r ddeddf ac yn ddyfeisgar. Rhan o'r ymwybyddiaeth hyn oedd ceisio dylanwadu a chraffu ar y broses ddeddfwriaethol a alwai am fwy o arbenigedd. Tra bo rhai'n datblygu arbenigedd cyfreithiol mewnol er mwyn cryfhau eu hymdrechion lobïo, roedd eraill yn ddibynnol ar ewyllys da am gymorth cyfreithiol. Roedd parhau i ddylanwadu yng Nghaerdydd a Llundain yn bwysig ac yn galw am adnoddau. Cam diddorol oedd bod nifer o fudiadau'n dod yn ymwybodol o fanteision ffyrdd strategol i geisio dylanwadu ar y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad: defnyddio rhwydweithiau a chlymbleidio. Erbyn 2009, yr awgrym, ar sail ymgais Sustrans Cymru drwy'r system ddeisebu i bwyso ar y Cynulliad i geisio cael y grym gan San Steffan i gyflymu creu rhwydwaith cenedlaethol o ffyrdd di-geir, oedd cwestiynu gwerth buddsoddi amser ac adnoddau. Roedd yr angen i flaenoriaethu agenda ddeddfu'r llywodraeth, problemau gwleidyddol ac arafwch trosglwyddo pwerau yn effeithio ar barodrwydd y llywodraeth i fabwysiadu argymhellion deddfwriaethol (Williamson, 2009).

Yng Nghatalwnia, yn ystod llywodraethau Convergència, roedd gan yr holl gyrff a astudiwyd berthynas dda gyda'r llywodraeth ranbarthol a chredent fod mudiadau eraill yn eu maes yn yr un sefyllfa. Fodd bynnag, prin oedd strwythurau pwrpasol i hybu cyfranogaeth cymdeithas sifil. Honnai'r llywodraeth mewn grym er 2003 na ddatblygwyd strategaeth i ddyfnhau democratiaeth gyfranogol yn ystod y cyfnod 1980–2003 (DGPC,

2006a: 8). Yn hytrach, patrwm amrywiol a mympwyol o berthnasau a gaed, gan amlaf yn seiliedig ar ariannu.

Un sianel ffurfiol oedd i gymdeithas sifil ymwneud â'r llywodraeth, sef drwy gynghorau (*consells*) i gynnull y prif gyrff mewn maes penodol i ymgynghori a chydweithio gyda'r Generalitat ar bolisïau cyhoeddus. Roedd pob un o'r mudiadau a astudiwyd yn aelod o gyngor. Gwelai Plataforma, a oedd yn aelod newydd o'r Cyngor Iaith, fod ei phresenoldeb yn ddefnyddiol ac yn ffordd o ddylanwadu ar benderfyniadau'r Uned Gwleidyddiaeth Iaith.[11] Fodd bynnag, mae astudiaeth Font a Blanco o'r cynghorau'n fwy beirniadol (gw. hefyd DGPC, 2006c: 26). Roedd anghysondeb rhwng defnydd adrannau o gynghorau, ac roedd nifer uchel staff y Generalitat ar fwyafrif y cynghorau yn awgrymu eu bod yn ceisio sicrhau eu bod yn fwyafrif (Font a Blanco, 2003: 281). Mae Font a Blanco hefyd yn cwestiynu'r dulliau apwyntio, y graddau roedd y mudiadau yn gynrychioliadol a hefyd natur harbenigedd (2003: 282).

Heblaw am y cynghorau, nid oedd yna strwythurau systematig i sicrhau mewnbwn cymdeithas sifil i waith y Generalitat. O'r herwydd, roedd ymwneud anffurfiol â'r llywodraeth yn allweddol (Font a Blanco, 2003: 279). Datblygai'r mudiadau gysylltiadau uniongyrchol â'r gweinidogion. Yn yr un modd, anffurfioldeb oedd prif nodwedd y berthynas â'r pleidiau gwleidyddol ac eglurwyd fod perthynas dda yn aml yn seiliedig ar gysylltiadau personol.[12] Gallai'r pwyslais ar berthnasau anffurfiol olygu bod gallu ac adnoddau mudiadau yn bwysicach i ddatblygu perthynas â'r llywodraeth. Yn ôl Keating mae anffurfioldeb yn greiddiol yma gan fod gwleidyddiaeth yng Nghatalwnia yn:

> characterized by networks and personal linkages. Differences are resolved and common positions are established through compromise and bargains rather than through institutional authority. This type of politics, less rooted in state structures, is better able to operate in the more flexible conditions of the new world; but often at the cost of obscurity, lack of accountability and clientelism (2001a: 198).

Ariannu oedd hanfod perthynas nifer o gyrff â'r Generalitat a'r awgrym oedd bod grantiau blynyddol yn cael eu dosbarthu ar gyfer prosiectau i nifer o fudiadau yn yr un sector.[13] Ffynhonnell ddiweddar ac arwyddocaol o arian ar gyfer mudiadau oedd rhaglen profiadau gwaith Adran Waith y Generalitat. Byddai'r adran yn talu 80 y cant, a'r mudiad yn talu 20 y cant o'r cyflog. Roedd yr holl gyrff a astudiwyd wedi cael staff tymor byr a fu'n fuddiol.[14] Ym maes hawliau pobl hoyw a lesbiaid, ers sefydlu'r Generalitat, derbyniai nifer o fudiadau rywfaint o gyllid gan y llywodraeth. Ond nid oedd hyn o reidrwydd yn golygu datblygu polisïau neu lunio deddfwriaeth i hyrwyddo hawliau pobl hoyw a lesbiaid.[15] Yn

11 Cyfweliad Catalwnia 20, 13.9.06.

12 Cyfweliad Catalwnia 17, 8.9.06; Cyfweliad Catalwnia 19, 12.9.06; Cyfweliad Catalwnia 20, 13.9.06.

13 Cyfweliad Catalwnia 10, 27.10.05; Cyfweliad Catalwnia 19, 12.9.06.

14 Cyfweliad Catalwnia 17, 8.9.06; Cyfweliad Catalwnia 6, 25.10.05.

15 Cyfweliad Catalwnia 19, 12.9.06; Cyfweliad Catalwnia 16, 8.9.06. Un ddeddf a gefnogwyd gan lywodraeth Pujol ar ddiwedd yr 1990au oedd deddf ar gyfer partneriaid 'llei parellas de fet'. Gweler Vilà, 2000: 282.

fwy cyffredinol, eglurwyd fod y broses grantiau'n anghyson gyda phenderfyniadau ar lefel adrannol heb strategaeth ehangach. Roedd hi'n gwestiwn hefyd i ba raddau roedd y broses ariannu'n un agored.[16]

Fel yn achos Cymru, roedd gwahaniaethau rhwng mudiadau. Amlygai'r llenyddiaeth ehangach ddau realiti gwahanol cymdeithas sifil Catalwnia: un gyfran o gymdeithasau â graddau uchel o adnoddau o ganlyniad i ddarparu gwasanaethau a ffioedd, ac eraill yn byw ar gyfraniadau gwirfoddolwyr a grantiau gan wahanol lefelau o lywodraeth (Sarasa, 1998b: 997). Mae goblygiadau ariannu llywodraethol i fudiadau yng Nghatalwnia yn ddiddorol. Roedd y cyrff a astudiwyd a dderbyniai rhyw gyfran o gyllid gan y Generalitat yn dadlau nad oedd hyn yn amharu ar eu hannibyniaeth na'u gallu i feirniadu'r llywodraeth. Pwysleisiwyd fod cael ffynonellau ariannol amgen a'u hadnoddau eu hunain yn bwysig.[17] Eglurwyd fod y system o dderbyn arian ar gyfer gweithgarwch a phrosiectau penodol, yn hytrach na chyllid craidd, yn golygu nad oedd ariannu'n effeithio ar eu hannibyniaeth.[18] Ar y cyfan, mae'n eglur fod darparu grantiau wedi hybu cymdeithas sifil weithgar. Gwnaed y sylw hwn gan un o'r rhai a gyfwelwyd:

> The government has a commitment to promoting civil society … They are just making sure that part of civil society is able to do the activities and have an impact on the society or on democracy … It could be more like not affecting the independence but making sure that maybe civil society keeps doing things that the government doesn't know how to do.[19]

Mae'r llenyddiaeth ehangach ar Gatalwnia'n tynnu sylw at beryglon gorddibyniaeth mudiadau ar arian cyhoeddus (McRoberts, 2001: 117). Honnir mai hon yw'r brif her sy'n wynebu cymdeithas sifil yng Nghatalwnia (Sarasa, 1998b: 982). Fel gyda sylwadau Keating uchod, hawlia Sarasa fod grantiau gan y llywodraeth yn agor y drws i aneglurder yn y berthynas rhwng y llywodraeth a mudiadau a *clientelism* gwleidyddol. Un cam at ddygymod â hyn oedd deddf cymdeithasau (1997) oedd yn ceisio rheoli natur perthnasau rhwng cymdeithas sifil a'r wladwriaeth (Sarasa, 1998b: 997). Eglurwyd mewn cyfweliadau bod sefyllfa cefnogaeth sefydliadol yn hollbwysig; heb hynny ni allent oroesi. Er mwyn sicrhau diwylliant democrataidd yng Nghatalwnia, roedd cael arian gan y wladwriaeth yn bwysig.[20]

Yn dilyn sefydlu'r llywodraeth deirplaid yng Nghatalwnia yn 2003, crëwyd strategaeth gyfranogaeth. Parhaodd annog cyfranogaeth yn un o dri phrif amcan rhaglen y llywodraeth a etholwyd yn 2006. Yn 2004, sefydlwyd Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyfranogaeth Dinasyddion. Gan geisio annog cyfranogi, pwysleisiwyd: 'high-intensity participatory policies with initatives that help us to consolidate the rights of the public to be informed, to be consulted and to take part in decisions' (DGPC, 2005b: 4). Er mwyn

---

16 Cyfweliad Catalwnia 1, 17.10.05.

17 Cyfweliad Catalwnia 17, 8.9.06; Cyfweliad Catalwnia 19, 12.9.06.

18 Cyfweliad Catalwnia 2, 18.10.05.

19 Cyfweliad Catalwnia 6, 25.10. 05.

20 Cyfweliad Catalwnia 16, 8.9.06.

rhoi'r syniad o ddemocratiaeth gydgynghorol (*deliberative democracy*) ar waith, roedd gan y gyfarwyddiaeth nifer o swyddogaethau. Yn eu mysg oedd hybu a chefnogi adrannau i weithio mewn ffyrdd mwy cyfranogol, er enghraifft drwy ddatblygu gofod sefydlog i ddinasyddion a chymdeithas sifil gyfrannu i'w gwaith a hyrwyddo strwythurau i'r cyhoedd ddylanwadu ar bolisïau (DGPC, 2005b: 2). Er bod y pwyslais yn yr ieithwedd ar gynnwys dinasyddion, roedd rôl allweddol mudiadau cymdeithas sifil yn glir yn eu gwaith. Drwy'r model democratiaeth gydgynghorol, canolbwyntiwyd ar greu prosesau a gofod ar gyfer trafodaeth a deialog er mwyn gwrando ar farn ystod eang o'r cyhoedd ac er mwyn cynnwys y farn honno, a hynny heb ildio i gyfaddawd gwleidyddol nac osgoi cyfrifoldebau cyhoeddus (Fishkin a Laslett, 2003; DGPC, 2006a: 11; DGPC, 2006b: 18). Wrth roi'r syniadau hyn ar waith, rhoddwyd pwyslais ar sicrhau fod y drafodaeth neu'r ddeialog yn dilyn camau sylfaenol. Ymysg yr egwyddorion oedd darparu gwybodaeth ddigonol i'r rhai'n cymryd rhan i'w galluogi i ddatblygu amryw o sianeli a dulliau i dderbyn cyfraniad gwahanol ddinasyddion (yn arbennig mewnbwn cymdeithas sifil) a hefyd adrodd yn ôl ar y casgliadau terfynol gan egluro a chyfiawnhau'r rhesymau (DGPC, 2006b, 20–22; DGPC 2006a: 12).

O ganlyniad i wendidau'r strwythurau ffurfiol blaenorol i hyrwyddo cyfranogaeth, gosodwyd canllawiau i ailfodelu dulliau sefydlog ar gyfer mewnbwn cymdeithas sifil (DGPC, 2006c: 25).[21] Wrth gynllunio, tynnwyd sylw at bwysigrwydd gwerthuso ansawdd cyfranogi: i ba raddau y ceid trafodaeth agored a rhydd; a oedd cefnogaeth ac adnoddau ar gael i'r rhai sy'n cyfrannu; ai ffurfioldeb oedd y drafodaeth ynteu a oedd cyfle i gyfrannu syniadau neu argymhellion amgen a allai gael dylanwad (DGPC, 2006c: 28). Yn ychwanegol at gynllunio cyfranogol, pwysleisiwyd bod angen i'r llywodraeth weithredu yn ôl gwerthoedd cydgynghorol. Yn arwyddocaol, dadleuwyd os oedd mwy o hyder gan fudiadau yn eu mynediad uniongyrchol, mwy anffurfiol i'r strwythurau llunio penderfyniadau na thrwy'r gofod sefydlog, y gallai'r mynediad anffurfiol arwain at hepgor deialog ar y cyd gan fodloni ar drafodaethau mwy unigol (DGPC, 2006c: 29). Cymysg oedd agwedd y cyfwelai tuag at sefydlu'r gyfarwyddiaeth. Er y gwelid hyn fel cam cadarnhaol, i rai roedd yr adran benodol yn arwydd o ddiffyg ymroddiad i hybu cyfranogi.[22] Roedd eraill yn cwestiynu mai ymdrech i gyfreithloni gwaith y Generalitat ydoedd.[23] Eglurodd swyddogion y Generalitat fod adrannau'n gwahaniaethu yn eu hymroddiad i gynnwys grwpiau yn eu gwaith gan dueddu i ystyried cyfrannu fel cost ychwanegol (DGPC, 2006a: 14).[24]

I grynhoi, mae perthynas cymdeithas sifil â llywodraeth ranbarthol yng Nghymru a Chatalwnia wedi dilyn patrwm gwahanol. Yn achos Cymru, ymgorfforwyd dulliau ffurfiol i geisio sicrhau ymwneud cymdeithas sifil yng ngwaith y Cynulliad, ac roedd llawer o'r rhain yn ddyfeisgar. Ond, yn ymarferol, perthnasau anffurfiol a dueddai i fod fwyaf effeithiol a'r canlyniad oedd bod gallu ac adnoddau yn fwy pwysig i geisio cael dylanwad ar y llywodraeth. Er gwaetha'r hinsawdd newydd a grëwyd gan Ddeddf 2006, awgrymai'r

21 Cyfweliad Catalwnia 1, 17.10.05.

22 Cyfweliad Catalwnia 10, 27.10.05.

23 Cyfweliad Catalwnia, 12, 3.11.05.

24 Cyfweliad Catalwnia 1, 17.10.05.

ymchwil fod yr un gwahaniaethau a ddatblygodd rhwng mudiadau yn ystod y ddau dymor cyntaf yn parhau a bod yr angen am adnoddau a gallu yn cynyddu.

Er bod patrwm gwahanol yng Nghymru a Chatalwnia, roedd anffurfioldeb ac ariannu yn elfen amlwg yn y berthynas rhwng llywodraeth ranbarthol a'r mudiadau yn y ddwy wlad. Yng Nghatalwnia, yng nghyfnod llywodraethau Convergència, cyfyngedig oedd y strwythurau ffurfiol fyddai'n sicrhau bod mudiadau'n cael mewnbwn ystyrlon. Roedd cynghorau Catalwnia'n codi nifer o'r un problemau â'r Cyngor Partneriaeth Sector Wirfoddol yng Nghymru. Roedd tuedd i adlewyrchu rhai o'r rhybuddion yn y llenyddiaeth neo-gorfforaethol a drafodwyd yn yr adran gyntaf. Hynny yw, gall strwythur penodol i gynnwys rhai grwpiau yn y broses o lunio penderfyniadau arwain at freintio un grw^p a'r grw^p hwnnw'n `cynrychioli' sector ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd i grwpiau eraill ymwneud â'r llywodraeth (Wilson, 1990: 69). Yn y ddau achos, tra bo grantiau'n allweddol i hybu cymdeithas sifil weithgar, roedd goblygiadau cyllid gan y llywodraeth i ariannu cymdeithas sifil yn debyg. Yng Nghatalwnia, awgrymwyd bod dosbarthu grantiau i nifer o fudiadau o fewn sector yn rhannol osgoi'r duedd i wneud un corff yn `gynrychioliadol' o sector. Gellid hawlio hefyd bod cefnogi gweithgarwch nifer o fudiadau yn yr un sector yn hyrwyddo lluosogyddiaeth. Roedd natur luosogol cymdeithas sifil yng Nghatalwnia o'i gymharu â Chymru yn drawiadol.[25]

Hyd yma yng Nghymru, nid oedd strwythurau'r llywodraeth wedi llwyddo i greu system agored o gyfranogaeth ac roedd y gwahaniaethau rhwng gallu ac adnoddau mudiadau yn gwneud hyn yn anoddach. Gellid honni nad aethpwyd ati o ddifri i weithredu dyletswydd statudol y Generalitat i hyrwyddo cyfranogaeth dinasyddion mewn bywyd gwleidyddol (Erthygl 8 Statud Catalwnia) tan ddyfodiad y llywodraeth deirplaid.[26] Bryd hynny, fel yng Nghymru, datblygwyd cynlluniau dyfeisgar a blaengar ar lefel Ewropeaidd. Mae'r argymhellion yn awgrymu bod dylanwad syniadau democratiaeth gydgynghorol yn gallu cynyddu ymwybyddiaeth o'r goblygiadau a'r sialensau sy'n codi wrth geisio gwneud cyfranogaeth yn ganolog i waith llywodraeth ranbarthol.

## Egluro ymwneud cymdeithas sifil â llywodraeth ranbarthol

Gellir tynnu sylw at nifer o ffactorau cyffredin sy'n egluro natur y berthynas rhwng mudiadau a llywodraeth ranbarthol yng Nghymru ac yng Nghatalwnia. Yn y ddwy genedl, un o'r prif resymau am y berthynas rhwng cymdeithas sifil a'r llywodraeth oedd eu harbenigedd a'u gweithgarwch. Yn achos Cymru a Chatalwnia gwelwn fod mudiadau'n chwarae'r rhan o ehangu cefnogaeth a chyfreithloni llywodraeth ranbarthol yng nghyd-

---

25 Cyfweliad Catalwnia 7, 26.10.05; Cyfweliad Catalwnia 11, 28.10.05; Cyfweliad Catalwnia 16, 8.9.06; Cyfweliad Catalwnia 19, 12.9.06; Cyfweliad Catalwnia 13, 4.11.05. Ymysg yr esboniadau a roddwyd am y gwahaniaeth oedd bod lluosogyddiaeth cymdeithas sifil yn adlewyrchu'r dwysedd mudiadau cymdeithasol, y pwyslais yng Nghatalwnia ar ymwneud mewn mudiadau a gweithredu ar y cyd.

26 Geiriad Erthygl 8, 2: `It is incumbent on the "Generalitat" as a public authority, to develop conditions within its area of jurisdiction such that the freedom and equality of individuals and the groups of which they form part may be effective and real, to remove any obstacles which may prevent or impede their full development and to facilitate the participation of all its citizens in political, economic, cultural and social life' (Generalitat de Catalunya, 1997a).

destun y bleidlais isel mewn etholiadau (Balcells, 1996: 177; McRoberts, 2001: 164).[27] Roedd elfen arall yng Nghatalwnia, sef tensiwn yn y berthynas â'r llywodraeth ganolog ac ymdrechion i ddatganoli grymoedd (Gunther *et al.*, 2004: 322; Heywood, 2000). Golygai hyn fod cefnogaeth mudiadau cymdeithas sifil yn cryfhau statws llywodraeth Catalwnia wyneb yn wyneb â grym y llywodraeth ganolog (Greer, 2007:134).

Hefyd yn gyffredin rhwng Cymru a Chatalwnia yw'r ffaith bod ewyllys gwleidyddol, ac yn fwy penodol yr amcan o adfer cenedl, yn allweddol i ddeall graddau'r berthynas rhwng cymdeithas sifil a llywodraeth ranbarthol. Yng Nghymru, un dimensiwn o'r prosiect adeiladu cenedl yw'r ymdrechion i gryfhau statws cyfansoddiadol y Cynulliad. Soniwyd eisoes am bwysigrwydd cymdeithas sifil yn galw am bwerau pellach i'r Cynulliad. Dimensiwn cysylltiedig yw cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad i fudiadau. Roedd bod yn agored yn annog creu clymbleidiau a chymunedau polisi i gefnogi gallu'r Cynulliad i weithredu er gwaethaf cyfyngiadau ei bwerau (ac o bosib o ganlyniad iddynt). Rhoddwyd cefnogaeth i fudiadau oedd yn cyd-fynd ag agenda llywodraethol y Blaid Lafur o greu Cymru newydd, 'agored' ac allblyg a grisialwyd yn y disgrifiad '*an outward-looking Wales*'. Ar yr un pryd, roedd ochr wahanol, sef perthynas anodd rhai Aelodau Cynulliad, ac yn benodol felly aelodau'r Blaid Lafur lywodraethol, â rhai mudiadau iaith. Ar y cyfan, cyfrannodd mudiadau cymdeithas sifil at gyfiawnhau gwerth bodolaeth y Cynulliad; cyfrannwyd hefyd at y prosiect o adeiladu cenedl. Yn achos Catalwnia roedd ymwneud mudiadau â'r Generalitat nid yn unig yn gysylltiedig â cheisio gwrth-wneud effeithiau'r gyfundrefn unbenaethol ond â pholisi'r llywodraeth o adfer cenedl. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, roedd ariannu cymdeithasau yn rhan o'r ymwybyddiaeth o botensial cymdeithas sifil i gyfrannu at y broses o adfer cenedl. Gellir dadlau fod y gefnogaeth a roddwyd i ystod eang o gyrff yn hyrwyddo'r gwerthoedd oedd yn ganolog i weledigaeth Pujol a'r CiU o adfer y genedl Gatalaneg ac yn hybu creu cenedl sifig drwy gyfrwng cymdeithas sifil (Keating, 2001b: 265). Drwy'r astudiaethau achos ceir enghreifftiau o'r modd y bu sectorau o gymdeithas sifil yn allweddol i'r prosiect o adfer cenedl. Yr enghraifft amlycaf yw achos yr iaith gan fod cefnogaeth ariannol i'r mudiadau yn cyd-fynd ag un o brif amcanion y llywodraeth Convergència, sef cryfhau statws yr iaith a sicrhau fod y Gatalaneg yn cael ei normaleiddio.

Mae rhai awduron sy'n trafod goblygiadau'r prosiect o adfer cenedl yn tynnu sylw at agweddau perthnasol o ddiwylliant gwleidyddol Catalwnia.  Trafoda Argelaguet gyfraniad hyrwyddo'r iaith Gatalaneg wrth ailadeiladu cenedl i gryfhau'r ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol Gatalaneg a'r gefnogaeth i'r pleidiau cenedlaetholgar (2006: 433). Wrth olrhain ymdrechion llywodraethau Convergència i sicrhau grymoedd pellach wrth ailadeiladu cenedl, dadleua Greer fod y grymoedd a enillodd y Generalitat yn adlewyrchu rhwydweithiau o fudiadau rhanbarthol a ddymunai ddatblygu agenda bolisi a oedd yn benodol Gatalaneg. Wrth ennill pwerau, crëwyd cynghreiriau rhwng y llywodraeth a'r rhwydweithiau o elît rhanbarthol mewn meysydd megis iechyd, addysg, a hyn wedyn yn fodd o sicrhau cefnogaeth i'r blaid lywodraethol (Greer, 2007:161). Trafoda Keating sut yr aeth y Generalitat ati i fagu cysylltiadau gyda chymdeithas sifil a goblygiadau hyn. Hawlia y gwelwyd:

[27] Erbyn Etholiad y Cynulliad 2007, gwelwyd cynnydd ym maint y bleidlais, o 38.2% yn 2003 i 43.5% yn 2007.

> Conscious effort to build national consciousness and solidarity through these private associations. Critics complain that this is a strategy to spread nationalist ideology through the society; even critics sympathetic to nation building complain that the aim is really to build clientelistic links from the CiU into civil society to maintain the hegemony of the ruling party and ideology (Keating, 2001a: 178).

Rhaid hefyd ystyried y ffactorau a olygodd mai cyfyngedig oedd y strwythurau ffurfiol i sicrhau y gallai cymdeithas sifil ymwneud yng ngwaith Generalitat Catalwnia. Gellid dadlau mai'r trawsnewidiad democrataidd a ddylanwadodd ar ymwneud ffurfiol cymdeithas sifil â llywodraeth ranbarthol. Rhwng 1981 a 1985 cynyddodd nifer y mudiadau cofrestredig mewn rhai meysydd ond, diflannodd nifer o'r cyrff fu fwyaf gweithgar yn ystod cyfnod cynnar democratiaeth (1977–80) (Sarasa, 1998b: 997).[28] Ar un wedd, nid yw'r dirywiad yn annisgwyl gan mai dyna fu profiad Dwyrain Ewrop hefyd yn dilyn gwawr democratiaeth. Eglurir y dirywiad hwn gan symudiad arweinwyr ac aelodau'r mudiadau at wleidyddiaeth bleidiol yn dilyn sefydlu democratiaeth.[29] Ffactor arall yw lleihad grym y blaid gomiwnyddol (PSUC) yn dilyn y trawsnewidiad ac ymddengys fod dirywiad rhai mudiadau'n gysylltiedig â sefyllfa'r blaid honno (Greer, 2006). Y trydydd ffactor yw natur y trawsnewidiad. Y pleidiau gwleidyddol a arweiniodd wrth drafod Statud Hunanreolaeth Catalwnia. Yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y trawsnewidiad, dadleuir i'r pleidiau fynd ati'n bwrpasol i gryfhau eu safle, ar draul cymdeithas sifil:

> The elite pact which characterised the Spanish transition included Catalan and Catalanist elites. They helped to demobilize the popular movements (neighbourhood movements, students, part of the trade union and non-party nationalist mobilisation), while they institutionalised a new party system, different but not totally separate from the Spanish one (Nagel, 2001: 128).

Cyfeiria Gunther *et al.* at dueddiadau tebyg ar draws Sbaen (2004: 129). Cryfhawyd safle'r pleidiau gwleidyddol i'r fath raddau nes fod Keating yn honni eu bod yn dominyddu cymdeithas sifil (2001b: 223).[30] Fel yn y Cymunedau Ymreolaethol eraill, sefydlwyd strwythurau a sefydliadau llywodraeth ranbarthol a ymdebygai i strwythurau llywodraeth Sbaen (Gunther *et al.*, 2004: 296). Un o'r goblygiadau posib, felly, oedd efelychu trefniadau'r wladwriaeth ganolog ac felly'r diffyg ymddiriedaeth yng nghyfranogaeth dinasyddion (Vernet, 2003: 249).

I grynhoi, mae'r ffactorau sy'n egluro natur y cysylltiadau rhwng llywodraeth ranbarthol a chymdeithas sifil yn debyg yng Nghymru a Chatalwnia. Roedd gan fudiadau cymdeithas sifil gyfraniad pwysig i gyfreithloni bodolaeth llywodraeth ranbarthol ac i'r prosiect o adfer cenedl. Gellid hawlio bod ffactorau mwy hir-dymor wedi cael mwy o ddylanwad. Hynny yw, dylanwadwyd gan strwythurau'r llywodraeth ganolog a chryfhawyd goruchafiaeth y pleidiau gwleidyddol yng Nghatalwnia. Yng Nghymru, cyfrannodd yr ymdrech

28 Daw'r data yma gan y Generalitat o'r gofrestr o'r mudiadau sydd wedi'u cofrestru yn ôl y gyfraith. Pasiwyd y ddeddf gyntaf ar gyfer cydnabod a chofrestru mudiadau yn 1964 (Sarasa, 1998b).

29 Cyfweliad Catalwnia 6, 25.10.05.

30 Cyfweliad Catalwnia 5, 24.10.05; Cyfweliad Catalwnia 10, 27.10.05.

ymwybodol i ddatblygu strwythurau amgen i rai llywodraeth San Steffan at hyrwyddo ymwneud mudiadau â'r Cynulliad. Ond, o ystyried y cyd-destun ehangach, gwelir bod gwendid cymdeithas sifil cyn datganoli a goruchafiaeth y Blaid Lafur yn golygu bod tuedd i gadarnhau natur y wleidyddiaeth a fodolai eisoes ac ni welwyd hyd yn hyn gamau breision tuag at hyrwyddo lluosogyddiaeth cymdeithas sifil yng Nghymru.

## Hunaniaeth cymdeithas sifil

Elfen eithriadol o ddiddorol yng nghyd-destun cenhedloedd diwladwriaeth ydi hunaniaeth mudiadau cymdeithas sifil. Un o ganlyniadau mwy annisgwyl a mwyaf arwyddocaol sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol oedd annog addasu o fewn mudiadau a'r effaith ar y rhelyw o gymdeithasau oedd symudiad tuag at fydolwg mwy Cymreig. Nid oes patrwm clir o ran tueddiad bydolwg mudiadau ac nid yw'r addasu wedi bod yn gyson ar draws mudiadau. Yn hytrach, gellir deall y modd mae mudiadau'n eu gweld eu hunain fel safbwyntiau gwahanol ar y sbectrwm Cymreig–Prydeinig, a'u lleoliad yn aml yn dibynnu ar eu sefyllfa cyn datganoli. Ymysg y mudiadau a astudiwyd, roedd yr addasu fwyaf amlwg pan oeddent gynt wedi gweithredu mewn cyd-destun a meddylfryd mwy Prydeinig: hynny yw a chanddynt nodweddion *cymdeithas sifil yng Nghymru* (Paterson a Wyn Jones, 1999: 191–3). Enghraifft yw Oxfam Cymru a ddatblygodd fydolwg mwy Cymreig gan ymrwymo i: 'making a distinctive contribution to the creation of a Wales with a strong sense of civic nationhood that is inclusive, participatory and externally focused' (2001a). Ar un eithaf cymdeithas sifil Cymru, ceir mudiadau lle na fu unrhyw shifft yn eu bydolwg a bron dim ymaddasu ers datganoli. Ar yr eithaf arall, ceir y mudiadau sydd wedi ymaddasu'n gyson ers datganoli a rhai'n meddwl yn yr hir-dymor o ran eu cyfeiriad a chynyddu ymreolaeth o'r cyrff sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Gyfunol. Ym mwyafrif yr achosion, mae mudiadau'n gynyddol weld eu hunain fel mudiad Cymreig ar yr un pryd â pharhau cysylltiad â'r mudiad yn Lloegr. Y rheswm dros hyn yw'r manteision sy'n gysylltiedig ag arbenigedd y canol, eu gallu, eu cefnogaeth ariannol a phwysigrwydd cael llais a dylanwad i bledio'r achos yn San Steffan.

Mae'r arwyddion o addasu a chryfhau bydolwg Cymreig yn niferus gan gynnwys cydnabod fod Cymru'n wahanol, cynyddu ymreolaeth y mudiadau yng Nghymru oddi wrth y lefel Deyrnas Gyfunol, ac ail-strwythuro. Bellach, mae nifer o fudiadau'n gweld y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad fel eu prif darged gwleidyddol. Trafodwyd eisoes arwyddion eraill o'r ymaddasu hwn: ehangu adnoddau, datblygu strwythurau llunio penderfyniadau a pholisi yng Nghymru, a hynny ar gyfer amodau Cymru. Newidiodd nifer o fudiadau eu henwau gan ychwanegu Cymru/Wales i'r enwau a fodolai eisoes. Yn fwy arwyddocaol roedd nifer yn mynegi eu bod yn fudiad 'Cymreig'. Roedd ymdrech mewn nifer o achosion i gael cydnabod y swyddfa yng Nghymru fel swyddfa 'genedlaethol', nid 'rhanbarthol'. Proses oedd y shifft i fydolwg mwy Cymreig i nifer o fudiadau, proses o negydu mwy o ymreolaeth oddi wrth y corff canolog. Fodd bynnag, mae Stonewall Cymru'n dangos nad oedd y shifft yn duedd ar draws cymdeithas sifil. Fe'i sefydlwyd fel rhan o *gymdeithas sifil Gymreig.* Ond, wrth gryfhau'r berthynas â Stonewall oedd yn gweithredu ar draws y Deyrnas Gyfunol, awgrymwyd symudiad tuag at nodweddion *cymdeithas sifil yng Nghymru* (Royles, 2007, 139–41). Erbyn

2007, eglurwyd bod gan Stonewall Cymru nodweddion mudiad Cymreig a mudiad Prydeinig gyda swyddfa yng Nghymru.[31]

Gan fod datganoli'n aeddfetach yng Nghatalwnia a hanes ei chymdeithas sifil yn gyfoethocach, mae'n anodd ceisio asesu effaith uniongyrchol llywodraeth ranbarthol ar fydolwg a hunaniaeth mudiadau. Cododd y casgliadau mwyaf arwyddocaol o ystyried y mudiadau pobl hoyw a lesbiaid. Yn achos Casal Lambda a'r Coordinadora, roeddent yn gweld eu hunain fel mudiad Catalaneg ac nid oedd yr un o'r grwpiau yng Nghatalwnia'n perthyn i'r glymblaid o fudiadau hoyw'n gweithredu ar lefel Sbaen gyfan. Y rheswm a roddwyd oedd y teimladau cenedlaetholgar oddi mewn i'r mudiadau hynny.[32] Roedd Casal Lambda a oedd yn fwy Catalaneg yn chwarae rhan amlwg mewn cynghreiriau o fudiadau Catalaneg/cenedlaetholgar mewn meysydd amrywiol.[33] Roedd hyn yn adlewyrchu tueddiad rhai grwpiau i gysylltu eu hunain â'r frwydr genedlaethol ac annibyniaeth (Vilà, 2000: 274).

Ar draws y mudiadau cafwyd datganiadau clir beth oedd bod yn fudiad 'Catalaneg': gweithio oddi mewn i diriogaeth Catalwnia, ymwybyddiaeth glir o bwysigrwydd iaith a diwylliant Catalwnia, ac ymwneud â'r weinyddiaeth yng Nghatalwnia lawn cymaint ag yn Sbaen. Ymysg nodweddion mwy ffurfiol bod yn fudiad 'Catalaneg' oedd yr elfen gyfreithiol o fod wedi cofrestru gyda'r Generalitat.[34] Mewn rhai achosion lle'r oedd y bydolwg Catalaneg yn gryfach, pwysleisiwyd eu bod hefyd yn gwthio am fwy o hunanlywodraeth i Gatalwnia ac yn teimlo pellter oddi wrth wladwriaeth Sbaen.[35]

Roedd sefyllfa Intermòn yn adleisio rhai enghreifftiau yng Nghymru. Sefydlwyd y corff gwreiddiol fel elusen yng Nghatalwnia yn 1956. Dim ond wedi 1986 y datblygodd ar draws Sbaen nes dod yn un o'r mudiadau datblygu rhyngwladol mwyaf. Yn rhan o'r shifft hwn, lleolwyd rhai adrannau pwysig ym Madrid. Roedd dilema sylfaenol o ran bydolwg y mudiad. Ffactorau a bwysleisiai'r elfen 'Gatalaneg' oedd gwreiddiau'r mudiad yng Nghatalwnia.[36] Ond, yn ymarferol, nid oedd llawer o ymreolaeth i'r gangen yng Nghatalwnia ac roedd Intermòn Oxfam bellach yn gorff Sbaenaidd ac iddo strwythur datganoledig ac a oedd yn aelod o Oxfam International.[37] Llywodraeth Madrid oedd prif ffocws yr ymgyrchu. Er bod cangen Catalwnia'n ymwneud fwyaf â'r Generalitat, nid oeddent yn gweld y Generalitat fel ffocws pwysig ar draws eu holl ymgyrchoedd. Gwelir felly fod mudiadau'n newid o ganlyniad i leoliad y canolbwynt grym a'u prif darged gwleidyddol. Rhaid cofio bod Intermòn Oxfam, fel Oxfam Cymru, yn dilyn agenda ryngwladol. Gall hyn effeithio ar weithgarwch mudiadau ar y lefel ranbarthol a'r lefel wladwriaethol.

---

31 Cyfweliad Cymru 48, 26.7.07.

32 Cyfweliad Catalwnia 17, 8.9.06.

33 Cyfweliad Catalwnia 19, 12.9.06.

34 Cyfweliad Catalwnia 20, 13.9.06.

35 Cyfweliad Catalwnia 16, 8.9.06.

36 Cyfweliad Catalwnia 13, 4.11.05.

37 Cyfweliad Catalwnia 15, 8.9.06; Cyfweliad Catalwnia 24, 14.9.06.

Ar y cyfan, nid yw'n hawdd asesu effaith datganoli ar hunaniaeth a bydolwg cymdeithas sifil yng Nghymru a Chatalwnia. Yn achos Catalwnia, roedd hi'n anos asesu gan fod sefyllfa'r mudiadau yn wahanol i Gymru. Byddai astudio mudiad oedd â chefndir o weithio ar draws Sbaen ac a oedd wedi dechrau gweithredu yng Nghatalwnia ers sefydlu'r Generalitat wedi hwyluso deall y broses addasu yno. Yng Nghymru, fodd bynnag, o ganlyniad i ddatganoli gwleidyddol, cryfhawyd yr ymwneud â'i sefydliadau gwleidyddol gan gryfhau'r bydolwg Cymreig ymysg mudiadau cymdeithas sifil. Roedd hyn yn ddatblygiad annisgwyl a arweiniodd at sefyllfa debycach i'r mudiadau a astudiwyd yng Nghatalwnia. Yno, roedd cymdeithas sifil benodol Gatalaneg yn bodoli a'r canlyniad oedd bod safbwynt mudiadau ar y cwestiwn cenedlaethol yn llawer cliriach. Eto, roedd eithriadau, ond dangoswyd beth bynnag fo hanes y mudiad, bod maes gweithgarwch a'r graddau mae'r pwerau'n gorwedd ar y lefel ranbarthol yn effeithio ar fydolwg mudiadau. Yn ddi-os mae'r cwestiwn cenedlaethol yn dylanwadu ar fydolwg y mudiadau sy'n gweithredu o fewn cenhedloedd diwladwriaeth.

## Casgliadau: Gwersi i Gymru?

Un o'r cysylltiadau allweddol i lywodraeth ranbarthol yw eu cyswllt â mudiadau cymdeithas sifil. Dyma gyswllt sydd nid yn unig yn gallu bwydo'n ymarferol i bolisïau'r llywodraeth, ond yn gallu bod yn greiddiol i hanfod natur diwylliant gwleidyddol ac i gyfeiriad datganoli yn y genedl.

Roedd cymdeithas sifil Gatalaneg yn rhagflaenydd ac yn allweddol i sicrhau llywodraeth ranbarthol. Yng Nghymru datganoli, yn hytrach, oedd y sbardun i hyrwyddo cymdeithas sifil benodol Gymreig. Ni chymerodd y Generalitat gamau tebyg i Gymru o ran cyflwyno strwythurau i hybu cyfraniad cymdeithas sifil tan y llywodraeth deirplaid yn 2003. Er y gwahaniaethau hyn, ymdrechodd llywodraeth ranbarthol Cymru a Chatalwnia i adeiladu cymdeithas sifil o'r brig i'r bôn. Ni ellid gwadu fod derbyn cyllid gan y llywodraeth yn hollbwysig i gynorthwyo mudiadau ond y perygl oedd y gallai arian y llywodraeth waethygu'r anghydraddoldeb rhwng grwpiau. Dyma sefyllfa anodd y tu hwnt i Gymru ac i Gatalwnia. Yng Nghymru, yr awgrym oedd y gallai sefyllfa fregus mudiadau, yn enwedig o dderbyn arian llywodraethol, eu gwneud nhw'n betrus o ran beirniadu'r llywodraeth. Roedd y ddilemma yn ymwneud ag ariannu'r mudiadau i'w gweld gliriaf yng Nghatalwnia. Tra bod tystiolaeth fod grantiau ac ariannu wedi cyfrannu at luosogyddiaeth cymdeithas sifil, dadleua McRoberts mai effaith derbyn arian gan awdurdodau cyhoeddus oedd, 'Catalan civil society is no longer free-standing. Indeed, the Catalan case suggests that this may no longer be possible anywhere today despite the claims of neo-liberal theorists' (2001: 4). Awgrymai'r astudiaethau achos nad oedd cyllid y llywodraeth o reidrwydd yn effeithio ar hyder nac ychwaith yn rhwystro mudiadau rhag bod yn feirniadol o'r llywodraeth. Un rheswm am hyn oedd dosbarthu arian i fudiadau drwy grantiau a phrosiectau yn hytrach na thrwy ariannu craidd. Byddai'n dda gallu awgrymu mai un o'r gwersi i Gymru, felly, fyddai annog ariannu drwy grantiau a phrosiectau yn hytrach nag arian craidd. Ond, mae'n annhebyg y byddai'r amodau hynny'n sicrhau bod mudiadau'n gallu goroesi. Fodd bynnag, gwers glir o'r ymchwil yw bod angen mwy o ymwybyddiaeth a thrafodaeth lawnach o oblygiadau posib arian llywodraeth ranbarthol ar gymdeithas sifil.

Yng Nghymru ac yng Nghatalwnia roedd perthnasau anffurfiol rhwng cymdeithas sifil a'r cyrff datganoledig yn tueddu i fod yn fwy dylanwadol na pherthnasau ffurfiol. Yn y llenyddiaeth ar Gymru, codwyd y goblygiadau negyddol posibl yng nghyswllt twf perthnasau neo-gorfforaethol (Chaney a Fevre, 2001a). Yn achos Catalwnia, tynnwyd sylw at ddiffyg tryloywder a bygythiad y tueddiad tuag at *clienteliaeth*, sef llywodraethu er budd diddordebau cefnogwyr gwleidyddol (Sarasa, 1998a; Keating, 2001a). Bwriad cymalau yn neddf cymdeithasau Catalwnia oedd cynorthwyo i reoli effeithiau negyddol posib perthynas mudiadau penodol â'r llywodraeth. Rhoddid pwyslais ar ddiogelu annibyniaeth ac ymreolaeth mudiadau a gosodwyd canllawiau ac egwyddorion penodol i'w dilyn wrth ddosbarthu grantiau (Generalitat de Catalunya, 1997b: 28). Gellid ystyried deddfwriaeth fel ffordd o geisio rheoli natur perthynas y llywodraeth â chymdeithas sifil yng Nghymru hefyd.

Dadleua Keating fod pwyslais ar rwydweithiau a chysylltiadau personol yn elfen amlwg o natur gwleidyddiaeth yng Nghatalwnia fel yn rhannau eraill deheuol o Ewrop (2001a: 198). Mae casgliadau'r ymchwil hwn yn codi'r cwestiwn a yw anffurfioldeb, pwyslais ar rwydweithiau a chysylltiadau personol yn nodweddion annatod o berthynas llywodraeth ranbarthol â chymdeithas sifil yng nghyd-destun 'llywodraethiant gwledydd bach'. Dyma ddadl eithriadol o ddiddorol sy'n haeddu sylw pellach, yn arbennig yn y cyd-destun Cymreig. Fodd bynnag, boed y fath nodweddion yn anochel ai peidio, y wers yw ceisio sicrhau fod ymdrechion llywodraeth ranbarthol i hyrwyddo ffyniant cymdeithas sifil yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu ymreolaeth mudiadau.

Heb amheuaeth, un o effeithiau datganoli grym i Gymru a Chatalwnia oedd cydnabod potensial cyfraniad cymdeithas sifil i adfer cenedl. Er gwaethaf ei hanes cyfoethog, roedd rhai awduron yn honni fod cymdeithas sifil Catalwnia bellach yn wannach ac yn llai gwleidyddol. Fodd bynnag, roedd lluosogyddiaeth mudiadau cymdeithas sifil yn drawiadol, yn enwedig o'r safbwynt Cymreig. Cydnabuwyd y lluosogyddiaeth hwn gan y Generalitat fel nodwedd yr oedd angen ei diogelu a'i hyrwyddo (Generalitat de Catalunya, 1997b: 6). Yng Nghymru, er bod tystiolaeth o gymdeithas sifil luosog yn dipyn prinnach, un o ganlyniadau uniongyrchol a mwyaf annisgwyl datganoli oedd hyrwyddo bydolwg mwy Cymreig ymysg mudiadau. Yng Nghatalwnia, o ganlyniad i hanes a pharhad cymdeithas sifil ar ffurf 'ranbarthol', roedd hi'n haws i fudiadau gyfrannu at y genedl a'i chynrychioli (Greer, 2007: 20). Fel yr eglura Keating wrth gyfeirio at yr Alban, Quebec a Chatalwnia:

> nation-building has taken place as much within the civil society as in the state. In all three cases, we have seen a reconfiguration of social actors and interests, as well as of politics, on national lines ... In all three, there is a consciousness that the national project, in the contemporary world, cannot be carried by governmental institutions alone but must also be rooted in civil society (2001a: 265).

Roedd astudio Catalwnia yn gwneud deall cyfraniad mudiadau yng Nghymru i adfer y genedl, er gwaethaf cyfyngiadau presennol datganoli, yn fwy eglur. Dyma drawsnewidiad clir o'r sefyllfa ble y bu cymdeithas sifil fwy neu lai'n absennol o'r drafodaeth ar ddatganoli (Paterson a Wyn Jones, 1999: 181). Hawlia Greer mai canlyniad

perthynas llywodraeth ranbarthol â mudiadau rhanbarthol, hyd yn oed mewn achosion lle ceir rhwydwaith o fudiadau tipyn llai gwydn nag achosion Catalawnia a'r Alban, yw bod llywodraeth ranbarthol yn tyfu. Dadleua:

> a lesson of European regionalism is that regional governments can create their own webs of regional organizations ... Regionalization starts for all manner of reasons, but creates strong governments with competencies, power, and flexibility when there are regional organizations that can compel parties to give the regions the powers to guarantee autonomy and stability (Greer, 2007: 187–8).

Yn ddi-os, roedd perthynas cymdeithas sifil â llywodraeth ranbarthol yng Nghymru a Chatalwnia yn adlewyrchu natur diwylliant gwleidyddol ehangach. Yng Nghymru, mae gwendid cymdeithas sifil wedi ei gysylltu â 'monist political culture' (Morgan a Mungham, 2000: 210). Gellir cyfeirio at ddwy agwedd amlwg i'r diwylliant gwleidyddol hwn. Un yw dylanwad model llywodraeth seneddol San Steffan a'i ddiwylliant gwleidyddol mwy elitaidd ar y Cynulliad. Yr ail yw parhad dominyddiaeth un blaid o wleidyddiaeth Cymru. Mae goruchafiaeth y Blaid Lafur ar lefel San Steffan a lefel llywodraeth leol yng Nghymru wedi creu graddau o unbleidiaeth sy'n eithaf unigryw mewn termau rhyngwladol. Cyfeiria Wyn Jones a Scully at rai o nodweddion system wleidyddol a ddominyddir gan un blaid wrth drafod y nodweddion hyn yng Nghymru:

> ones where the most important cleavages occur within the dominant party rather than between parties, and where other political actors are required to provide implicit recognition of this state of affairs, orienting their behaviour around shaping the battles occuring within the dominant political force (2008: 68).

Nid oes yna ymchwil manwl diweddar ar gael i asesu effaith yr unbleidiaeth hon ar ddiwylliant gwleidyddol Cymru. Ond, serch hynny, mae'n amlwg bod goblygiadau i gymdeithas sifil o ran llethu amrywiaeth, lluosogyddiaeth trafodaeth wleidyddol a hefyd, felly, weithgarwch, amlygrwydd a rôl wleidyddol cymdeithas sifil. Mae casgliad Wyn Jones a Scully yn cyd-fynd â chasgliadau'r ymchwil hwn: 'There remains some distance still to be travelled before a mature and pluralistic democracy may be said to exist in Wales' (2008: 68).

Mae'r gwrthgyferbyniad â diwylliant gwleidyddol Catalwnia'n drawiadol gan nad oes yr un blaid wedi bod yn ddominyddol yno. I'r gwrthwyneb, tan 2003 y tueddiad oedd bod y prif bleidiau'n gwneud yn well mewn etholiadau i lefelau gwahanol o lywodraeth, yn blaid lywodraethol ar un lefel ac yn wrthblaid ar lefel arall o lywodraeth (Balcells, 1996: 183). Effaith hyn yw diwylliant gwleidyddol mwy lluosog, gan gynnwys gwleidyddiaeth aml-bleidiol, a hynny ar wahanol lefelau o lywodraeth. Rhaid cydnabod fod y pwyslais ar gryfhau'r pleidiau gwleidyddol yn ystod y trawsnewidiad (y gellid ei ddeall fel dylanwad gwleidyddiaeth y wladwriaeth) a llywodraethu hir CiU wedi effeithio ar nifer o fudiadau. Ond, ar y cyfan, gall y cyd-destun diwylliant gwleidyddol ehangach annog datblygiad cymdeithas sifil fwy lluosog ac amrywiol. Yng Nghymru, awgrym canlyniadau'r etholiadau i'r Cynulliad o 1999 hyd 2007 yw bod datganoli'n graddol wanhau'r

unbleidiaeth sydd wedi nodweddu gwleidyddiaeth Cymru cyhyd (Wyn Jones a Scully, 2008: 84). Gallai hyn arwain at greu gwleidyddiaeth fwy lluosog yng Nghymru a allai yn ei dro effeithio ar gymdeithas sifil a'i hymwneud â llywodraeth ranbarthol.

Yn olaf, mae ymchwilio i effaith llywodraeth ranbarthol ar y berthynas rhwng cymdeithas sifil a llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a Chatalwnia wedi tynnu sylw at allu'r lefel ranbarthol fel lleoliad ar gyfer dyfeisgarwch yn y broses o hyrwyddo cyfranogi yn y broses ddemocrataidd. O bersbectif y cyfnod cyn datganoli, mae graddau'r dyfeisgarwch a'r canlyniadau yn ystod dau dymor cyntaf datganoli o ran mewnbwn cymdeithas sifil i waith llywodraeth ranbarthol yng Nghymru yn sylweddol. Serch hynny, er gwaetha'r camau hyn, mae'r ymchwil wedi dangos bod datblygiadau Catalwnia'n berthnasol i Gymru. Y Generalitat oedd y llywodraeth gyntaf yn Sbaen i sefydlu adran benodol i hybu cyfranogaeth dinasyddion gan greu, drwy hynny, oblygiadau amlwg i gymdeithas sifil. Mae'r hinsawdd hwn wedi annog ailystyried cyfranogaeth oddi mewn i'r pleidiau gwleidyddol ac mewn etholiadau hefyd (Font, 2005). Manylwyd ar y dulliau a'r strwythurau sydd wedi eu datblygu yng Nghatalwnia i roi'r syniad o ddemocratiaeth gydgynghorol ar waith. Mae gwersi i'w dysgu yma yng Nghymru o ran datblygu ymhellach strwythurau cyfranogi Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol. Ond, er y gydnabyddiaeth gynyddol o rôl cymdeithas sifil, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i effaith ac amcan cyfranogi o ran meithrin cymdeithas sifil a natur y gymdeithas sifil honno.

I gloi, her fawr i'r ddwy ddemocratiaeth ifanc sydd wedi profi newid cyfansoddiadol er 2006 yw datblygu'r berthynas rhwng sefydliadau datganoledig a chymdeithas sifil mewn modd sy'n ymwybodol o'r goblygiadau i ymreolaeth cymdeithas sifil. Dyma gam allweddol er mwyn sicrhau diwylliant gwleidyddol democrataidd cadarn yng nghyd-destun llywodraeth ranbarthol, cam a fydd yn ei dro yn effeithio ar gyfeiriad datganoli.

## Cydnabyddiaeth

Diolch i Richard Wyn Jones am ei sylwadau ar ddrafft blaenorol o'r casgliadau ymchwil hyn a diolch i'r arfarnwyr anhysbys am eu sylwadau. Diolch i'r holl rai a gytunodd i gael eu cyf-weld yng Nghymru ac yng Nghatalwnia: heb hynny ni fyddai'r ymchwil yn bosibl. Mae pob camgymeriad neu wall yn gyfrifoldeb yr awdur.

## Llyfryddiaeth

Alexander, J. C. (1993), 'The Return to Civil Society', *Contemporary Sociology* (Cyf. 22, Rhif 6) 797–803.

Argelaguet, J. (2006), 'Subjective National Identities in Catalonia', *Nationalism and Ethnic Politics* (Cyf. 12, Rhif 3) 431–54.

Balcells, A., Walker, G. J. (goln.) (1996), *Catalan Nationalism: Past and Present* (Basingstoke: Macmillan).

Baras, M., Matas Dalmases, J. M. (1998a), 'El Sistema Electoral i Les Eleccions a Catalunya', yn M. Caminal Badia a J. Matas Dalmases (goln.), *El Sistema Politics de Catalunya* (Madrid: Tecnos).

Baras, M., Matas Dalmases, J. M. (1998b), 'Els Partits Politics i el Sistema de Partits' yn M. Caminal Badia and J. Matas Dalmases (goln.), *El Sistema Politics de Catalunya* (Madrid: Tecnos).

Calhoun, (1995), *Critical Social Theory* (Oxford: Blackwell Publishers).

Chaney, P. (2002a), *Social Capital and the Participation of Marginalized Groups in Government: A study of the Statutory Partnership between the Third Sector and Devolved Government in Wales* (Paper prepared for the Fifth ISTR International Conference, Cape Town, South Africa, July 2002).

Chaney, P. (2002b), 'Social Capital and the Participation of Marginalized Groups in Government: A Study of the Statutory Partnership Between the Third Sector and Devolved Government in Wales', *Public Policy and Administration* (Cyf. 17, Rhif. 4) 20–38.

Chaney, P. (2009), *Cyfle Cyfartal a Hawliau Dynol: Degawd Cyntaf Datganoli yng Nghymru. Adroddiad a Gomisiynwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*

www.wales.gov.uk/docs/awc/publications/090630equalityhumanrepcy.doc (Cyrchwyd 11.11.09)

Chaney, P., Fevre, R. (2001a), 'Ron Davies and the Cultivation of "Inclusiveness": Devolution and Participation in Wales', *Contemporary Wales* (Cyf. 14) 21–50.

Chaney, P., Fevre. R. (2001b), 'Welsh Nationalism and the challenge of 'Inclusive Politics', *Political Opportunities, Social Movements, and Democratization* (Cyf. 23) 227–54.

Chaney, P., Hall, T., Dicks, B. (2000). 'Inclusive Governance? The case of "Minority" and Voluntary Sector Groups and the National Assembly for Wales', *Contemporary Wales* (Cyf. 13) 203–30.

Cohen, J. L., Arato, A. (1999), *Civil Society and Political Theory* (Massachusetts: MIT Press).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2007), *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru* (Hawlfraint y Goron).

Davies, J. (1994), *A History of Wales* (Llundain: Penguin Books).

Davies, Ron (1999), *Devolution: Process Not an Event* (Sefydliad Materion Cymreig, Papurau Gregynog , Cyfrol 2 (2)).

Direcció General de Participació Ciutadana (2005a), 'Participació i nou Estatut', *Activitat Parlamentària* (Rhif 7, Ionawr 2005) 34–52.

Direcció General de Participació Ciutadana (2005b), *Participation and New Statute of Autonomy for Catalonia*. Papur heb ei gyhoeddi.

Direcció General de Participació Ciutadana (2006a), 'Incorporar la Ciutadania en la Política Autonòmica', *Innovació Democràtica* (Rhif 1, Mawrth 2006) 7–16.

Direcció General de Participació Ciutadana (2006b), 'Procesos de Debat i Deliberació',

*Innovació Democràtica* (Rhif 1, Mawrth 2006) 17–24.

Direcció General de Participació Ciutadana (2006c), 'Espais Estables de Participació', *Innovació Democràtica* (Rhif 1, Mawrth 2006) 25–32.

Edwards, S. (1999), 'Reconstructing the Nation: The Process of Establishing Catalan Autonomy', *Parliamentary Affairs* (Cyf. 52) 666–76.

Elis-Thomas, D. (2009), *Cyfansoddiad Newydd Cymru – y Ddwy Flynedd Gyntaf* Darlith Cymdeithas y Cyfreithwyr, Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau 2009.

Fishkin, J., Laslett, P. (goln.) (2003), *Debating Deliberative Democracy* (Oxford: Blackwell).

Foley, M. W., Edwards, B. (1996), 'The Paradox of Civil Society', *Journal of Democracy* (Cyf. 7, Rhif 3) 38–52.

Font, J. (gol.) (2005), *La política i la participació: polítics, partits i eleccions* Polítiques 49 (Barcelona : Fundació Jaume Boffil).

Font, J., Blanco, I. (2003), 'Organs de participació ciutadana i associativa de la Generalitat de Catalunya: anàlisi i propostes' yn Fernández, A., Muñoz, X., Sisternas, X. (goln.), *Informe Pi i Sunyer sobre l'Administració de la Generalitat de Catalunya* (Barcelona: Fundació Carles Pi i Sunyer d'estudis autonomics i socials).

Generalitat de Catalunya, cyfieithiad John Beattie (1997a), *The Catalan Statute of Autonomy*, Guardens Legislació Temàtica (Catalunya: Generalitat de Catalunya).

Generalitat de Catalunya (1997b), *Llei 7/1997, de 18 de juny d'Associacions* Guardens de Legislació 9 (Catalunya: Generalitat de Catalunya).

Generalitat de Catalunya (2009a), *The normalisation of democracy and the autonomous regions, 1980–2003.*

*www.gencat.cat/generalitat/eng/guia/antecedents/antecedents19.htm* (Cyrchwyd 12.1.09)

Generalitat de Catalunya (2009b), *Statute of Autonomy of Catalonia*

www.gencat.cat/generalitat/eng/estatut/titol_1.htm (Cyrchwyd 10.11.09)

Giddens, A. (1998), *The Third Way: The Renewal of Social Democracy* (Cambridge: Polity Press).

Giddens, A. (2000), *The Third Way and its Critics* (Cambridge: Polity Press).

Giner, S. (1980), *The Social Structure of Catalonia* (Sheffield: Anglo-Catalan Society).

Giner, S. (2001), 'Catalonia: The Tradition of Modernity', *Scottish Affairs: Stateless Nations in the 21st Century* (Rhifyn Arbennig) 166–80.

Greer, S. L. (2006). *Demanding Only Autonomy: Catalonia in the Spanish Democratic*

*Transition*, Papur heb ei gyhoeddi, ar gael o: *http://deepblue.lib.umich.edu/index.jsp*

Greer, S. L. (2007), *Nationalism and self-government: the politics of autonomy in Scotland and Catalonia* (Albany: State University of New York Press).

Guibernau, M. (1999), *Nations without states: political communities in a global age* (Cambridge: Blackwell Publishers).

Guibernau, M. (2001), 'Catalonia After 20 Years of Autonomy', *Scottish Affairs: Stateless Nations in the 21st Century* (Rhifyn Arbennig) 137–50.

Gunther, R., Montero, J. R., Botella, J. (2004), *Democracy in Modern Spain* (London: Yale University Press).

Hain, P. (1999), *A Welsh Third Way*, Tribune Pamphlet (London: Tribune Publication).

Heywood, P. (2000), 'Spanish Regionalism: A Case Study', yn Smith, A. a Heywood, P., *Regional Government in France & Spain* (London: Constitution Unit).

Intermòn Oxfam (2006), *50 anys d'Intermòn Oxfam,*

www.intermonoxfam.org/page.asp?id=2008&idioma=2 (Cyrchwyd 29.10.06)

Keating (1997), 'Stateless nation-building: Quebec, Catalonia and Scotland in the changing state system', *Nations and Nationalism* (Cyfrol. 3, Rhif 4) 689–717.

Keating, M (2001a), *Nations Against The State: The New Politics Of Nationalsim In Quebec, Catalonia and Scotland* (Basingstoke: Palgrave).

Keating, M. (2001b), *Plurinational Democracy: Stateless Nations in a Post-Sovereingty Era* (Oxford: OUP).

Llywodraeth y Cynulliad (2004a), *Adroddiad Comisiwn Richard: Comisiwn ar bwerau a threfniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru* (Caerdydd: The Stationery Office).

Llywodraeth y Cynulliad (2004b), *Independent Commission to Review the Voluntary Sector Scheme – Final Report,*

www.new.wales.gov.uk/docrepos/40382/sjr/voluntary/reviewreport?lang=en (Cyrchwyd 19.9.06)

Llywodraeth y Cynulliad (2006). *Cyllideb Derfynol 2006,*

www.new.wales.gov.uk/about/finance/assemblybudgets/previousbudgetindex/2006finalbudget/?lang=cy (Cyrchwyd 13.11.08)

MacInnes, J. (2001), 'Dual National Identity in Scotland and Catalonia', *Scottish Affairs: Stateless Nations in the 21st Century* (Cyfrol Arbennig) 104–21.

McAllister, I. (1980), 'The Labour Party in Wales: The Dynamics of one-partyism', *Llafur* (Cyfrol. 3, Rhif. 1) 79–89.

McRoberts, K. (2001), *Catalonia: Nation Building Without a State* (Oxford: Oxford University Press).

Morgan, K. O. (2002), *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen).

Morgan, K., Mungham, G. (2000), *Redesigning Democracy: The Making of the Welsh Assembly* (Penybont: Seren).

Nagel, J. (2001), 'Catalan Nation-Building and the Transition to Democracy in Spain', *Scottish Affairs: Stateless Nations in the 21st Century* (Cyfrol Arbennig) 122–36.

Oxfam Cymru (2001), *Oxfam Cymru Vision* (dim cyhoeddwr).

Paterson, L., Wyn Jones, R. (1999), 'Does civil society drive constitutional change?' yn B., Taylor, K., Thomson (goln.), *Scotland and Wales: Nations Again?* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Pagès i Rejsek, J. (2005), 'Les Competències de la Generalitat', yn *L'autonomia política de Catalunya: Orígens, competències i organització de la Generaliat* (Barcelona: Generalitat de Catalunya).

Putnam, R. D. (2000), *Bowling Alone: The Collapse and Revival of American Community* (Llundain: Simon & Schuster).

Rawlings, R. (2005), 'Hastening slowly: the next phase of Welsh devolution', *Public Law* 824–52.

Royles, E. (2007), *Revitalising Democracy? Devolution and Civil society in Post-devolution Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Sarasa, S. (1998a), 'Prefaci: la societat civil catalana', yn Giner, S. (gol.), *La societat catalana* (Barcelona: Institut d'Estadística de Catalunya).

Sarasa, S. (1998b), 'Associacionisme, movements social i participació cívica', yn Giner, S. (gol.), *La societat catalana* (Barcelona: Institut d'Estadística de Catalunya).

Schmitter, P. C. (1979), 'Still the Century of Corporatism?', yn P. C. Schmitter, G. Lembruch (goln.), *Trends Towards Corporatist Intermediation* (London: Sage).

Sherlock, A. (2000), 'Born free, but everywhere in chains? A legal analysis of the first year of the National Assembly for Wales', *Cambrian Law Review* (Cyfrol. 13) 61–7.

Subirats, J. (2005), 'Multi-level Governance and Multi-level Discontent: The Triumph and Tensions of the Spanish Model', yn S. L. Greer (gol.),*Territory, Democracy and Justice* (Basingstoke: Palgrave Macmillan).

Swyddfa Gymreig (1997), *Papur Gwyn: Llais Dros Gymru – Cynigion y Llywodraeth ar gyfer Cynulliad Cymreig* (DG: Llyfrfa ei Mawrhydi).

Trench, A. (2006), 'The Government of Wales Act 2006: the next steps in devolution for Wales', *Public Law*, 4 (gaeaf), 687–96.

Vernet i Llobet, J. (2003), *Estudis sobre l'autogovern de Catalunya* (Barcelona: Publicacions del Parlament de Catalunya).

Vilà, A. A. (1998), 'Els Moviments Socials a Catalunya', yn M. Caminal Badia and J. Matas Dalmases (goln.), *El Sistema Politics de Catalunya* (Madrid: Tecnos).

Vilà, E. (2000), 'Moviment gai i lèsbic', yn A. Mirabet i Mullol (gol.), *Homosexualitat a l'inìci del segle XXI* (Barcelona: Claret).

Watkin, T. G. (2007), *The Legal History of Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Whitehead, L. (1997), 'Bowling in the Bronx: The Uncivil Interstices between Civil and Political Society', yn R. Fine a S. Rai (goln.), *Civil Society: Democratic Perspectives* (Llundain: Frank Cass).

Williamson, D. (2009), 'Legislative logjam knocks cycle scheme off track', *Western Mail* (21 Ionawr 2009).

Wilson, F. L. (1990), 'Neo-corporatism and the Rise of New Social Movements', yn R. J. Dalton a M. Kuechler (goln.), *Challenging the Political Order: New Social and Political Movements in Western Democracies* (Cambridge: Polity Press).

Wyn Jones, R., Lewis, B. (1998), *The Wales Labour Party and Welsh Civil Society: Aspects of the Constitutional Debate in Wales,*

www.aber.ac.uk/~iwpwww/ (Cyrchwyd 25.05.99)

Wyn Jones, R., Scully, R. (2008), 'Welsh Devolution: The End of the Beginning and the Beginning of...?' yn A. Trench (gol.), *The State of the Nations 2008* (Exeter: Imprint Academic).

Leila Salisbury

# Golwg ar ganeuon serch Iolo Morganwg, gyda sylw arbennig i'r 'Ferch o'r Scerr'

Rhif 5 Ionawr 2010 • ISSN 1741-4261
Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# Golwg ar ganeuon serch Iolo Morganwg, gyda sylw arbennig i'r 'Ferch o'r Scerr'

## Leila Salisbury

Ar drothwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, rhwng 1795 a 1806, bu Iolo Morganwg, casglwr alawon gwerin cyntaf Cymru, wrthi'n ddyfal yn cywain cyfoeth y diwylliant gwerin Cymreig ym Mro Morgannwg.[1] Bu wrthi'n croniclo, nid yn unig yr alawon a'r geiriau, ond hefyd fanylion am y cyd-destun cymdeithasol ehangach a fu'n gefndir ac yn gynhaliaeth iddynt. Yr oedd hen arferion a thraddodiadau brodorol bellach yn cael eu hystyried yn bynciau eithriadol o bwysig ym meddylfryd y cerddor, y llenor a'r bardd rhamantaidd. Casglu oedd chwiw'r cyfnod.

Yng ngeiriau G. J. Williams:

> Bardd rhamantaidd oedd Iolo ... Cyffroid ef gan arferion, defodau, hen goelion, yr un cyffro ag a gaffai beirdd rhamantaidd y ganrif ddiwethaf ... nid yn unig hynny, ymddiddorai hefyd yng ngorffennol crefftau'r werin, yn nysg y werin. Casglai ddywediadau, diarhebion, a chof llafar y werin honno.[2]

Eglura D. Gwenallt Jones sut oedd gweithgarwch Iolo, yn hyn o beth, yn cyd-fynd â holl ymdeimlad ehangach y cyfnod, mewn perthynas â gweithgarwch unigolion blaenllaw eraill yr oes:

> Darganfyddiad mwyaf y ddeunawfed ganrif oedd darganfod gorffennol llenyddiaeth Cymru ... rhyfeddod a gorfoledd i feirdd ac ysgolheigion y ddeunawfed ganrif oedd gweled bod gan Gymru hen hanes a hen farddoniaeth. Gwelir y syndod a'r llawenydd hwnnw yn llythyrau'r Morisiaid, llythyrau Goronwy Owen a llythyrau Ieuan Brydydd Hir.[3]

Gwelir y syndod a'r llawenydd hwnnw hefyd yn llythyron a llawysgrifau Iolo Morganwg.

Ceir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ddwy ar bymtheg o lawysgrifau gwahanol sy'n cynnwys alawon gwerin a gofnodwyd gan Iolo Morganwg ar drothwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y maent yn amrywio'n fawr o ran maint a chynnwys; er enghraifft, ceir rhai ohonynt ymysg llythyron at ei gyfeillion yn Llundain (e.e. 'Cainc y Cathreiwr' a 'Haw, haw, Brithi i'r Buarth' NLW 13221E, t. 92–3), eraill ymysg traethodau a sylwadau ar gerddoriaeth a chwaraeon Cymru'r cyfnod (e.e. '(hen gywydd deuair)' NLW 13131A, t. 463 a 'Brigant, neu chware'r Brigant' NLW 13146A, t. 450–52), a rhai alawon

---

1. Daniel Huws, 'Iolo Morganwg and Traditional Music' yn Geraint H. Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg*, (Cardiff, 2005), t. 333.
2. G. J. Williams, *Edward Lhuyd ac Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1964), t. 19.
3. D. Gwenallt Jones, *Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 1943), t. ix.

wedi'u gosod yn arbennig ar wahân ar bapur erwydd (e.e. 'Y Pannwr' a 'Hwp y diri dando' NLW IAW 145). Treian o'r alawon yn unig sydd â geiriau yn perthyn iddynt, a'r rheini wedi eu gosod, naill ai fel rhan anhepgorol o'r gân, megis islaw'r nodiant, neu fel cerdd annibynnol ar wahân, ond sy'n dwyn yr un teitl. Y ddwy brif ffynhonnell sy'n cynnwys y mwyafrif o'r alawon a gofnodwyd gan Iolo yw NLW IAW 145 ac NLW 13146A.

Gellir cymharu cyfraniad Iolo i fyd llenyddol a hanesyddol Cymru'r ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ochr yn ochr â'i gyfraniad i fyd cerddoriaeth draddodiadol Cymru, ac mae'n amlwg mai casglu deunydd, ei gofnodi a'i osod yn ei gyd-destun ehangach oedd ei wir arbenigedd. Fodd bynnag, nid yr un amcan oedd yn gyrru Iolo i dadogi cerddi caeth ar Dafydd ap Gwilym a cherddi rhydd ar Rhys Goch ap Rhiccert â'r hyn oedd yn ei ysgogi i gofnodi alawon gwerin ei gynefin. Dwyn canu'r gorffennol i olau dydd oedd ei fwriad ac roedd hyn yn rhan o feddylfryd rhamantaidd y cyfnod, fel yr esbonia D. Gwenallt Jones isod:

> Yn wahanol i feirdd clasurol Lloegr a Ffrainc, nid yn ôl at feirdd Groeg a Rhufain yr aeth beirdd clasurol Cymru am safonau a phatrymau, ond yn ôl at feirdd ei gorffennol hi ei hun. Credai beirdd Cymru yn y ddeunawfed ganrif fod beirdd eu gwlad hwy yn well na beirdd Groeg a Rhufain.[4]

Yng ngoleuni'r dystiolaeth uchod, gellir honni mai swyddogaeth Iolo, yng nghyd-destun traddodiad barddol Cymru'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, oedd efelychu 'safonau a phatrymau' beirdd o'r gorffennol, a'u priodoli i feirdd ei gyfnod ef.

Honna P. J. Donovan mai bwriad Iolo, wrth efelychu'r cerddi, oedd '(c)*reu* traddodiad, creu gorffennol ... gwych'.[5] Fodd bynnag, dadlau i'r gwrthwyneb a wna Geraint Jenkins:

> He wrote, read and copied ceaselessly in a bid 'to bring long hidden truths to light'.[6]

Dal gafael ar drysorau'r gorffennol, a'u gosod ar gof a chadw oedd ei ymgais wrth gywain cyfoeth y diwylliant gwerin Cymreig, yn hytrach na'u hefelychu a'u dynwared. Wrth graffu ar yr alawon gwerin a gasglodd Iolo ni cheir tystiolaeth iddo fyth eu ffugio, ac o sylwi ar natur amatur ei nodiant gellir honni nad oedd ganddo'r crebwyll cerddorol i'w ffugio ychwaith. Fel y dywed Meredydd Evans:

> (Mae) cerddoriaeth yn dod o'r bywyd, dyna lle mae diddordeb Iolo.[7]

Nid cerddor wrth reddf mohono ond, yn hytrach, hynafiaethydd oedd yn effro i arferion a thraddodiadau brodorol ei gynefin, ac roedd yn perthyn yn uniongyrchol i'r bywyd

---

4 D. Gwenallt Jones, *Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif: Detholiad o Farddoniaeth Glasurol y Ganrif* (Caerdydd, 1947), t. xxiv.

5 P. J. Donovan (gol.), *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1980), t. xi.

6 Geraint H. Jenkins, *Facts, Fantasy and Fiction: The Historical Vision of Iolo Morganwg* (Aberystwyth, 1997), t. 3.

7 Cyfweliad â Meredydd Evans a Phyllis Kinney (Cwmystwyth, Aberystwyth), dyddiedig 30/10/2006.

hwnnw, i'r taplasau, y twmpathau dawns a'r gwyliau mabsant. Ni chafodd Iolo fyth ei drwytho yn nhraddodiad cerddoriaeth werin Cymru, o gymharu â'r modd y cafodd ei drwytho yn nhraddodiad llenyddol a barddol Cymru'r gorffennol, yn ogystal â Chymru ei gyfnod ef ei hun. Gellir honni bod Iolo, o safbwynt traddodiad barddol a llenyddol Morgannwg ei ddydd, yn fardd ac yn ffugiwr ond, o safbwynt ei waith ym myd cerddoriaeth draddodiadol Cymru, yn ddi-os, casglwr ydoedd.

Daeth holl rym y Diwygiad Methodistaidd â deffroad newydd i ganu crefyddol Cymru'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelwyd yr emyn yn chwarae rhan annatod yng ngoblygiadau'r Diwygiad, a maes o law daeth yn arf pwerus ar ran yr achos. Fel yr atega E. G. Millward:

> Arf angenrheidiol yn y frwydr dyngedfennol honno oedd yr emynau diwygiadol; cyfrwng i ddod â'r gwrandäwr i fwlch yr argyhoeddiad.[8]

Yn sgil dyfodiad y Diwygiad i Gymru tua 1735 gwelwyd newid syfrdanol yn hanes traddodiad gwerin Cymru'r oes. Diwygiwyd yr arferion, y dathliadau a'r gweithgarwch a gysylltid ag adegau arbennig o'r flwyddyn gymaint nes peri iddynt golli eu hunaniaeth fel rhan o draddodiad gwerin y wlad. O ganlyniad, dirywiodd arferion megis canu carolau haf a charolau'r Nadolig, dathliadau Calan Mai, canu gorchest a chanu gwasael, hyd nes iddynt gael eu diarddel a'u gwrthod yn answyddogol gan y gymdeithas a diflannodd nifer fawr ohonynt i ddifancoll llwyr. Disodlwyd y crwth a'r delyn unrhes, a oedd yn cyfeilio i'r hen benillion yn y cyfnod cyn y Diwygiad, gan y ffidil a'r delyn deires newydd Eidalaidd.[9] Erbyn degawdau clo'r ddeunawfed ganrif, daeth y crythorion prin a oedd ar wasgar yng Nghymru felly i gynrychioli hen arfer a oedd yn graddol ddiflannu o'r tir. Ceir tystiolaeth gan Edward Jones 'Bardd y Brenin' o gryfder traddodiad canu penillion yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif:

> The natives are so enamoured with them (penillion telyn) as to be constantly chanting them whenever they meet with a Harp, or a Crwth.[10]

Fel yr awgryma'r enw, y delyn oedd prif offeryn cyfeilio'r penillion telyn. Fodd bynnag, noda Cass Meurig, y 'ceir ambell gyfeiriad uniongyrchol at ddefnyddio ffidil yng nghyddestun canu penillion'.[11] Yn ogystal, enillodd y ffidil ei lle fel cyfrwng cyfeiliant i faledi'r oes, gan lwyr ddisodli'r crwth o ganlyniad i hynny.

Cyfnod o newid cyfeiriad oedd hanner olaf y ddeunawfed ganrif – newid cyfeiriad o safbwynt cymdeithasol, ym meddylfryd a syniadaeth y bobl, yn ogystal â newid cyfeiriad ar lefel ysbrydol a chrefyddol, gyda'r emyn yn ennill ei droedle fel cyfrwng cenhadol effeithiol, yn enwedig yng ngweithiau Williams Pantycelyn ac eraill. Fodd bynnag,

---

8 E. G. Millward (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif* (Llandybïe, 1991), t. 19.

9 Cass Meurig, 'Canu i Gyfeiliant Ffidil yng Nghymru'r Ddeunawfed Ganrif', *Canu Gwerin*, Cyf. 24 (2001), 20.

10 Ibid., 21.

11 Ibid., 22.

ochr yn ochr â'r canu crefyddol hwn cydfodolai gweithiau beirdd y canu rhydd, sef y penillion telyn a oedd, i bob pwrpas, yn 'perthyn i'r byd cyn-fethodistaidd, os nad cyn-gristionogol'.[12] Dywed Thomas Parry:

> Yr oedd llawer o nodweddion y gymdeithas wir Gymreig yn aros yn y ddeunawfed ganrif.[13]

Tystia hyn i'r ffaith mai annoeth fyddai honni y gwelwyd tranc pob agwedd o'r traddodiad gwerin yng Nghymru yn sgil diwygiadau'r oes.

Ceir cofnod o amryw faledi a chaneuon serch y cyfnod ymhlith casgliad Iolo Morganwg o alawon Bro Morgannwg y ddeunawfed ganrif,[14] megis '*Nutbrown maid* (Etifeddes y Coety)',[15] 'Y mwya' gar fy nghalon',[16] 'Y Ferch o'r Scerr. Tho.[s] Evans Delynwr ai cant'[17] ac 'Y feindwf fun'.[18] Dyna brawf pellach o natur boblogaidd y canu rhydd, er gwaetha'r ffaith mai dirmygu'r cyfrwng hwnnw a wnâi beirdd y canu caeth – rhai megis Goronwy Owen (1723–69), Ieuan Fardd (1731–88) a Morrisiaid Môn, a hynny gyda chryn afiaith. Er ceid rhai eithriadau hefyd, megis Edward Richard (1714–77) a bontiai'r canu caeth a'r canu rhydd:

> Gwelodd Goronwy Owen fod iaith y canu rhydd yn iaith sathredig, a bod iaith hyd yn oed y canu caeth yn yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif yn o sathredig, ac yn llawn o eiriau llanw ... ond ni chytunai Edward Richard â dwyn yr hen eiriau i mewn; gwell oedd ganddo ef iaith fyw y carolau a'r dyrïau.[19]

'Mân-glyttwyr Dyriau[20]... sydd hyd Gymru yn gwybetta'[21] yw'r disgrifiad a rydd Goronwy Owen ohonynt ym 1752, a galwai William Wynn hwynt yn '*bumkins*'.[22] Er hynny, ceir deuoliaeth rhwng beirdd y canu caeth a beirdd y canu rhydd, sydd i raddau yn adlewyrchu sgil effeithiau'r newidiadau cymdeithasol a ddaeth i rym yn ystod degawdau cynnar y Diwygiad. Er enghraifft, lluniodd Goronwy Owen gyfieithiad ar fesur salm, 'a

---

12 Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 18.

13 Thomas Parry, *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 1986), t. 139.

14 Er mai 'casgliad' yw'r term a ddefnyddir, nid casgliad yng ngwir ystyr y gair yw'r toreth o alawon gwerin a gofnodwyd gan Iolo. Mae'r alawon ar wasgar mewn casgliadau llawysgrifol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

15 NLW IAW 145, f.17.

16 Ibid., f.11.

17 Ibid., f.9.

18 NLW 21423E, rhif 13.

19 Jones, *Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif: Detholiad o Farddoniaeth Glasurol y Ganrif*, t. xix.

20 Dyriau = 'dyri, dyrif ... cerdd ar fesur rhydd wedi ei hacennu'n rheolaidd ac iddi weithiau gyffyrddiadau cynganeddol, baled, telyneg, pennill, cathl.' Gw. R. J. Thomas, Gareth A. Bevan, P. J. Donovan (gol.), *Geiriadur Prifysgol Cymru*, Arg. Cyntaf, Cyfrol I (Caerdydd, 1968–87), t. 1146. Yn ogystal â hyn, defnyddiai Lewis Morris a'i ddau frawd 'y term "dyrif" yn aml i enllibio'r prydyddion poblogaidd a ganai ar fesurau rhydd.' Gw. Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 15.

21 Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 15.

22 Ibid.

barchuswyd gan hen arfer ac a oedd, felly, yn gynsail dderbyniol'.[23] Hefyd, rhaid mai cellwair yr oedd William Wynn wrth ddefnyddio'r term '*bumkins*', gan iddo yntau lunio cerddi yn null y beirdd gwerinol, megis carolau plygain.[24] Yn ogystal â hyn, ceid casgliad pur helaeth ym meddiant Morrisiaid Môn o gerddi a cheinciau y gellir eu hystyried yn faledi ac yn hen benillion, a gellir honni i'r mab hynaf, Lewis, a ymddiddorai mewn canu penillion, gynnal yr arfer o ganu gwasael yn eu bro enedigol ym Mhentre-eiriannell, Sir Fôn, drwy lunio pum cân wasael.[25] Eglura E. G. Millward y berthynas gymhleth a fodolai rhwng beirdd y naill draddodiad a'r llall:

> Ymagweddu fel newydd-glasurwyr elitaidd ac etifeddion hen draddodiad y canu caeth yr oedd y beirdd hyn wrth gollfarnu dulliau'r beirdd gwerinol. Yn ymarferol, yr oedd y dulliau hynny'n rhan bwysig o'u harfogaeth farddonol ... pan oedd y traddodiad barddol yn tynnu ei draed ato yn yr unfed ganrif ar bymtheg fe welir y canu rhydd – a fuasai'n cydoesi, mae'n rhaid, â'r canu caeth – yn dechrau dod i'r golwg yn y llawysgrifau.[26]

Mewn gwirionedd, yn dilyn y dirywiad a welwyd yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg o safbwynt boneddigion yn ymwrthod â noddi beirdd, fe orfodwyd y beirdd i ymgymryd â chyfrwng 'llai caethiwus, sef mesurau a oedd yn seiliedig ar alawon cerddorol. Enillodd y canu carolaidd, fel y'i gelwid, ei blwyf, ac nid oes amheuaeth nad dyma ganu poblogaidd y ddeunawfed ganrif'.[27]

Gwŷr megis Huw Morys (1622–1709)[28] a Twm o'r Nant (1739–1810),[29] yn ogystal â Iolo Morganwg, oedd yn arddel y cyfrwng poblogaidd hwn ac yn arbrofi â dulliau newydd y canu rhydd, er enghraifft, y cerddi acennog, neu'r 'canu 'cyfacen' fel y gelwid ef gan Iolo'.[30] Term arall a ddefnyddir i ddisgrifio'r math newydd hwn o ganu, a oedd yn rhydd o unrhyw fesurau gosod, a lle yr oedd mydryddiaeth y llinell yn gwbl ddibynnol ar y gainc, oedd 'y canu caeth newydd'.[31] Mae Thomas Parry, E. G. Millward, Brinley Rees a Cass

---

23 Ibid.

24 Ibid.

25 Gw. T. H. Parry-Williams (gol.), *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (Caerdydd, 1931), ac erthygl Mari Elin Jones, 'Gwaith Prydydd da'i Awenydd ... : Cerddi Gwasael a Phenillion Telyn Lewis Morris', *Canu Gwerin*, Cyf. 26 (2003), 5.

26 Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 16.

27 A. Cynfael Lake (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Ganu Caeth y Ddeunawfed Ganrif* (Llandybïe, 1993), t. xii–xiii.

28 Huw Morys (1622–1709) a elwid hefyd yn 'Eos Ceiriog'. Bardd o Lansilin, Sir Ddinbych, a ddisgrifir yn Meic Stephens: *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997), t. 522, fel 'bardd mwyaf toreithiog a dawnus yr ail ganrif ar bymtheg'. Tua 1647 symudodd y teulu i Bontymeibion yn Nyffryn Ceiriog, a maes o law rhoddai ei gyfansoddiadau fri ar fesurau rhydd cynganeddol, yn ogystal â charolau Calan Mai a charolau Haf.

29 Thomas Edwards, neu Twm o'r Nant (1739–1810). Anterliwtiwr a hanai o Sir Ddinbych ydoedd, ac a fagwyd yn Nant Isaf, Henllan. 'Y mae'r anterliwtiau cynnar yn llawn maswedd ac yn ysgafnach eu tôn a'u deunydd na'i waith diweddarach, sy'n adlewyrchu deallusrwydd miniog, dychymyg toreithiog a haenau o fyfyrdod dwys'. Gw. Stephens: *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, t. 219.

30 Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 16.

31 Ibid.

Meurig yn gytûn mai ar donau Seisnig, yn amlach na pheidio, y cenid y cerddi hyn. Yng ngeiriau Cass Meurig:

> Cyfeiria'r term 'canu baledi' at y 'canu caeth newydd' ... canu a oedd yn boblogaidd iawn yng Ngogledd Cymru yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Baledi stryd a ffair o Loegr adeg y Chwyldro Diwydiannol oedd prif darddiad y canu hwn, mae'n debyg; wrth i'r broses o deithio fynd yn haws, ac wrth i fwy o Gymry fentro i weithio yn Llundain, daeth llawer o'r ceinciau Seisnig yn adnabyddus iawn yng Nghymru.[32]

Dylid nodi nad cerddi paganaidd eu naws yn unig a ddôi o dan gochl y canu caeth newydd. Daeth carolau o bob math, gan gynnwys carolau plygain, carolau Pasg, haf a Chalan Mai, i amlygrwydd, a hynny yn ystod y Diwygiad.[33] Cynrychiolai'r rhain syniadaeth bur wahanol i emynau'r Diwygiad:

> Un gwahaniaeth o bwys rhyngddynt a gwaith emynwyr y Diwygiad Methodistaidd: cenir y carolau yn y person cyntaf lluosog ac ni welir ynddynt y pwyslais cyson ar brofiad yr unigolyn a geir yn yr emynau diwygiadol. Annerch ac annog ei gynulleidfa a wnâi bardd y carolau ... nid cynnal ymson â'i enaid ei hun.[34]

Dyma un o'r ffactorau sylfaenol a wahaniaethai destunau'r ddwy garfan – y modd y canolbwyntiai'r emynwyr ar 'rannu'r profiad ysbrydol, yr "hunan", ag eraill',[35] ar y naill law, a phwyslais beirdd yr hen benillion telyn ar 'deimladau dynol sylfaenol a bywyd y gymdeithas wledig',[36] ar y llaw arall, gan '(dd)erbyn bywyd fel y mae, yn ei hagrwch a'i harddwch ... heb ddim hunandosturi nac ymwybod dwfn â phechod'.[37]

Holl hanfod y canu caeth newydd oedd canu mawl. Defnyddiai'r bardd caeth fformiwlâu stoc i ddyrchafu ei wrthrych, ac nid eithriad yw technegau beirdd y canu rhydd, megis Twm o'r Nant a Huw Morys ychwaith. Eglura A. Cynfael Lake sut oedd themâu a motifau beirdd y canu caeth yn ymdebygu'n fawr i'r rheini a ddefnyddiai beirdd y canu rhydd yn ogystal:

> Nid oedd wal ddiadlam yn gwahanu'r beirdd caeth ac awduron y carolau, neu'r baledi. Yr un, mewn gwirionedd, oedd pynciau canolog y ddau gyfrwng – sef mawl a marwnad, crefydd a serch, er bod themâu'r canu rhydd – a'r mesurau a ddefnyddid – yn fwy amrywiol.[38]

---

32 Meurig, *Canu Gwerin*, Cyf. 24, 21.

33 'Awgrymir weithiau mai canu gwyliol y werin sydd y tu ôl i ddechrau'r canu rhydd a chyfeiria Gruffydd Robert yn ei Ramadeg at y "messurau rhyddion y mae'r bobl annhechnennig yn i arfer wrth ganu, carolau, a chwndidau, ne rimynnau gwylfeudd".' Gw. Brinley Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd 1500–1650* (Caerdydd, 1952), t. 16.

34 Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 17.

35 Ibid., t. 19.

36 Ibid., t. 18.

37 Ibid., tt. 18-19.

38 Lake, *Blodeugerdd Barddas o Ganu Caeth y Ddeunawfed Ganrif*, t. xiii.

Dylid nodi mai math gwahanol o fformiwlâu stoc oedd gan feirdd y canu rhydd, gyda'r gerddoriaeth a'r farddoniaeth wedi'u priodi'n gelfydd a baledwyr profiadol yr oes yn dwyn y traddodiad yn ôl i'w darddle, sef y traddodiad llafar, ac yn 'ychwanegu at faled hir drwy amrywio alaw a rhythm o bennill i bennill'.[39] Ceir grym a chadernid i'r caneuon mawl, sy'n adlewyrchu statws cymdeithasol y gwrthrych, sef neges lywodraethol y canu rhydd i bob pwrpas.

'(B)aledau celwyddog, y caneuau ofer, a'r gogangerdd fasweddgar ... sorod y bobl',[40] yw'r disgrifiad o ganu rhydd seciwlar y cyfnod a rydd 'awdur eglwysig (Gruffydd Jones, Llanddowror?)'[41] y llyfr hyfforddiadol, *Cerdd Seion* (1745). Ymateb tebyg a geir yng ngherdd Timothy Thomas isod:

Ac os 'dych chwi, wrth ganu,
'N amcanu'ch clod eich hun;
Mewn sŵn, heb gofio'r sylwedd,
Fel maswedd ar eich min;
Gwybyddwch, daw diwrnod,
Dychryndod, mawr ei drai,
I gwrdd â'r fath gantorion;
Gelynion ŷnt, heb drai.[42]

'Bardd cymdeithasol'[43] yw'r term a rydd E. G. Millward am faledwyr y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yng nghyfnod Huw Morys daeth yr emyn a'r gân rydd seciwlar i ymdebygu'n fwy i'w gilydd. Er enghraifft, yng ngherdd grefyddol Pantycelyn, 'Ffarwel, bleserau'r byd', a genid ar y mesur salm, ceir cyffyrddiad carolaidd iddi, a gellir ystyried 'Mae'r nefoedd ynghlo oddi wrthyf ers tro' fel cerdd serch seciwlar.[44] Dylanwadodd arddulliau a ffurfiau'r bardd gwlad yn drwm ar Williams Pantycelyn drwy gydol ei yrfa fel emynydd, sy'n profi apêl y canu rhydd i'r emynwyr fel cyfrwng i 'ddiwygio cymdeithas'.[45] Canodd Huw Morys ar yr un mesur, sef y mesur salm, i'w gariad, sy'n pontio naws ac arddull canu crefyddol y cyfnod â chaneuon serch. Gwelir yng ngwaith Jac Glan-y-gors (1766–1821), 'gelyn anghymodlon i'r Methodistiaid ... fel y rhan fwyaf o faledwyr y cyfnod',[46] elfen gref o ddychan, sef nodwedd amlycaf y canu hwnnw.

Er i Iolo feistroli celfyddyd cerdd dafod erbyn iddo droi'n ugain oed, gan ddefnyddio'r ffugenw 'Iorwerth Gwilim' wrth gystadlu yn erbyn ei gyd-feirdd mewn eisteddfodau lleol, megis yr un a gynhaliwyd yn Llantrisant ym 1767,[47] llwyddodd hefyd i gyfrannu'n helaeth at ganu rhydd Morgannwg y cyfnod. Yng ngeiriau Huw Meirion Edwards:

39 Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 29.

40 Ibid., t. 20.

41 Ibid.

42 Ibid.

43 Ibid., t. 27.

44 Ibid., t. 21.

45 Ibid., t. 26.

46 Ibid., t. 25.

47 Huw Meirion Edwards: 'A Multitude of Voices: The Free-Metre Poetry of Iolo Morganwg', yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 98.

> As a free-metre poet he is most remarkable for his versatility, for his uncanny ability to adopt a multitude of styles and voices which all bear the hallmark of the same unique creative talent.[48]

Eglura Iolo Morganwg yn fynych, yn ei gasgliad o alawon gwerin Bro Morgannwg y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gefndir amryw o'r caneuon a gasglodd, gan fanylu ar hanes a tharddiad yr alaw. Dyma gefndir '*Nutbrown maid* (Etifeddes y Coety)':

> This tune is frequently to be met with in Glamorgan, sung by the common people, and in MS collections of old Music, it is known by the title of <u>Nut-brown Maid</u>, in Welsh it is called <u>Y Fynachlog</u> (The Abbey) and was formerly much used as a <u>psalm-tune</u>, but is now oftener applied to Elegiac Songs. From the English title of it, and also its peculiar adaption to this uncommon stanza of the ancient and beautiful English Song of the <u>Nut-brown Maid</u>, which I have no where else observed, that it is its original tune. It appears from its simplicity to be very old.[49]

Yn wyneb y dystiolaeth uchod, a'r ffaith mai cân oedd y '*Nutbrown maid* (Etifeddes y Coety)' a ddefnyddid 'as a psalm-tune', gellir honni y bodolai perthynas glòs rhwng y canu caeth newydd a chanu crefyddol y cyfnod.

Yn ystod y ddeunawfed ganrif daeth tro ar fyd ym myd y canu caeth. Ym mro enedigol Iolo, hefyd yng Ngwynedd, gwelwyd deffroad barddol ac ysgolheigaidd, a olygai arbrofi o'r newydd â'r mesurau caeth. Fodd bynnag, disgleirio drwy gyfrwng y mesurau rhydd a wnâi beirdd Morgannwg – mesurau megis yr awdl-gywydd, y cywydd deuair hirion a'r cywydd deuair fyrion, yn ogystal â'r triban. Yr oedd Iolo yn ymwybodol iawn o lawysgrifau'r cwndidwyr,[50] a hoffai ganu ar fesur cywydd deuair fyrion, a gellir dychmygu iddo feddu ar gasgliadau o weithiau'r hen gywyddwyr yn ei gartref yn Nhrefflemin. Daeth yntau yn feistr ar y canu caeth a'r canu rhydd, gan ymfalchïo yng ngweithiau beirdd ei gynefin gymaint nes peri iddo fynd ati i dadogi cywyddau o'i waith ei hun ar Dafydd ap Gwilym,[51] yn

48 Ibid., t. 121.

49 NLW IAW 145, f.17.

50 Math ar garol oedd y 'cwndid' a ddaeth i boblogrwydd ymhlith beirdd crwydrol Morgannwg a Gwent rhwng yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif. Cyfansoddwyd y carolau hyn ar fesurau digynghanedd y glêr, a hynny gan gwndidwyr megis Lewis Hopkin, Llywelyn Siôn, Edward Dafydd o Fargam ac Edward Evan. Defnyddid y term 'cwndid', yn ogystal â 'carol', ym Morgannwg fel 'enw ar gerddi rhydd yr unfed ganrif ar bymtheg'. Gw. Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd 1500–1650*, t. 24.

51 Erbyn 1789, gyda chyhoeddi argraffiad Cymdeithas y Gwyneddigion o waith Dafydd ap Gwilym (Owen Jones a William Owen Pughe (gol.): *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Llundain, 1789)), yr oedd Iolo yn bur gyfarwydd â llyfrgelloedd ac archifdai ledled y wlad, ac ef oedd yn gyfrifol am ychwanegu deunydd o'i ben a'i bastwn ei hun ar gyfer y gyfrol, heb yn wybod i'r golygyddion mai twyll oedd y cyfan. Aeth Iolo gam ymhellach gan enwi Dafydd ap Gwilym yn Dafydd Morgannwg.

ogystal â cherddi rhydd ar Rhys Goch ap Rhiccert.[52] Eglura G. J. Williams ei fwriad yn hyn o beth:

> Aeth ati o ddifrif i adlunio hanes ei fro a hanes ei bywyd llenyddol, a dechrau peri i feirdd a llenorion a haneswyr Cymru weld y gorffennol trwy'r niwloedd hud a greasai ef, ac i edrych ar yr hen Forgannwg fel magwrfa ein holl draddodiadau diwylliannol ... cyfnod y myfyrio a'r breuddwydio oedd hwn.[53]

Dyrchafu ei gymdogaeth oedd prif amcan Iolo wrth ffugio a dynwared gweithiau beirdd ei fro. Dyma hefyd un o themâu ei gerddi serch, sef canu mawl i Forgannwg, a hynny naill ai'n uniongyrchol drwy gyfeirio at bentrefi ac ardaloedd ym Morgannwg, neu'n fwy cynnil drwy ddefnyddio tafodiaith ei gynefin. Ceir ymhlyg yng ngherddi serch Iolo elfen drosiadol gref, sy'n dwyn deuoliaeth amwys effeithiol i'r thema dan sylw. Er yr ymddengys mai cyfeirio at rinweddau gwragedd yr ardal a wnâi Iolo, gyda'i ddefnydd o ddelweddau ac ieithwedd garwriaethol briodol, yr hyn a wnâi mewn gwirionedd yw adlewyrchu nodweddion Bro Morgannwg. Eglura Huw Meirion Edwards hyn ymhellach:

> In one short but striking poem, just as in the *cywyddau* to Euron, the girl's beauty and moral virtues are implicitly identified with the unparalleled qualities of 'Gwladforgan' itself. The opening verse is disarmingly direct:
>
> Mae tŷ gwyn bach ym Mro Gwladforgan,
> Ac yn ei gylch mae gwlad a pherllan,
> Ac yno'n trigo gyda'i dynon
> Mae'r unig ferch a gâr fy nghalon.[54]

Mae'r penillion isod a briodolir i Rhys Goch, sy'n rhan o gerdd o'r enw 'Canu'r Marw o'i Serch', yn enghraifft o'r modd yr aeth Iolo ati i ddyrchafu tafodiaith Morgannwg:

Dien (teg, hardd) i mi meingorph wisgi
Dioer os tydi am gwrthodi,
Gwn wynofi gan ymboeni,
Gwae fi poeni, gwae fi poeni.
Poeni beunydd dwyn ei cherydd
Ochawr ni'm bydd o lawenydd,
Y fory'r dydd ac fe dderfydd,
Gwae fi derfydd, gwae fi derfydd.[55]

Canu ar fesur cywydd deuair fyrion a wnâi Iolo, gan amlaf, yn y cerddi rhydd a briodolir ganddo i Rhys Goch ap Rhiccert. Mewn llawysgrif o'i eiddo cofnododd Iolo alaw ar fesur

---

[52] Ceri W. Lewis, 'Iolo Morganwg and Strict-Metre Welsh Poetry', yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius* t. 80. Ei enw llawn oedd Rhys Goch ap Rhiccert ap Einion ap Collwyn, yr oedd yn gyndad i Rhys Brydydd a Lewys Morgannwg, a cheir cryn ddryswch ynghylch ei ddyddiadau.

[53] G. J. Williams: *Iolo Morganwg – Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd, 1956), t. 370.

[54] Edwards, 'A Multitude of Voices' yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 102.

[55] Anhysbys: *Casgliad o Hen Ganiadau Serch: Yn cynnwys rhai a briodolir i Rys Goch ab Rhiccert ab Einion ab Collwyn*, Cyf. III (Caerdydd, 1902), t. 4.

hen gywydd deuair, i daflu goleuni ar rai o fesurau'r cyfnod, lle cyfeiriai hefyd at Rhys Goch ap Rhiccert:

> Y mae ym Morganwg lawer o hen ysgrif lyfrau cerddi Teuluaidd fal au gelwir yno. Y maent yn unodl ddieithr (?gydag) ambell un iawn drwy'r gân ac yn llwyr ddigynghanedd, y mesurau cyffredinaf yw'r hen gywydd deuair ar ba fesur y mae'n (?dda) gennyf glywed hen flaeneu wraig yn canu'r mesur hwn ar erddigan agos hyd eith fy nghof fal hon ... Yr wyf wedi clywed ceingiau bychain eraill ar ba rhai y cenid y mesur bach hynn. Mesur arall ar gan deuluaidd o'r hen ganiad yw'r gyhydedd gyrch ar y Gynghanedd lefn neu golofn Prydain. Un arall hefyd yr hen garol Gwasaela, ac weithiau rhai fesurau eraill – a llawer o'r hen Ganiadau ar fesurau amrafaelion, ag mewn oedran cymhelled yn ol a'r flwyddyn 1300 o leiaf; yn wir y mae caniad Serch Rhys Goch ap Rhiccert o Dir Iarll cyn belled yn ôl ar flwyddyn 1150, o leiaf.[56]

Honnai Iolo mai bardd o'r ddeuddegfed ganrif oedd Rhys Goch ap Rhiccert.[57] Fodd bynnag, mae'r gyfrol *Casgliad o Hen Ganiadau Serch: Yn cynnwys rhai a briodolir i Rys Goch ab Rhiccert ab Einion ab Collwyn* yn taflu goleuni ar y mater wrth honni na ddylai'r bardd hwn 'be placed further back than the year 1350'.[58] Nid ar chwarae bach felly yr olrheinir dyddiadau'r bardd o Dir Iarll. Cadarnheir hyn ymhellach:

> Dau beth sydd yn dra sicr: sef mai nid Rhys Goch ab Rhiccert a gyfansoddodd y caneuon a briodolir iddo yn yr Iolo MSS., ac yn ail, mai mewn oes ddiweddarach nag oes Dafydd ap Gwilym y cyfansoddwyd hwynt.[59]

Yn wyneb y dystiolaeth uchod, byrdwn y ddadl hon yw mai bardd o'r ddeunawfed ganrif a gyfansoddodd y cerddi serch, yn hytrach na bardd o gyfnod y Gogynfeirdd, a hynny fel rhan o faniffesto ehangach Iolo i geisio dathlu a dyrchafu traddodiad barddol a llenyddol Morgannwg.

Tueddai Iolo i dadogi amryw gerddi ar feirdd 'dilys a dychmygol',[60] ac y mae lle i gredu dwy ochr y ddadl hon, gyda Geraint Jenkins a Daniel Huws[61] ar y naill law o'r farn mai cymeriad ffuglennol oedd Rhys Goch ap Rhiccert, ac awdur anhysbys *Casgliad o Hen Ganiadau Serch* ar y llaw arall yn ceisio profi, drwy ddatgan yr ymddengys ei enw mewn achrestrau, mai cymeriad hanesyddol ydoedd. Eglura G. J. Williams hyn ymhellach:

> Cymerir gŵr o'r llyfrau achau, megis Rhys Goch ap Rhiccert, a gwneuthur iddo chwarae ei ran ym mhasiant bywyd llenyddol Morgannwg.[62]

---

56 NLW 13131A, 463.

57 'Gwyddom oherwydd eu nodweddion iaith, arddull a mydr na all hynny fod ... mae'n debyg mai'r hyn oedd yn ei feddwl ef (Iolo) oedd y cerddi hynny y cafodd J. H. Davies hyd iddynt mewn llawysgrif o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ar bymtheg (a gyhoeddwyd yn *Hen Ganiadau Serch* (1902)).' Gw. Donovan, *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, t. xi.

58 Anhysbys, *Casgliad o Hen Ganiadau Serch*, Cyf. III, t. 7.

59 Ibid., t. 20.

60 Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 26.

61 Huws, 'Iolo Morganwg and Traditional Music' yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 340.

62 G. J. Williams, 'Iolo Morganwg', *Y Llenor*, Cyf. XV (1936), 228 – 229.

Does dim amheuaeth na fu gŵr o'r enw Rhys Goch ap Rhiccert drigo ym Morgannwg ganrifoedd maith cyn dyddiau Iolo, ond ni cheir tystiolaeth i brofi y bu Rhys Goch erioed yn barddoni.[63] O ganlyniad i ffugiadau Iolo, drwy gyfrwng y cerddi a dadogwyd ganddo ar Rhys Goch, trodd Iolo un o gymeriadau Morgannwg y gorffennol yn fardd dychmygol ar gyfer Morgannwg y ddeunawfed ganrif. Dyma ddadl Geraint H. Jenkins:

> Iolo fabricated enough material to fill scores of volumes ... emboldened by his success, he then began to spin fabulous tales, fabricate *brutiau* (chronicles), conjure up imaginary poets like Rhys Goch ap Rhicert.[64]

Nodir yn *Casgliad o Hen Ganiadau Serch* sut y rhoddir y frawddeg 'Rhys Goch o Dir Iarll ab Rhiccert ab Einion ab Collwyn ai cant, cylch 1140',[65] ar ddiwedd pob cân yn yr *Iolo Manuscripts*,[66] lle cofnodwyd y cerddi a briodolir i'r bardd dan sylw. Er nad oes sicrwydd mai Iolo oedd yn gyfrifol am ychwanegu'r frawddeg honno, y mae'n bur debyg iddi gael ei hysgrifennu ganrifoedd wedi'r ddeuddegfed ganrif,[67] yn enwedig wrth gofio mai o lyfr Siôn Bradford,[68] (a fu farw ym 1785), fel yr honnir yn *Casgliad o Hen Ganiadau Serch*, y cododd Taliesin ab Iolo ganiadau Rhys Goch ap Rhiccert ar gyfer yr *Iolo Manuscripts*. Dyma bennill clo un o'r cerddi yn yr *Iolo Manuscripts* a briodolir iddo:

> O daw ymorol fanol feinir,
> Pwy ganai i'r llwyn mwyn min glasdir,
> Mab sy'n hir arwain orhoen alaeth
> Cariad dan wydd herwydd hiraeth
> Anniwyg cadarn a geir arno,
> Oes a wnai gannoes aros Gwenno.[69]

Crynhoa P. J. Donovan gyfraniad Iolo i draddodiad y canu rhydd, a hynny gan ystyried ei weledigaeth ar gyfer Morgannwg ei ddydd:

> Yr hyn y mae'n rhaid inni ddal arno yw *bwriad* Iolo wrth gyfansoddi'r cerddi hyn: nid cyfranogi yn y traddodiad a oedd yn fyw yn ei amser ef ond *creu* traddodiad, creu gorffennol llenyddol gwych i 'Wladforgan' yng nghaneuon rhydd 'y bardd teulu'.[70]

---

63 http://yba.llgc.org.uk/cy/index.html (2009).

64 Geraint H. Jenkins: 'On the Trail of a "Rattleskull Genius": Introduction', yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 19.

65 Anhysbys, *Casgliad o Hen Ganiadau Serch*, Cyf. III, t. 4.

66 Taliesin Williams, *Iolo Manuscripts: a Selection of Ancient Welsh Manuscripts* (Llandovery, 1848).

67 Anhysbys, *Casgliad o Hen Ganiadau Serch*, Cyf. III, t. 5.

68 Siôn neu John Bradford (1706–85). Gwëydd, pannwr a lliwydd ydoedd wrth ei grefft, a hanai o Fetws, Tir Iarll ym Morgannwg. Yr oedd hefyd yn fardd ac yn gasglwr llawysgrifau, ac yn aelod o gylch llengar ym Mlaenau Morgannwg ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Ef hefyd oedd athro barddol Iolo Morganwg.

69 Anhysbys, *Casgliad o Hen Ganiadau Serch*, Cyf. III, t. 5.

70 Donovan, *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, t. xi.

Meddai Iolo ar weledigaeth y tu hwnt i bob un o'i gyfoeswyr. Cododd dystiolaeth o'r gorffennol pell a'i strwythuro i'w ddibenion ei hun, gan droi hen hanes yn berthnasol i Forgannwg ei gyfnod ef.

Ffenomen a nodweddai Ramantiaeth – y mudiad hwnnw a ddylanwadodd ar lenyddiaeth, cerddoriaeth, celfyddyd, athroniaeth a diwinyddiaeth Ewrop ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif – i bob pwrpas, oedd tuedd gwŷr megis Thomas Chatterton,[71] James Macpherson[72] ac Iolo i ffugio gweithiau llenyddol. Nid ffenomen anghyffredin felly, yn ystod y ddeunawfed ganrif, oedd mympwyon cylch o lenorion carismataidd y dydd i addasu'r gorffennol i ddibenion y presennol, ac nid Iolo oedd yr unig un ychwaith a arddelai'r awydd hwnnw i drawsnewid ac i ail-greu hanes ei fro. Dylanwad Rhamantiaeth oedd i gyfrif am hynny. Fodd bynnag, yr oedd Iolo ben ac ysgwydd uwchlaw ei gyfoedion ym Morgannwg yn hyn o beth, ac ef, yn anad neb arall, naill ai drwy ffugio neu gasglu deunydd, oedd yn gyfrifol am ddyrchafu rhinweddau'r fro honno i'r un statws â Gwynedd, sef ei bennaf uchelgais. Llwyddodd yn ei ymgais i argyhoeddi haneswyr ac ysgolheigion, a hynny gymaint nes peri iddynt ddechrau ystyried Morgannwg o ddifrif fel un o'r ardaloedd hynny a gynigiai fagwrfa a noddfa i draddodiad barddol a llenyddol Cymru. Noda Ceri Lewis:

> No less unmistakable are manifestations of certain features of the Romanticism ... with its emphasis on feeling and the sublime and the free expression of the passions and individuality.[73]

Dylanwadodd Rhamantiaeth yn drwm ar weithiau Iolo, megis ei gywyddau cynnar a luniodd yn ystod ei lencyndod, yn ogystal â'i ffugiadau. Wrth ystyried mai rhai o brif elfennau, nid yn unig amryw o'i gywyddau cynnar, ond hefyd ei gerddi a'i ganeuon rhydd, yw serch a chariad, gellir honni mai Iolo oedd 'un o ragflaenwyr y Mudiad Rhamantaidd'[74] yng Nghymru.

Ceir yng nghyfrol Tegwyn Jones *Tribannau Morgannwg* oddeutu pedwar ugain o dribannau serch,[75] ac yn eu plith gwelir themâu megis priodas, gwrthodiad, torcalon,

---

71 Thomas Chatterton (1752–70). Bardd a ffugiwr barddoniaeth ffug-ganoloesol o Loegr ydoedd, a gyflawnodd hunanladdiad pan nad oedd ond yn ddwy ar bymtheg mlwydd oed, a hynny mewn ardal druenus yn Llundain o'r enw Holborn. Yn rhyfedd ddigon, yn ystod y 1790au, pan oedd Iolo ei hun yn ystyried hunanladdiad, cafodd lety yn yr ardal honno 'within a door or two' o'r fan lle bu Chatterton farw. Defnyddiai Chatterton y ffugenw 'Thomas Rowley' wrth ffugio hanes a barddoniaeth, a safai gyfuwch â ffugwyr gorau ei ddydd. Cai ei ystyried yn un o bennaf eiconau Rhamantiaeth y ddeunawfed ganrif. Gw. Geraint Phillips: 'Forgery and Patronage: Iolo Morganwg and Owain Myfyr', yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 414.

72 James Macpherson (1736–96). Bardd o'r Alban ydoedd a gyfansoddodd dros 4,000 o linellau pan oedd yn fyfyriwr, a ffrwyth y gwaith hwnnw oedd cyfrol o'r enw *The Highlander* (1758). Yn ogystal â hyn, enillodd fri fel golygydd y cylch o gerddi yn chwedl Osian, *The Works of Ossian* (1765), a roddodd fod yn ddiweddarach i ddadleuon brwd ar wreiddioldeb y gwaith. Er enghraifft, aeth Samuel Johnson i'r afael â datrys y dirgelwch y tu ôl i waith Macpherson drwy deithio i'r Alban i chwilio am dystiolaeth lawysgrifol; wrth gwrs, ofer fu'r ymgais. Er hyn, llwyddodd y gwaith i ennyn chwilfrydedd a thanio dychymyg darllenwyr ymhell y tu hwnt i'r Alban.

73 Lewis, 'Iolo Morganwg and Strict-Metre Welsh Poetry' yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 76.

74 Stephens, *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, t. 640.

75 Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), tt. 98–116.

gwerthoedd a moesau serch, tymhorau a lleoliadau serch, y defnydd a wnaed o lateion yn ogystal â charu yn yr awyr agored. Honna Brinley Rees yn *Dulliau'r Canu Rhydd 1500–1650*, mai testunau tebyg a geir yn nhraddodiad canu serch ehangach Ewrop hefyd, fel a ganlyn:

> Dadansoddwyd y defodau a geir yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym a'i ddilynwyr a'u cymharu'n fanwl â phethau tebyg ym marddoniaeth y Cyfandir. Yr un yw'r elfennau a geir yn y cerddi serch sydd ar fesur rhydd: y carwr yn curio ac yn mynd i'w fedd oherwydd fod saeth Ciwpid dan ei ais, y ferch yn greulon o brydferth a didaro, athrodwyr yn ceisio creu anghydfod rhyngddynt, y bardd yn pwysleisio mai gwell iddi ei gariad ef na chyfoeth Eiddig ac yn anfon adar yn llateion ati, ac felly yn y blaen.[76]

Yn union fel Lewis Morris, a arbrofodd â'r mesur triban a'r pennill telyn, dylanwadodd gweithiau Dafydd ap Gwilym, 'meistr y canu serch',[77] yn drwm ar Iolo, yn enwedig ei gerddi serch.[78] O ganlyniad, yn amlach na pheidio, ymddengys yr un math o themâu yng nghasgliad Iolo o benillion serch Morgannwg ei ddydd. Er enghraifft, nid yn unig yn y caneuon gwerin a gasglodd, ond hefyd yn y cerddi hynny a briodolwyd ganddo i Rhys Goch, ceir elfen gref o ymrafael rhwng yr haf a'r gaeaf – gyda'r gaeaf yn cynrychioli marwolaeth ac anobaith, a thymor yr haf yn cynrychioli holl rin a chyffro cariadon ifanc. Dyma bennill agoriadol cerdd a briodolwyd i Rhys Goch sy'n pwysleisio pwysigrwydd yr haf fel tymor caru:

Gorthrwm a thrwm a thrist fyddaf,
Ni charaf un tro tra fo gauaf,
Oni ddel mai glasai glosydd
A gwyrddlen penn pob glwys irwydd
Mae immi glas urddas gwyrddail,
Calon hoywfron hyfryd adail.[79]

Isod ceir enghraifft arall o bennill serch sy'n canu mawl i'r haf, ond y tro hwn fe ymddengys ym mhoclyfr Iolo, sef y 'Casgledydd Penn Ffordd':

Mae'r merched yn llawenu,
Wrth weld y caeau'n glasu
O! gan wedyd fe ddaw'r hâf
Ag amser frâf (*sic*) i garu.[80]

Nodir ar odrau'r gerdd y dyfynnir ohoni uchod, 'traddodiadol ym Morganwg gan gathreiwyr', sy'n cadarnhau sylw E. G. Millward mai ymdrin â 'theimladau dynol sylfaenol a

76 Rees, *Dulliau'r Canu Rhydd 1500–1650* (1952), t. 35.

77 Dafydd Johnston, *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol/Medieval Welsh Erotic Poetry* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1998), t. 11.

78 Edwards, 'A Multitude of Voices' yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 120.

79 Anhysbys, *Casgliad o Hen Ganiadau Serch*, Cyf. III, t. 25.

80 NLW 13146A, 225. Ceir fersiwn tebyg yng nghyfrol Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg*, t. 107.

bywyd y gymdeithas wledig'[81] a wnâi gweithiau beirdd y canu rhydd, ac nid eithriad yw'r tribannau. Ategir hyn ymhellach gan T. H. Parry-Williams yn ei ragymadrodd i'r gyfrol *Hen Benillion*:

> Bywyd gwledig, amaethyddol, awyr-agored yw awyrgylch y mwyafrif ohonynt – bywyd diddordeb mewn tymor a thywydd, mewn gŵyl a ffair, mewn offer ac anifail. Bywyd ifanc afieithus ydyw hefyd, gan amlaf, – bywyd diddordeb mewn serch a charu, mewn gogan a chellwair.[82]

Yn wyneb y dystiolaeth uchod gellir honni bod y themâu a geir yng ngherddi beirdd y canu rhydd, yn ogystal â'r baledi a'r penillion telyn, yn pontio pob agwedd ar draddodiad llafar gwlad y cyfnod, traddodiad y 'canu "gwerinol", "answyddogol" ... cynnyrch celfyddyd ddihyfforddiant, ddiddiwylliant, "anymwybodol"',[83] chwedl T. H. Parry-Williams.

Thema arall a ganfyddir ym mhenillion serch Iolo, yn ogystal â'r caneuon gwerin a gasglodd, sydd yn amlwg o dan ddylanwad cywyddau serch Dafydd ap Gwilym, yw'r arfer o garu yn yr awyr agored. Noda Siwan Rosser mai arfer cyffredin oedd hwn, 'yn enwedig adeg Calan Mai',[84] gyda'r fedwen nid yn unig yn cynrychioli byd natur, ffrwythlonedd a thyfiant, ond hefyd ddyfodiad yr haf. Atega Catrin Stevens hyn isod, gan bwysleisio pwysigrwydd y fedwen yn nhraddodiad y canu serch:

> The most popular test of a lover's intentions was associated with the birch tree. Indeed the birch was extremely significant in the folklore of courtship throughout the centuries. The love poems of the medieval poets contain many references to seeking to court girls under the green leaves of the birch tree. They seek an *oed dydd* (a date by day) ... with the girls and try to draw them out into the *bedwlwyn* (birchgrove).[85]

Ymddengys hyn mewn cerdd gan Dafydd ap Gwilym, 'Yr Haf', sy'n enghraifft o ymgais y bardd i fod yn un â natur, yn ymochel yn nhyfiant yr haf rhag llid yr Eiddig. Ceir cyfeiriad ynddi hefyd at y fedwen:

Eiddig, cyswynfab Addaf,
Ni ddawr hwn oni ddaw'r haf.
Rhoed i'w gyfoed y gaeaf,
A rhan serchogion yw'r haf.

Minnau dan fedw ni mynnaf
Mewn tai llwyn ond mentyll haf.
Gwisgo gwe lân amdanaf,

---

81 Millward, *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*, t. 18.

82 T. H. Parry-Williams, *Hen Benillion* (Llandysul, 1940), t. 14.

83 Ibid., t. 9.

84 Siwan M. Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled: Delweddau o'r ferch ym maledi'r ddeunawfed ganrif* (Caerdydd, 2005), t. 33.

85 Catrin Stevens, *Welsh Courting Customs* (Llandysul, 1993), t. 117.

Gwnsallt bybyr harddwallt haf.
Eiddew ddail a ddadeiliaf.
Annwyd ni bydd hirddydd haf.
Lledneisferch os anerchaf,
Llon arail hon ar ael haf.[86]

Cadarnheir hyn ymhellach:

> As a rule, the folk fancy of the British Isles makes lovers meet in the flowering meadows or the green woods of springtime. The sun shines from a clear sky, the thrush and lark are singing. Nature smiles on the ploughboy and his sweetheart, and their love knows no reserve, holds no guilt ... encounters are gravely joyful, mistrust is gently sad, the mood of the courtship songs is nearly always tender, sweet, naively fond, seldom desperate.[87]

Dyma gerdd o'r enw 'The Banks of Sweet Primroses' sydd hefyd yn perthyn i draddodiad canu yn yr awyr agored:

As I walked out one midsummer's morning,
For to view the fields and to take the air,
Down by the banks of the sweet primroses,
There I beheld a most lovely fair.[88]

Yr oedd Iolo, wrth briodoli cerddi serch i amryw feirdd o'r gorffennol, yn ogystal â chasglu alawon gwerin ei gynefin, yn gwbl ymwybodol o fotifau a thechnegau'r cyfrwng hwnnw. Yng ngeiriau Huw Meirion Edwards:

> The great bulk of the poetry which Iolo composed in their names (beirdd Morgannwg o'r unfed ganrif a'r ail ganrif ar bymtheg) consists of lyrics of love in a natural setting, pastorals and May-songs, with bird-messengers and bird-dialogues a common feature.[89]

Yn hyn o beth, ei weledigaeth oedd creu traddodiad canu serch poblogaidd i Forgannwg, gan gynnwys holl agweddau'r traddodiad hwnnw, er mwyn tynnu sylw tuag at arferion a thraddodiadau'r oes a fu.

Cyfeiria Arfon Gwilym at rai o'r themâu hynny a welir yn y caneuon gwerin y gellir eu hystyried yn ganeuon serch:

> Caneuon serch yw'r caneuon gwerin mwyaf niferus: caneuon mawl neu ganeuon yn ymwneud â methiant i ennill cariad ac ymweliadau liw nos.[90]

---

86 Thomas Parry (gol.), *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd, 1952), t. 71.

87 *The Folk Songs of Britain, Volume 1: Songs of Courtship*, Peter Kennedy, Alan Lomax a Shirley Collins, CD Topic 12T157.

88 Ibid.

89 Edwards, 'A Multitude of Voices' yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 109.

90 Arfon Gwilym, *Cerddoriaeth y Cymry* (Talybont, 2007), t. 66.

Ceir yng nghasgliad Iolo o alawon gwerin Bro Morgannwg ganeuon serch sy'n ymdrin â gwrthodiad a thorcalon o fewn perthynas, gyda'r bardd yn datgan ei wewyr a'i boen meddwl:

Blin yw caru yma'c accw,
blin fod heb y blinder hwnnw
o'r blinderau blina blinder,
cur anifyr caru'n ofer.[91]

Er na phriodolir geiriau ar gyfer yr alaw 'Pwyo pen y gofid, Triban (Pont Rhyd y Fenn 1796)' yn llawysgrif Iolo, fe awgryma Phyllis Kinney[92] eiriau ar ei chyfer, sy'n mynegi torcalon a thristwch y bardd:

Mi wn am fachgen gwirion
A galar yn ei galon,
A phwy yw hwnnw ond myfi
Amdanat ti, lliw'r hinon.

Amdanat ti, lliw'r hinon,
Amdanat ti, lliw'r hinon,

A phwy yw hwnnw ond myfi
Amdanat ti, lliw'r hinon.[93]

Wrth drafod y cerddi serch a briodolwyd i Rhys Goch, noda Huw Meirion Edwards y cyd-destun ehangach a esgorodd yn y pen draw ar themâu megis gwrthodiad a thorcalon:

> Under the civilizing influence of continental *amour courtois*, the poems are full of the joys and sufferings of unrequited love.[94]

Olrheinir serch cwrtais [95] i gyfnod brenhinoedd, breninesau ac uchelwyr yr Oesoedd Canol, a chafwyd bri ar y math hwn o ganu yng ngweithiau beirdd y llysoedd. Ffyddlondeb a theyrngarwch mintai o wŷr tuag at eu pennaeth oedd wrth wraidd y traddodiad hwnnw, a hynny'n bennaf wrth iddynt ymbaratoi ar gyfer ymladd mewn brwydr, gyda delfrydau sifalrïaidd, megis dewrder ac anrhydedd, maes o law, yn cael eu haddasu'n ddelfrydau ac yn fotifau yng nghanu serch y cyfnod. Eglurir hyn ymhellach:

---

91 NLW 21423E, rhif 14.

92 Casgliad o ddogfennau personol Phyllis Kinney a Meredydd Evans (mae'r rhain yn eu meddiant hwy). Ceir ynddynt olygiadau a nodiadau eglurhaol o alawon gwerin Iolo Morganwg yn ogystal â thraethodau ac erthyglau am gerddoriaeth draddodiadol Cymru.

93 NLW IAW 145, f.10. Ceir fersiwn tebyg yng nghyfrol Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg*, t. 110.

94 Edwards, 'A Multitude of Voices' yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, t. 112.

95 'Math o serch rhamantaidd a ddarlunnir mewn cyd-destun sifalrïaidd ac a folid mewn barddoniaeth a rhamantau ... gynt defnyddid y term *amour courtois* (a gafwyd gyntaf gan yr ysgolhaig Ffrengig Gaston Paris yn 1883) ar y ffenomenon, ond defnyddir hefyd y term Profensaleg canoloesol, *fin'amor.*' Gw. Stephens, *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, t. 662.

> Ystyrid serch yn nwyd dyrchafol a allai urddasoli'r milwr ond hefyd ei osod dan reidrwydd i ennill cymeradwyaeth ei riain trwy ei ddewrder ac i'w brofi ei hun yn deilwng trwy ei ymgysegriad iddi.[96]

Yr oedd disgwyl i'r milwr, wedi iddo gael ei urddo'n farchog, ymddwyn yn unol â gofynion yr anrhydedd hwnnw, drwy ymarfer cwrteisi, nid yn unig mewn brwydr ond hefyd tuag at ferched. Rhaid oedd iddo fod yn deilwng ohonynt, ac ymddengys motifau ac anturiaethau o'r fath yn chwedl Culhwch ac Olwen, 'y fwyaf cyntefig a'r hynaf o'r chwedlau yng nghasgliad y Mabinogion',[97] gydag Ysbaddaden Bencawr yn gosod tasgau, neu anoethau, i Culhwch er mwyn iddo ennill Olwen yn wraig iddo.

Yn y math hwn o ganu dyrchefid y gwrthrych serch i'r fath raddau nes peri iddo gyrraedd statws anghyraeddadwy, sy'n ymdebygu i eilunaddoliad. Perthyn y motifau hyn i chwedloniaeth ryngwladol ehangach, gyda straeon gwerin tebyg yn ymddangos yn nhraddodiadau llenyddol Ffrainc, Yr Almaen a Lloegr. Dyma enghraifft o benillion y gellir eu priodoli ar y naill law yn gerddi serch, ac ar y llaw arall yn gerddi y cenid alawon arnynt adeg dathliadau a gwyliau'r fro. Ceir ynddynt themâu sy'n adlewyrchu teimladau'r bardd, sy'n gymysg o fawl i Forgannwg, torcalon a gwrthodiad:

*Cân Hwp a diri dando*

Caru 'mhell a charu'n agos, – Hwp a diri dando,
Newid cariad pob pythewnos, – dyna ganu etto,
Er hyn i gyd ni all fy nghalon, – Siân fwyn Siân,
Lai na charu'm hen gariadon,
o'r brwyn, dere dere'r llwyn,
ni sonia'i fwy am Siantan fwyn.

Ffol wyf fi, a ffol yw bagad, &c
Ffol yw'r mab ni charo'i gariad, &c
A ffol iawn yw'r mab a garo, &c
Lle na bo dim cariad iddo, &c
&c, &c.

Os bum ffol mi fydda' ffelach,
Mwy nid af i ymgais ffrylach,
I gael y gair fy mod yn chwanog,
I garu'r merched saith am geiniog.

Er nad wyf ond dierth yma,
Fal rhyw dderyn ar ddisgynfa,
Nid wy'n prisio am wyr trawsion,
Mwy na'r gath sy'n siglo'i chynffon.

---

96 Ibid.

97 Ibid., t. 120.

Mi wrthodais ffol yr oeddwn,
Merch a gara'r tir a gerddwn,
Ag a gerais, do'n garedig,
Merch a ngwerthai am ychydig.

Do mi welais heddy'r boreu,
Merch a gawn pan fynnwn innau,
Ag a welais, Do, brydnawn,
Merch a garwn ag nis cawn.

Os daw gofyn pwy'n yw'r Prydydd, &c
Mab dy 'nawr yn treiglo'r gwledydd, &c
O achos caru hardd ei golwg, &c
Blodeu merched Sir Forganwg, &c
&c, &c.[98]

Yn ddi-os, gwelir fod merched yn cael eu parchu fel gwrthrych serch y bardd, a bron y gellir honni y cawsant eu portreadu fel duwiesau. Ceir yng nghasgliad Iolo o alawon gwerin gân o'r enw 'Y feindwf fun', sy'n cyfeirio'n benodol at 'Duwies serch':

Gwr iefanc wyf a roes ei serch, er curio mawr ar garu merch,
Ag oni chaf liw'r haf mewn hedd, y feindwf fun caf fynd i fedd.

Pan gwelais i liw'r eira gwyn, fal ewig wisgi'n ael y Bryn,
Mwy teg ei phryd na blodau'r haf, y feindwf fun hi'm gwnaeth yn glâf.

Mae sôn am helen deg ei grân, ag medd y Beirdd 'roedd fflora'n/Dido lân,
'r oedd Duwies serch yn hardd ei llun, mwy teg ymhell yw'r feindwf fun.

Y feindwf fun yw'r unig ferch, a drows ynghalon i mewn serch,
I'm gwir iachau ni aned un, ond eiliw'r tes y feindwf fun.

Ystyria gwen liw lili'r haf, dy serchu'n fawr am gwnaeth yn glâf,
Wyn nychu'n eilun gwael ei lun o'th garu'n faith y feindwf fun.

Yr emen rwydd bydd imi'n ràn, o bydd fy mhriod eiliw'r càn,
Cawn dreulo'n oes yn wir gyttun, mi th garaf fyth y feindwf fun.[99]

Wrth ystyried llinellau megis 'Ag oni chaf liw'r haf mewn hedd, y feindwf fun caf fynd i fedd' a 'dy serchu'n fawr am gwnaeth yn glâf', a ddyfynnir uchod, gellir gweld llif ymwybod y bardd wrth iddo deimlo holl wewyr serch a chariad, nes peri iddo fod yn glaf o gariad.

---

98 NLW 13099B, 199–200.

99 NLW 21423E, rhif 13.

Thema arall a ymddengys yn fynych ym mhenillion a chaneuon serch Iolo yw'r defnydd a wneid o'r llatai, sef anifail a ddefnyddid fel negesydd serch, 'i gludo neges rhwng dau gariad'.[100] Ceir y motif hwn yng ngweithiau Dafydd ap Gwilym, sef prif ladmerydd cyfnod cynnar beirdd yr uchelwyr a arddelai'r dechneg hon. Dyma dri chwpled o'r gerdd 'Y Cyffylog':

Disgyn heddiw ger rhiwallt
Is tŷ gwen, ys teg ei gwallt,
A gwybydd, er delw Gybi,
Ger rhiw, a yw gywir hi.
Gŵyl ei thro, gwylia a thrig
Yno, ederyn unig.[101]

Yr oedd yr anifeiliaid a ddefnyddid fel llateion yn cael eu dewis am reswm penodol, gydag adar megis yr eryr, yr ehedydd, yr wylan, yr aderyn du pigfelyn a'r cyffylog yn cael eu dethol am eu hehediad uniongyrchol a'u cyflymder. Dewisid anifeiliaid eraill megis y carw a'r eog hefyd i gyfleu neges serch y bardd orau.[102] Dyma un o'r caneuon gwerin a gasglodd Iolo ym Mro Morgannwg, sef y 'Rhuppynt hir', ac yn ddi-os, hon yw'r enghraifft orau o blith ei holl ganeuon o'r math hwn o ganu serch:

mi a baraf, i'm gwenaraf
gan a garaf gair o gerydd
am lyfasu fy niflasu
a'm lliasu, em lliosydd.

dere'r deryn, du pigfelyn,
sy'n y dyffryn, yn ei deffro,
dwg fy neges at fachgenes,
am wawr gynes 'wy'n mawr gwyno.[103]

Eglura Dafydd Johnston berthynas y traddodiad hwn o anfon llatai â chysyniad serch cwrtais:

Un o gonfensiynau arbennig y canu serch Cymraeg oedd yr arfer o anfon llatai ... at y gariadferch ... roedd confensiwn y llatai'n agwedd ar serch cwrtais, gan ei fod yn cyfleu delwedd o'r ferch fel bod anghyraeddadwy na ellid ond ymbil â hi am drugaredd.[104]

Gellir honni, gyda defnydd y bardd o '*go-between*',[105] chwedl Catrin Stevens, yr ailymddengys y ddelwedd o wrthych serch y bardd fel duwies, a gellir dychmygu'r dduwies honno'n trigo ymhell oddi wrth feidrolion cyffredin, mewn man cwbl anghysbell.

---

100 Gwilym, *Cerddoriaeth y Cymry*, t. 66.

101 Parry, *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, t. 304.

102 Stevens, *Welsh Courting Customs*, t. 155.

103 NLW 13099B, t. 135.

104 Johnston, *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, t. 15.

105 Stevens, *Welsh Courting Customs*, t. 155.

Fodd bynnag, gwelwyd adwaith yn erbyn serch cwrtais yn ystod yr Oesoedd Canol diweddar, yng ngweithiau beirdd megis Guto'r Glyn (*c.*1435–*c.*93), Dafydd ab Edmwnd (1450–97) a Dafydd ap Gwilym. Ffrwyth yr adwaith hwn oedd diddordeb beirdd amatur, megis Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn (*c.* 1395–1486) ac Ieuan Gethin (1437–90), yn ogystal â beirdd proffesiynol, megis Tudur Penllyn (c. 1420–85) a Hywel Dafi (1450–80), mewn poblogeiddio canu maswedd y cyfnod. Eglura Siwan Rosser rai o nodweddion y canu maswedd mewn perthynas â'r canu serch parchus ym maledi'r ddeunawfed ganrif:

> Y mae ieithwedd lafar, ddelweddol a masweddus y baledi yn rhoi iddynt flas y pridd, tra bo'r epithetau serch confensiynol yn adleisio canu'r beirdd proffesiynol gynt.[106]

Ceir delweddaeth ffantasïol a dychmygol, yn amlach na pheidio, yng nghanu maswedd beirdd gwrywaidd uchelwrol, wrth iddynt bortreadu'r ferch mewn modd condemniol ac israddol. Atega Dafydd Johnston hyn isod:

> Byddai'r freuddwyd o gael caru'n rhydd gyda merch nwydus yn y goedwig mor wahanol i ddefodau disgybledig y llysoedd. A dyna sut y mynnai dynion yr Oesoedd Canol ddychmygu merched ... os byddai merch yn gwrthod ildio, dim ond ei natur dwyllodrus allai fod yn ei chadw rhag cydnabod ei chwant, ac felly roedd yn iawn ei chymryd trwy drais.[107]

Dyma enghraifft sy'n adlewyrchu hyn i'r dim, mewn cerdd o'r enw 'The Bonnie Wee Lassie Who Never Said No', sy'n darlunio'r ferch fel gwrthrych serch y bardd ac, i bob pwrpas, yn gwbl rydd i bleserau cnawdol dynion:

> I come to a cross and I met a wee lass,
> Says I: My wee lassie, are you willing to go?
> Take share of a gill, she said, Sir, I will,
> For I'm the wee lassie that never said no.[108]

Yr oedd y modd y cyfeirid yn gyffredinol at ferched yn y canu hwn yn rhan o'r adwaith yn erbyn serch cwrtais, a nodweddid gan 'agwedd sinigaidd a bwysleisiai wendidau merched, a defnyddio'r rheini'n esgus i'w trin gyda dirmyg'.[109] Eglura A. L. Lloyd y graddau yr aeth y beirdd i adlewyrchu ffaeleddau merched:

> In many parts of the world one finds erotic folk songs that are ostensibly from the woman's viewpoint without really being so ... we know from Burns, for instance, that men may convincingly and with pleasure make erotic poems in which they speak as women.[110]

---

[106] Rosser, *Y Ferch ym Myd y Faled: Delweddau o'r ferch ym maledi'r ddeunawfed ganrif*, t. 17.

[107] Johnston, *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, t. 12.

[108] *The Folk Songs of Britain, Volume 2: Songs of Seduction*, Peter Kennedy, Alan Lomax a Shirley Collins, CD Topic 12T158.

[109] Johnston, *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, t. 13.

[110] A. L. Lloyd, *Folk Song in England* (London, 1967), tt. 202 a 184.

Yr oedd y canu hwn yn boblogaidd ar lefel ryngwladol, ac yn arbennig efallai yng ngwaith y minstreliaid ledled Ewrop yn ystod yr Oesoedd Canol.

Yn ogystal â hyn, cafwyd bri ar ganu maswedd yng ngweithiau cylch y Morrisiaid yn ystod y ddeunawfed ganrif, ond prin iawn yw'r deunydd anllad yn y cerddi sy'n gysylltiedig â'r alawon gwerin a gasglodd Iolo. Cadarnheir hyn ymhellach gan Huw Meirion Edwards:

> It has been seen that his poetry had always been concerned with values such as honesty, fidelity, personal freedom and moral decency in general.[111]

Y mae hyn hefyd yn wir am yr alawon gwerin a gasglodd, sydd nid yn unig yn gwrthod cydymffurfio â chonfensiwn y canu maswedd, ond sydd hefyd yn datgan gwerthoedd a moesau sydd i'r gwrthwyneb i'r canu hwnnw, megis y pennill canlynol a nodwyd yn ei boclyfr:

Un yn serchu cyfoeth bydol,
Arall rhyw fasweddau cnawdol,
Doeth ai serch ar waith dwyfolion,
Lle bo'r trysor bydd y galon.[112]

Cyfeiria 'Hu Gadarn' at y modd y gosodid 'geiriau maswedd'[113] ar amryw ganeuon serch mewn oes 'pan oedd moesau ein cenedl heb fod mor bur ag yn awr'.[114] Yng ngoleuni'r wybodaeth uchod ynghylch egwyddorion moesol Iolo, nid yn unig wrth lunio penillion serch ond hefyd wrth eu casglu, annoeth fyddai datgan y llinell uchod yn ysgafn, gan nad yw caneuon serch Iolo yn perthyn i'r un garfan â chanu maswedd Morrisiaid Môn.[115] Priodas, torcalon, gwrthodiad, cyngor ar serch, tymhorau serch, lleoliadau serch, serch cwrtais, defnyddio llateion a charu yn yr awyr agored yw prif themâu yr alawon gwerin a gasglodd Iolo ar drothwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y gellir eu priodoli'n ganeuon serch.

## Ymdriniaeth o'r alaw 'Y Ferch o'r Scerr'

Ceir pymtheg o ganeuon yng nghasgliad Iolo Morganwg o alawon gwerin y gellir eu priodoli'n ganeuon serch. Mae'r delweddau a ymddengys o dan y pennawd hwn yn amrywio'n fawr, fel y soniwyd uchod, gyda'r gân 'Rhuppynt hir',[116] sy'n perthyn i draddodiad hynafol y canu llatai, y cysyniad o wrthodiad a thorcalon, a adlewyrchir yn

[111] Edwards, 'A Multitude of Voices' yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, tt. 117–8.

[112] NLW 13146A, 269.

[113] Hu Gadarn: 'Nodiadau Cerddorol: Hen Alawon Cymreig y Ddeunawfed Ganrif', *Y Brython*, Cyf. 1, Rhif 37, Hydref 18 (1906), 3.

[114] Ibid.

[115] Gw. erthygl Cathryn Charnell-White, 'Women and Gender in the Private and Social Relationships of Iolo Morganwg' yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, tt. 359–81, am wybodaeth ychwanegol ynghylch agwedd gymysg Iolo at ferched yn fwy cyffredinol.

[116] NLW 13099B, 135.

'Pwyo pen y gofid, Triban (Pont Rhyd y Fenn 1796)'[117] a '(blin yw caru)',[118] yn ogystal â'r modd y defnyddid y cyfrwng hwn i ganu mawl i Forgannwg, megis yn 'Llanbedr ar fynydd. cainc ar fesur Triban (a dance)'.[119] Dyma ymdriniaeth ag un gân serch yn benodol, sef 'Y Ferch o'r Scerr. Tho.[s] Evans Delynwr[120] ai cant'.

Mae'r faled dan sylw, 'Y Ferch o'r Scerr',[121] yn perthyn i deulu sylweddol o ganeuon serch a welir yng Nghymru, ac y mae geiriau'r alaw yn boblogaidd ar daflenni baledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er mai'r alaw yn unig a geir mewn un llawysgrif o eiddo Iolo, ceir penillion ganddo ar gyfer y faled hon mewn dwy lawysgrif arall o'i eiddo (sef NLW 13099B, tt. 150–1 a t. 214). Pum pennill a nodir yn y ddwy lawysgrif, ar ffurf ymddiddan rhwng y telynor (Thomas Evans) a'r ferch. Ceir fersiwn o'r dôn yng nghyfrol Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844).[122] Er hyn, rhaid cofio y codwyd nifer o alawon gwerin o gasgliadau llawysgrifol Iolo ei hun ar gyfer y gyfrol hon, a hynny gan ei fab, Taliesin ab Iolo. Yn anffodus i Iolo, yn dilyn y sylw a'r pwysigrwydd a roddwyd i gyhoeddiad Jane Williams, cafodd ei holl waith a'i lafur ar yr alawon ei esgeuluso. Noda Jane Williams, yn y nodiadau yng nghefn ei chyfrol, mai fersiynau o gopïau Iolo yw ei phenillion hithau, a hynny am mai gan Taliesin ab Iolo y cafodd hi'r deunydd, ac iddo yntau lunio'r ddau bennill iddi ar sail copïau ei dad.[123] Serch hynny, mae fersiwn Jane Williams a fersiwn Iolo, o safbwynt y geiriau, yn amrywio gryn dipyn. O edrych ar y penillion, gellir honni mai drafftiau ydynt, gan fod Iolo yn nodi awgrymiadau ac amrywiadau geiriol ar ymyl y ddalen. Gellir honni felly mai atgynyrchiadau mwy terfynol o fersiynau anorffenedig Iolo a grëwyd gan Jane Williams ar gyfer ei chyfrol hithau, ac mai esiamplau yn unig oedd y gwreiddiol yn llaw Iolo.

Er na phriodolir geiriau ar gyfer yr alaw a gofnodwyd gan Iolo, fodd bynnag, ceir penillion ganddo ar gyfer 'Y Ferch o'r Scerr' a gofnodwyd mewn llawysgrif arall o'i eiddo (sef NLW 13099B, tt. 150–1 a t. 214). Dyma'r penillion:

Mab wyf i sy'n byw mewn penyd,
Am f'anwylyd fawr ei bri,
Gwaith ei charu mwy na digon,
Curio (nychu, dihoeni) wnaeth fy nghalon i,
Gwell yw dangos beth yw'r achos,
Nag i'm aros yn fy nghur,
Mentra seren ato'i'n llawen,
Di gai barch a chariad pur.

117 NLW IAW 145, f.10.

118 NLW 21423E, rhif 14.

119 NLW 13146A, 173.

120 Thomas Evans (1728–1819). Gŵr a aned yn Sir Gaerfyrddin oedd Thomas Evans, ond a fagwyd gan ei rieni i fod yn saer, wedi iddynt symud i'r Nottais, Sir Forgannwg. Fodd bynnag, yr hyn a ai â'i fryd yn fwy na dim arall oedd canu'r delyn, a chafodd yrfa ddisglair fel telynor talentog a chymharol enwog. Ymhen y rhawg, ac yntau wedi tyfu'n lanc, syrthiodd mewn cariad â'r ferch o'r Scerr, sef Elizabeth Williams. Gw. Jenkin Howell, 'Y Traddodiad am Y Ferch o'r Scer a'r Telynwr Dall o'r Nottais', *Y Genhinen*, Cyf. 13, Rhif 4 (1895), 280–1.

121 NLW IAW 145, f.9.

122 Daniel Huws (gol.), *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg* (Aberystwyth, 1994), tt. 42–3.

123 Gw. Ibid. am y ddau bennill a dderbyniodd Jane Williams gan Taliesin ab Iolo.

Pwylla'r bachgen gwyllt ei eiriau,
`Ddwyf dan ofnau rhwymo'm llaw,
Gwaith cael digon o rybuddion,
Wrth gariadon yma `thraw;
Ddwy'n ry ifanc eto i ddianc,
Cymra'i bwyll cyn mynd rhy bell,
Pan bo `i `n barod rhyw ddiwarnod,
Di gai glyw os byddi gwell.

Cofia fi f'anwylyd fanol,
Dan synhwyrol blodau'r sir,
Gwaith `ddwy'n caru'r ffordd y cerddi,
Beth dal imi wadu'r gwir,
Mentra'n wisgi deuliw'r lili,
Paid ag oedi main ei hael,
Dere'n fodlon deurudd dirion,
Torra'i gloion am dy gael.

Llawer promais teg wrth geisio,
Hynny'n hudo meddwl merch,
'N ol priodi, cael tifaru,
Cilio'n syth mae'r annwyl serch,
Dos di'n holliach cyn bo'i hwyrach,
Mae'n bryd bellach i mi fynd,
Os daw'r meddwl yno i'n gwbwl,
Odid fawr na chofia'm ffrynd.

Os daw gofyn am y glanddyn,
Sy'n y dyffryn acw draw,
Mab a wnaiff i'r mud a'r marw,
Wêd yn loÿw dan ei law,
Mae'n nhwy'n ceisio'n nodi heibio,
Mwstro mawr yn ymyl môr,
Os ca'i nghariad imi'n ddifrad,
Bach eu sgil betae nhwy scôr.[124]

Ceir nodyn ar ddiwedd y penillion sy'n datgan mai `Thomas Evan Telynor o'r Drenewydd Nottais ym Morganwg ai cant, cylch y flwyddyn 1760'.[125] Gellir honni y clywodd Iolo fwy nag un fersiwn o'r penillion hyn yn ei gynefin, ac iddo fynd ati i'w gosod ar bapur, gan roddi rhwydd hynt i'r canwr neu'r adroddwr eu datgan fel y mynnent.

Y mae'r stori garwriaethol rhwng y telynor tlawd a'r ferch o'r Scerr (Elizabeth Williams (*c*.1747–76)) yn bur gyfarwydd ar lafar gwlad, ond ceir amrywiadau mwy diweddar arni

124 NLW 13099B, 150– 1, a 214.

125 Ibid., 151.

sy'n ychwanegu at natur gymhleth yr hanes diddorol hwn. Carwriaeth fyrhoedlog a gawsant, gydag un ffynhonnell yn tystio y cafodd Thomas Evans y frech wen, a hynny, yn ôl rhai, mor ddrwg nes iddo golli ei olwg. Er hyn, ceir tystiolaeth arall sy'n honni na chollodd y telynor ei olwg o gwbl, ond mai disgybl iddo, William Mathew, oedd yn ddall o achos y frech wen, felly camddealltwriaeth rywbryd oedd honni mai Thomas Evans oedd y telynor dall o'r Nottais yn y cyswllt hwn. Fel yr eglurir yn fanwl yn erthygl Jenkin Howell yn *Y Genhinen*,[126] yr oedd 'anfoddlonrwydd mawr o du rhieni y ferch', a dyna gefndir y llinell honno, 'mwstro mawr yn ymyl môr', sy'n cyfeirio at y ffaith mai wrth lan y môr yr oedd tyddyn y Scerr, sef cartref Elizabeth. Yn sgil yr anffawd hwn terfynodd Elizabeth y garwriaeth, ac felly ffrwyth ei alar a'i golled yw'r gân werin hon. Y mae manylion yr hanes hwn yn amrywio o ffynhonnell i ffynhonnell, gyda rhai yn honni mai o achos statws cymdeithasol y telynor, a oedd i bob pwrpas yn delynor ffair, a ddaeth â'r garwriaeth i ben, gyda'i thad Isaac Williams yn trefnu iddi briodi â Thomas Kirkhouse, bonheddwr o ogledd Lloegr.[127]

Ceir hefyd gryn ddryswch ynghylch tarddiad y gân, gyda 'Cadrawd' yn dadlau mai cyfansoddiad Thomas Evans oedd y geiriau a'r alaw,[128] ac ar y llaw arall, M. O. Jones a 'Llyfnwy' yn honni mai Dafydd Llewelyn o'r Nottais biau'r geiriau.[129] Ategir isod ddadl Llyfnwy:

> Bu raid i Thomas Morgan (Llyfnwy) geisio tacluso peth ar yr hanes a'i ateb oedd sôn am Thomas Evans fel y carwr a chyfansoddwr yr alaw ac am David Llewellyn fel awdur y geiriau. Rhaid bod y stori wedi ennill ei phlwyf fel yr aeth y ganrif rhagddi, gan dderbyn manylion ychwanegol a mân newidiadau oddi wrth bob cenhedlaeth.[130]

Noda Allan James duedd cymdeithas i gymhwyso hanesion i'w diben ei hun:

> Un o brif nodweddion llên gwerin, wrth gwrs, oedd ei bod yn gymunedol a di-ffin, deunydd na fwriedid iddo gael ei ddiffinio'n achyddol gyfleus yn ôl egwyddorion oes bur wahanol ei naws a'i phwyslais ... Gwelwyd tuedd, felly, i geisio pennu ffiniau ac awduriaeth mewn maes lle byddai gwybodaeth o'r fath yn cael ei hystyried gan y gwerinwr ei hun yn hollol amherthnasol a di-fudd. Symudodd y ddwy gân (Y Ferch o Gefn Ydfa a'r Ferch o'r Sger), gydag amser, o gyd-destun i gyd-destun dan ddylanwad amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol a'r broses gymhleth honno a sicrhaodd i'r naill gân a'r llall le amlwg yn hanes diwylliannol y rhanbarth.[131]

---

126 Jenkin Howell, 'Y Traddodiad am Y Ferch o'r Scer a'r Telynwr Dall o'r Nottais', *Y Genhinen*, Cyf. 13, Rhif 4 (1895), 280–1.

127 Gw. erthygl Allan James yn ogystal, 'Y Ferch o Gefn Ydfa a'r Ferch o'r Sger' yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Llynfi ac Afan, Garw ac Ogwr* (Llandysul, 1998), tt. 84–111, am gefndir manylach o'r hanes.

128 D. Emlyn Evans, 'Y Ferch o'r Scer', *Y Cerddor*, Cyf. V, Rhif 56, (1893), 94.

129 Ibid.

130 James, 'Y Ferch o Gefn Ydfa a'r Ferch o'r Sger' yn Edwards (gol.), *Llynfi ac Afan, Garw ac Ogwr* (1998), t. 97.

131 Ibid., t. 110.

Yr alaw yn unig a geir yn fersiwn Iolo o 'Y Ferch o'r Scerr', yn ogystal â chyfeiriad at yr awdur, sef 'Tho.s Evans Delynwr ai cant'.



**Ffigwr 1**: 'Y Ferch o'r Scerr. Thos. Evans ai cant', cofnodwyd gan Iolo Morganwg (NLW IAW 145, f.9). Atgynhyrchir trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yr oedd yn y cyfnod hwnnw draddodiad o nodi'r ymadrodd 'ai cant' yn gynffon i nifer o alawon gwerin a cherddi caeth, megis cywyddau hefyd. Er enghraifft, ar waelod y gerdd 'Cân y Maensaer, neu'r Maensaer Mwyn',[132] sef un o'r caneuon gwaith a gasglodd Iolo, ceir y nodyn, 'traddodiad gwlad ai cant'.[133] Hefyd, defnyddiodd Lewis Morris yr ymadrodd 'L.M. ai cant' i hawlio perchnogaeth ar ei ganeuon gwasael, a gyfansoddwyd ym 1717.[134] Arddelai Iolo y traddodiad hwn, a rhoddai ei flaen lythrennau ar ddiwedd teitlau yn aml, er enghraifft, 'Mesur Carol Haf I.M.'[135] a 'Cyhydedd Gyrch 8 a Saith I.M.'.[136]

Dyma drawsgrifiad golygedig o 'Y Ferch o'r Scerr', sy'n profi nad yr alaw arferol, gyfarwydd, gyhoeddedig, yn unig y gellir ei chanu ar eiriau teimladwy'r telynor o'r Nottais:[137]

132 NLW 13146A, 424–5.


133 Ibid., 425.

134 Jones, 'Gwaith Prydydd da'i Awenydd... : Cerddi Gwasael a Phenillion Telyn Lewis Morris', 5.

135 NLW 21375A, f.36v.

136 NLW IAW 145, t. 12.

137 Mae'r trawsgrifiad golygedig o'r alaw hon yn seiliedig ar olygiad Phyllis Kinney, yn ei chasgliad personol o alawon gwerin Iolo Morganwg, yn ogystal ag awgrymiadau Mr Wyn Thomas.




**Ffigwr 2**: Golygiad o 'Y Ferch o'r Scerr. Thomas Evans Delynwr a'i cant'.

## Diweddglo

Y mae'n amlwg mai cymhwyso ac efelychu motifau a thechnegau beirdd o gyfnod cynharach yn hanes traddodiad barddol Morgannwg a wnâi Iolo yn y cerddi rhydd hynny a dadogwyd ar Rhys Goch ap Rhiccert a'r cerddi caeth a dadogwyd ar Ddafydd ap Gwilym, neu 'Dafydd Morgannwg', fel y galwai Iolo ef. Dyma, i bob pwrpas, ymgais lew ganddo i ddwyn holl rinweddau'r ardal honno i olau dydd, ac yn fwy pwysig efallai i sylw gweddill Cymru. Cydnebydd P. J. Donovan gyfraniad Iolo i draddodiad canu rhydd Morgannwg:

> Gallwn ni o Forgannwg ymffrostio yn y ffaith fod gennym, nid yn Rhys Goch na Rhys Brydydd, ond yn Iolo Morganwg, un o feirdd meistrolgar y canu rhydd.[138]

O ystyried y themâu a ymddengys yn yr alawon gwerin a gasglodd Iolo, ceir cipolwg ar draddodiad gwerin, barddol a llenyddol Bro Morgannwg y ddeunawfed ganrif, sydd hefyd yn olrhain motifau o draddodiad barddol yr Oesoedd Canol. Dywed D. Gwenallt Jones:

> I Lewis Morris, Theophilus Jones, Iolo Morganwg ac eraill yr oedd hynafiaeth Cymru yn hŷn na hynafiaeth pob gwlad arall, a'i hiaith a'i barddoniaeth yn blodeuo cyn bod sôn am Roeg a Rhufain.[139]

[138] Donovan, *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, t. xi.

[139] Jones, *Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif*, t. x.

O ganlyniad, roedd cymhelliant cryf yn gyrru ac yn ysbrydoli, nid yn unig yr unigolion uchod, ond hefyd nifer helaeth o feirdd a hynafiaethwyr eraill y cyfnod, i ddwyn sylw o'r newydd tuag at eu 'gorffennol gwych'. Iolo y bardd a'r ffugiwr oedd wrthi yn hyn o beth, ond cymhelliant cwbl wahanol a'i gyrrodd i gasglu alawon gwerin ei gynefin – Iolo y casglwr oedd ar waith yma. I gau pen y mwdwl dywed Daniel Huws:

> Ffaith sylfaenol yw nad oedd yr un cymhellion ag oedd mewn perthynas â thestunau llenyddol: nid oedd yr un gynulleidfa. Prin y byddai uchelgais yn ei yrru i ffugio alawon, na chwaith yr ysfa i brofi damcaniaeth.[140]

[140] Daniel Huws, *Caneuon Llafar Gwlad ac Iolo a'i Fath* (Penygroes, 1993), t. 12.

# Cyfranwyr

## Bryn Jones

Brodor o Lanberis yw Bryn Jones. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug cyn graddio mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor yn 1982.

Yn dilyn cyfnod fel athro cynradd, penodwyd ef yn ddarlithydd yn y Coleg Normal yn 1995, a chyfrannodd i'r cwrs Addysg Gwyddoniaeth ac Astudiaethau Proffesiynol (Addysg).

Y mae bellach yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan ESRC dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor. Agweddau ar addysg ddwyieithog yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru yw ffocws ei waith ymchwil presennol.

## Elin Royles

Yn wreiddiol o Sir y Fflint, mae Elin yn ddarlithydd yn Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth.

Effaith datganoli ar gymdeithas sifil yng Nghymru yw ei phrif faes ymchwil a phwnc ei chyfrol 'Revitalizing Democracy? Devolution and Civil Society in Wales' (Gwasg Prifysgol Cymru, 2007).

Mae ei gwaith ymchwil ehangach hefyd yn gysylltiedig â phrosesau creu cenedl, gan gynnwys ymchwilio i gysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth y Cynulliad a chymharu Cymru â Chatalwnia.

## Leila Salisbury

Myfyriwr doethuriaeth yn Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor yw Leila Mair Salisbury, a maes ei hymchwil yw cerddoriaeth draddodiadol Cymru'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ganolbwyntio ar weithgarwch cerddorol Mair Richards Darowen (1787–1877).

Magwyd Leila yn Llangynog, ger Caerfyrddin, a mynychodd Ysgol Gyfun Bro Myrddin cyn graddio mewn Cymraeg a Cherddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor.

Wedi graddio yn 2006 dilynodd gwrs MPhil yn dwyn y teitl 'Canu'r Dewin o Drefflemin: Golwg ar Alawon Gwerin Iolo Morganwg' sy'n cynnwys astudiaeth o gyd-destun ehangach y cyfnod, golygiad a nodiadau eglurhaol i gyd-fynd â'r alawon. Mae rhan o'r astudiaeth honno wedi'i chyhoeddi yng nghylchgrawn *Canu Gwerin* (Cyf. 31, 2008) o dan y pennawd ''Hai haw Brithi i'r buarth' – Golwg ar ganeuon gwaith Iolo Morganwg'.

Rhif 5 Ionawr 2010 • ISSN 1741-4261

# Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261

05

9 771741 426008